













# AMDDIFFYNIAD

O

## **BRYNEDIGAETH NEILLDUOL:**

YN CYNNWYS

CYNGHAWS, WRTH AIR DUW,

AR

ATHRAWIAETHAU Y DIWEDDAR MR. FULLER,

MEWN PERTHYNAS I

## **IAWN CRIST.**

MEWN PEDWAR LLYTHYR AT WEINIDOG O'R BEDYDDWYR.

GAN

**WILLIAM RUSHTON, JUN.**

*LIVERPOOL.*

Wedi ei gyfieithu yn ffyddlon o'r Saesneg gan BEN. JONES, (P. A. Mon.)

**Atta:**

ARGRAPHWYD GAN R. W. ROBERTS, DROS Y CYHOEDDWWR.

**1838.**

Theology Library  
SCHOOL OF THEOLOGY  
AT CLAREMONT  
*California*

## AT Y DARLLENYDD HYNAWS.

---

FEL ac y mae gwahanol olygiadau gan ddynion, ac amrywiaeth mewn barnau mewn perthynas i IAWN CRIST, yr hyn a achlysuodd ysgrifennu y llythyrau canlynol, pa rai a gyfansoddwyd yn yr iaith Saesneg, ac a gyfieithwyd i'r Cymraeg, gan P. A. Môn; a chan fod yr iaith yn lled uchel ac amryw o eiriau yn lled an-adnabyddus i'r werin yn gyffredin, dymunir ar y darlenydd ei ddarllen yn fanawl ac yn bywllog.

Ac mewn trefn i ddarllen yn ddeallus, ac i farnu yn gywyr mae 'n anhebgorol angenrheidiol i'r darlenydd gael ei ddiafogi o ragfarn bleidiol, ac i brofi a phwyso yr hyn sydd yn cael ei drin wrth gywyr glorian y cyssegr. Ac i'r gwaith hwn fod o fendith i fy ngenedl yn ngorllewinol gyfandir America, yw dymuniad eich cyd-wladwr a'ch ewyllysiwr da,

ROBERT THOMAS.

Steuben, Mai 30, 1838.

School of Theology  
at Claremont

A12019



TO THE  
BAPTIZED CHURCHES OF JESUS CHRIST  
IN THE  
PRINCIPALITY OF WALES.

---

*Honored and Beloved Brethren,—*

I should have thought it my duty to offer an apology for the liberty I have taken in dedicating to you this Welsh edition of a work which I have lately published in England, were it not that the great importance of the subject treated of, renders such a formality altogether unnecessary. For if what I have written is approved by the great Head of the Church, your reception of it will confer honor on yourselves rather than on me; but if the doctrine I have delivered will not bear the test of His word, then no apology of mine, no expressions of affected humility, can possibly discharge you from the duty of rejecting it utterly, and trampling it under your feet. The truth of Christ stands in no need of apologies, or of human support; it rests on its own immovable foundation, and proceeds in its own majestic grandeur.

I have the satisfaction, however, to inform you that this translation is published at the request of some of your own brethren, especially at the desire of that venerable minister of Christ, Mr. Christmas Evans, who has long labored among

you in the Lord, and whose praise is in all the churches. And when you are informed that the translator is Mr. Ben. Jones, P. A. Môn, who is already known to you as a theologian and a poet, you will not doubt that the translation is faithfully and ably executed.

If the following letters do not meet with acceptance among you, I have no expectation that they will amongst any other denomination of Christians in Wales. Although the Calvinistic Methodists are worthy of much esteem for their attachment to the doctrines of grace ; and although they have, much to their honor, protested against the pernicious sentiments of Dr. Williams, yet the unhappy sectarian zeal which actuates too many of that denomination, renders my hope of encouragement from them very faint.

That you, brethren, may stand fast in the faith of the gospel ; that you may never tolerate those corruptions which are the ruin of the churches in England ; that you may be honored to endure the shame and reproach of Christ ; that you may always abhor a worldly and fashionable profession of religion ; that you may enjoy much of the comfortable presence of the Lord Jesus in your assemblies ; and that you may be acknowledged by him when he comes in his glory, is the fervent prayer of your brother in the faith,

WILLIAM RUSHTON, JUN.

LIVERPOOL, Nov. 12, 1832.

AT

## EGLWYSI BEDYDDIEDIG IESU GRIST

YN

### NHYWYSOGAETH CYMRU.

---

*Frodyr Anrhydeddedig ac Anwyl,—*

YSTYRIASWN yn ddyledswydd arnat gynnyg ymesgusodiad am gymmeryd fy nghennad o gyflwyno i chwi yr argraphiad Cymraeg hwn o waith a gyhoeddais yn ddiweddar yn Lloegr, oni bae fod mawr bwysigrwydd y pwnge yr ymdrinir ag ef yn gwneuthur y cyfryw ffurfioldeb yn gwbl afreidiol. Canys os cymmeradwyir yr hyn a ysgrifenais gan Ben mawr yr Eglwys, eich derbyniad chwi o hono a ddyd anrhydedd arnoch chwi yn hytrach nag arnaf fi; ond os ni ddeil yr athrawiaeth a draddodais ei phrofi wrth ei air Ef, yna ni ddichon unrhyw ymesgusodiad o'r eiddof fi, unrhyw amlygiadau o ostyngeiddrywedd ffuantus, mewn un modd eich rhyddhau oddiwrth y ddyledswydd o'i wrthod yn hollol, a'i sathru dan eich traed. Ni raid i wirionedd Crist wrth unrhyw esgusodion, neu gynhaliaeth dynol; ar ei sylfaen diymmod ei hun y gorhwys, ac a â y'mlaen yn ei ardderchawgrwydd mawrhydig ei hun.

Y mae i mi, pa fod bynag, y boddlonrwydd o'ch hyspysu, y cyhoeddir y cyfieithiad hwn ar annogaeth rhai o'ch Brodyr chwi eich hunain, yn enwedig ar ddymuniad yr haeddbarch

weinidog hwnw i Grist, Mr. Christmas Evans, yr hwn a lafur-iodd yn hir yn eich plith yn yr Arglwydd, a'r hwn sydd a'i glod yn yr holl eglwysi. Ac wedi eich hyspysu, mai y cyfieithydd yw P. A. Môn, yr hwn sydd mor adnabyddus yn eich plith fel ysgrifenydd, nid amheuwch gyflawni y cyfieithiad yn ffyddlon a galluog.

Os ni chaiff y llythyrau canlynol dderbyniad yn eich plith chwi, nid oes i mi ddisgwyl y cant yn mysg neb enwad arall o Gristionogion yn Nghymru. Er y teilynga y Trefnyddion Calfinaidd barch mawr am eu hymlyniad wrth athrawiaethau gras, ac er iddynt, er eu mawr anrhedd, wrth-dystio yn erbyn syniadau niweidiol Dr. Williams, eto, y sel bleidiol annedwydd ag a lywodraetha ormod o'r enwad hwnw, a wna fy ngo-baith am gefnogaeth oddiwrthynt hwy yn bur llesg.

Ar i chwi, Frôd yr, sefyll yn ddiysgog yn ffydd yr efengyl; na byddo i chwi byth ddioddef y llygredigaethau hynny ag ydynt ddinystyr eglwysi yn Lloegr; ar i chwi gael eich anrheddu i ddioddef cywiliyd a gwaradwydd Crist; ar i chwi yn was-tad ffieiddio proffes fyfod a dullweddol o grefydd; ar i chwi fwynhau llawer o bresennoldeb diddanus yr Arglwydd Iesu yn eich cynnulleidfaoedd, ac ar i chwi gael eich cydnabod ganddo ef pan ddel yn ei ogoniant, yw gweddi daer eich Brawd yn y ffydd.

LLYNLLIFIAD, Tach. 12, 1832.

## ARWEINIAD I MEWN.

---

YR wyf yn meddwl yn iawn hyspysu i'r darllenyydd, i mi, ryw amser yn ol, yn ddamweiniol, fod mewn dadl bersonol ar natur a helaethrwydd iawn Crist, a Gweinidog lled enwog o'r Bedyddwyr yn swydd Northampton. Ar ein hymadawiad, erfyniodd arnaf yn ddifrifol ddarllen "Ymddiddanion, Llythyrau, a Thraethodau Mr. Fuller," yr hyn a addewais wneuthur. Nid cynt y darlenais ac yr ystyriaus y gwaith hwnw, a lyngcasai fy nghyfaill, nag yr ymddangosodd twyll athrawiaeth Mr. Fuller i mi mewn modd mwy neillduol nag erioed o'r blaen; a theimlais sicrwydd ynof y gellid, gydag ychydig safur, wneuthur yn amlwg dwyll a thegwch arwynebol golygiadau Mr. Fuller. Gyda'r argyhoeddiad hwn, pendersynais gynnyg dymchweliad o honyn, ac i'w cyhoeddi yn y Llythyrau canlynol.

Mwy na thebygol yw y bydd i ryw bersonau gweiniaid ac anystyriol, dramgwyddo wrth yr hydra a gymmerais gydag enw Mr. Fuller, am na all, ac efe yn awr yn farw, ateb drosto ei hun. Er nad ofnaf unrhyw wrthddadl o'r natur yma oddiwrth rai adnabyddus ag achosion llëenyddol, etto, er mwyn y gwan, ac o achos yr ymrysongar, cynnygiaf yr esgusodiad canlynol:

1. Ni chyfeirir y Llythyrau canlynol yn erbyn Mr. Fuller, ond yn erbyn yr athrawiaeth ffynadwy yn awr yn eglwysi y Bedyddwyr.

2. Annichonadwy gwrthwynebu yn effeithiol yr athrawiaeth hon, heb gyfeirio at ryw ysgrifenadau cydnabyddol, yn y rhai ei gosodir ar lawr, ac ei diffynir; a'r ysgrifenadau addefol hyn ydyw, "Cyd-ymddiddanion, &c." Mr. Fuller. Mae yn wir bod rhai awdwyr yn fyw a haerant yr un pethau; ond yr ysgrifenwyr hyn ydynt islaw Mr. Fuller mewn enwogrwydd a thalentau dadlwriaethol. Ni fyddai ymosod arnynt hwy, gan hyny, yn caniatau i'm gwrthynebwyr lawn ymarfer o'u nerth; nac ychwaith gweddus fyddai i achos mawr y gwirionedd ymladd a'r is-swyddog, tra fyddo y pen-campwr yn hério amddiffynwyr prynedigaeth neildduol, ac yn bloeddio allan, "Dewiswch i chwi wr i ddyfod i waered attaf fi."

3. Pan gyhoeddo awdwr ar destynau dadleugar, efe a wna hyny nid yn unig i'r genhedaeth a fyddo byw yr amser hyny, ond dros oesodd i ddyfod. Er iddo farw fel dyn, byw yw efe etto fel awdwr, yn dysgu, a llafaru cyhyd ag y darllenir ei ysgrifenadau. Cyflawn yw, gan hyny, chwilio egwyddorion ae athrawiaethau awdwr, pa un bynag ai byw ai marw fyddo. Pa ddyn o synwyr a feiai y Cadeirdraw Edwards, am gyhoeddi ei ddymchweliad o Dr. Whitby, wedi marwolaeth y Doctor? Neu, pwy a gyhuddai Mr. Fuller o annhegwch, am cyhoeddi ei "Nodiadau ar Sandemaniaeth," yn hir wedi dychwelyd Mr. Robert Sandeman i'w lwch dechreoul?

4. Ond os, er yr eglurhad yma, y bydd rhyw Weinidog o'r Bedyddwyr, neu neb arall adnabyddus o'r ddadl, ac wedi mabwysiadu o hono olygiadau Mr. Fuller, yn teimlo ei hun yn dramgwyddedig, am ddwyn i mewn fel hyn enw Mr. Fuller, cymmered y cyfryw un ei ysgrifell, ac fel y darlengo, dileed enw Mr. Fuller, ac ysgrifened ei enw ei hun yn ei le; a bydded wybodus iddo mai efe yw y dyn yr ysgrifenaif fi yn ei erbyn, ac nid y trangcedig Mr. Fuller. Os yw y darlenydd, pa fodd bynag, yn un o'r personau ffafriedig yr hwn a dynwyd gan y

Tad at Iesu, efe a ddysgodd yn barod gymaint o ddrygedd anfeidrol pechod, a gwagedd pob peth crëedig, ag i ffieiddio ei hun a'i hunan-gyflawnder, ag i werthfawrogi dim mewn cymhariaeth i'r gwirionedd. Ac yn y munudau dedwydd hyny, pan yr anrhydeddir ef a chip-olwg o'r Oen dyrchafedig, gogoniant goruchel yr hwn a lanwa nefoedd a daear, oerlyd yr edrych ar awdurdod ddynol, doethineb ddynol, a theilyngdod dynol. Ni thramgwyddir y cyfryw un pan adewir heibio awdurdod enwau clodfawr gyda dirmyg, fel yr amddiffyner y gwirionedd ; eithr yn hytrach efe a ddysgodd, mewn rhyw radd, “*beidio a'r dyn yr hwn sydd a'i anadl yn ei ffroenau ; canys ym mha beth y gwneir eyfrif o hono.*”

Yr unig bersonau i'r rhai y cynnygiwn i un peth fel cysgod o esgusodiad, dros y dull ymadrodd dadleuol yn y Llythyrau canlynol, yw plant cystuddiedig calon-ddrylliadig Seion. Miwn fod ymddadlyddiaethau yn chwerwi a thrallodi y meddwl tyner. Ond pa fodd y gallwn ni ymdrechu yn ddifrifol o blaid y ffydd, heb ddadlyddiaeth ? Onid oedd ein Harglwydd a'i apostolion yngfael yn fynych mewn ymresymiad a gwrthwyncbwyr y gwirionedd ? Gobeithiaf, gan hyny, na thramgwyddir wyn y praid, yn enwedig pan ystyriont bod y pethau yr ymdrechir drostynt yn y tu-dalenau canlynol o'r pwysigrwydd mwyaf—pethau ag y mae anrhydedd Duw a gogoniant ein Gwaredwyr anwyl yn perthynu iddynt ; a'r rhai ydynt angenrheidiol i nerthu eu dwylaw gweiniaid eu hunain, a chadarnhau eu gliniau llesg. Mae yn llawn bryd bellach i gyfeillion y gwirioned lafaru yn hyf. Ni chuddia cyfeiliornad ei ben atgas yn hwy, ond balch-rodia ar led yn ngwyddsfod yr haul, a hëria yn watwarllyd amddiffynwyr gras penarlwyddiaethol.

Er i mi yn y llythyrau canlynol haeru yn éofn ac yn ddiammwys yr hyn a gredaf fi yw y gwirionedd, ac er i mi ymdrechu dinoethi twyll y cyfeiliornad gwrthwynebol, gobeithaf na

cha y darlleydd ddim anghydweddol a llarieidd-dra ac add-fwynder Crist. Yr wylf yn cydnabod i mi amlygu digofaint at anwired, eithr ni ddysgais etto fod hyn yn anghyson ag ysbryd yr efengyl, neu yn groes i siampl ein Harglwydd. Trwy y cyfan oll, astudiais fylder ac eglurdeb ; ac ni bum anghofus o gynghor hyspys y bardd, yr hwn y dylai pob ysgrifenydd dadleuol ei ystyried.

“ Quidquid præcipes esto brevis, ut cito dicta  
Percipient animi dociles, teneantque fideles.”

Yn gryno boed dy fatter,  
Yn eglur boed dy iaith ;  
A’th ’sgrif yn well dealler,  
A haws fydd cofio’r gwaith.

I’w ddwylaw Ef, gwas yr hwn y proffesaf fy mod, y gor-chymynaf fy ngwaith yn hyderus, er y pechadurusrwydd a’r anmherffeithrwydd glynedig wrtho. Ystyriaf yn fwy na chael fy ngwobrwyo am fy llafur, os gnweir ef yn ddefnyddiol i neb o’i waredigion ef. Ond os ei ewyllys yw iddo farw cyn gynted ag y genir ef, ac i aros mewn distawrwydd dros byth, hyderaf y byddaf fi foddlon. Canys y mae yn gwbl sicr genyf y bydd i’r Arglwydd amddiffyn ei wirioneddau anfarwol ei hun yn ei ffordd ei hun, ac yn ei amser ei hun, er y gall cyfeiliornad lawenhau mewn buddugoliaeth amserol, ac i’r gwirionedd “ gwympo yn yr heol.”

## LLYTHYR I.

ANWYL SYR,

YN ol eich deisyfiad difrifol, mi ddarllenais yn ofalus gy-hoeddiad Mr. Fuller, a elwir, " Ymddiddanion, Llythyrau, a Thraethodau." Ac er fy mod yn hir o'r blaen yn gydnabyddus a'i farn yn gyffredin, ac wedi darllen yn ystyriol rai o'i ysgrif-enadau, etto nis gwn pa hyd yr oedaswn ddarllen ei " Ymddid-danion," oni buasai eich annogaeth ddifrifol chwi. Ystyriaf fy hun, gan hyny, yn ddyledus, nid mewn gradd bychan, i chwi am y boddhad a'r budd a dderbyniais oddiwrth ryw ranau o'r gwaith hwnw. Yn y rhan gyntaf a'r ail, yn neillduol, dat-guddia Mr. Fuller y fath gryfdwr meddwl, a'r cyfryw ddyfn-der meddylfryd gwreiddiol nodedig ynddofel ysgrifenydd dadl-eoul; efe hefyd a amddiffynodd amryw wirioneddau gogo-neddus, ac a wrthbrofodd yn fuddugoliaethus rai cyfeiliornadau peryglus. Yma ac acw, yn wir hyd yn oed yn y ddwy ran gyntaf, cyffyrdd a rhai pyngciau, ar y rhai ni ddisgwyliwch i me gyttuno ag ef; ond yn y drydedd ran, lle yr eglura efe ei hun yn fwy neillduol ar y pwngc holl-bwysfawr hwnw, a ddali-odd ein sylw pan y cefais y boddhad o ymgylfarfod personol a chwi, ac y'nghylch yr hwn, yn fwyaf enwedigol, yr wyf fi yn cael achos i anghytuno ag ef.

Mae'n wybodus ddigon y gwrthwynebir rhyw wirionedd neillduol yn fwy effeithiol drwy ddwyn i mewn egwyddorion anghyson ag ef yn hytrach na thrwy ymosodiad uniongyrchol ar y gwirionedd hwnw. Yn awr, oni chamsyniaf, dygwyd i mewn egwyddorion Arminaidd i'r eglwysi yn y modd hwn, drwy ysgrifeneddau Mr. Fuller yn fwy effeithiol na phe gwrth-wynebasai athrawiaethau gras yn ddiorchudd, a defnyddio holl rym ei ysgrifell galluog yn erbyn etholedigaeth, gras effeithol, a pharhad hyd y diwedd. Y pethau hyn a broffesodd efe ddal yn ddihalog ;\* etto, drwy sefyll dros gredu yn Nghrist fel

\*Preface to "Gospel Worthy of all Acceptation," page 7.

dyledswydd foesol, yn gynnwysedig yn wreiddiol yn y ddeddf; yn ei olygiadau ar anallu moesol; yn enwedig drwy y syniadau a ddygodd ef y'mlaen mewn perthynas i Iawn Mab Duw, efe a arlwyodd gyfundraeth i'r rhai rhag-dueddol i Arminiaeth; ac y mae y gyfundraeth hon wedi llwyddo mor bell yn yr egwlwysi, fel y clywn yn agos cyn lleied am iachawdwriaeth orphenol, a phe byddem Arminiaid; mor ychydig am ernes a thystiolaeth yr Yspryd, a phe byddem Sandemaniaid.

Yn mhob cyfeiliornad crefyddol, y mae rhyw an-athrawiaeth neillduol yn sylfaen iddo, ar gyfer yr hwn y saif rhyw gangen o wirionedd dwyfol, rhagor un arall, yn wrthglawdd. Yn nadl Mr. Fuller a'i frodyr y Bedyddwyr, IAWN CRIST yw y pwngc arbenig. Nid rhyfedd genyf, gan hyny, ei weled yn llafurio mor ddyfal i egluro ymaith yr athrawiaeth o Brynedigaeth Neillduol, a thrwy bob modd, i sefydlu ei olygiad ei hun am yr iawn, fel yr hyn a gyfansodda unig sylfaen ei gyfundraeth. Pa mor bwysig bynag y gall fod y ddadl y'nghylch ffydd a galwedigaethau cyffredinol, diflana i ddiddymdra mewn cymhariaeth i ddadl yr iawn. Y neb a fyddo gyfeiliornus yn hyn, ni all fod yn iach mewn un athrawiaeth arall o eiddo gras. Ond pan ddeallir marwolaeth Crist yn ei natur fachniol, sicrwydd ei heffeithioldeb, a'i chymmeriad neillduol, cynnwysa yr amddiffyniad cadarnaf o ras pen-arglwyddiaethol, yn erbyn holl ymosodiadau cyfeiliornadau y Neonomiaid, yr Arminiaid, a hanner Morganiaid. At y pwngc pwysfawr hwn yn benaf y cyfarwyddwyd ein hymddiddan, pan, yn ein cyd-ymgyarfod cyfeillgar, yr ymddiffynasoch chwi, ac y gwrthwynebais inau syniadau Mr. Fuller; a thu ag at y pwngc sylfaenol hwn y mynwn etto ymhweddu eich clust-ymwrundaiad drwy gyfrwng llythyrol. Awyddus ydwyf i wneuthur hyn, nid yn unig am y ffyna ei olygiadau agos yn gyffredinol, ond hefyd o achos yr holl wrth-attebion a welais i, i Mr. Fuller,\* y pwngc hwn a esgeuluswyd agos yn hollol; ac yntau ei bwngc sylfaenol, a mwyaf archolladwy. Nid wyf yn bwriadu cyffwrdd a'r pyngciau eraill mewn dadl, ond cyfyngu fy hun yn llwyr at yr athrawiaeth y traethir arni yn benaf yn y drydedd ran o'r "Ymddiddanion," hyny yw, athrawiaeth yr IAWN. Wrth wneuthur hyn, bydd i mi ymofyn yn ofalus beth yw golygiadau Mr. Fuller ar y pwngc. Cymmeraf ofal i beidio eu cam-

\*Yr wyf yn eithradu Pregeth Mr. Booth ar "Gyflawnder dwyfol," &c. yr hyn, gyda'r Attodiad, a ellir ystyried yn fath o waharddiad yn erbyn tybiadau Mr. Fuller; ond ni phroffesa y gwaith hwnnw fod yn ddymchweliad llawn iddynt, ac ni chrybwylir gymaint ag enw Mr. Fuller yn y Bregeth na'r Attodiad.

ddeall. Dadgyllymaf hwynt yn fanwl, a'u cymharu ag ysgrythyrau y gwirionedd tragicwyddol. Bydd yn angenrheidiol, ynte, yn y lle cyntaf, ymwrando beth a ddygodd Mr. Fuller y'mlaen ar yr erthygl fawr hon o'r athrawiaeth gristionogol, drwy goffau ei eiriau ef ei hun :

“ Pe gofynasai Duw lai na gwir ddrwg-haeddiant pechod yn *iawn*, yna ni allasai fod boddlonrwydd wedi ei wneuthur i gyflawnder dwyfol drwy y cyfryw iawn. Ac er y byddai yn anmhriodol arddangos gwaith mawr y prynedigaeth megis math o negeswriaeth masnachol rhwng gofynwr a dyledwr, etto boddloni cyflawnder y'mhob achos o drosedd, a ofyna bod amlygiad o anfoddlonrwydd yr hwn y troseddwyd yn ei erbyn at ymddygiad y troseddwr, yn gyfartal i'r hyn ag yw natur y trosedd mewn gwirionedd. Nid diben cospedigaeth yw trueni y troseddwr, ond y daioni cyffredin. Ei amcan yw amlygu anfoddlonrwydd yn erbyn anufudd-dod ; a phan y rhoddir cosp yn ol teilyngdod y trosedd, yna y boddlonir cyflawnder. Mewn geiriau eraill, y cyfryw amlygiad o anfoddlonrwydd a gyhoeddir gan y Deddf-roddwr, fel y gallo pob deiliad o'i ymrodraeth ddarllen ynddo beth yw ei olygiadau o'r drwg a wa-hardda, a pha beth yw ei benderfyniadau mewn perthynas i'w gospedigaeth. Pe derbyniasai pechaduriaid yn eu personau eu hunain wobr eu hanwiredd, boddonesid cyflawnder yn y ffodd hono, ac os dyfeisiodd yr anfeidrol fendigedig Dduw ffodd er ein iachawdwriaeth, er y gallai na chyfyngodd efe ei hun wrth gyd-ffurfiad llythyrenol a'r rheolau cyflawnder hyny a nododd efe allan i ni ; etto, yn sicr, ni ymadawa efe oddiwrth eu hysbryd hwynt. Rhaid yw boddloni cyflawnder, hyd yn oed yn y fford hono. Yr iawn a wneir gan fachniydd, mewn unrhyw achos, a ofyna ateb yr un diben wrtho, megis pe dioddefasai yr euog yn wirioneddol. Mae'n angenrheidiol amlygu anfoddlonrwydd y tramgyddedig mewn ymadroddion mor nerthol, neu mewn ffodd wedi ei haddasu i beri argraphiad mor ddwfn ar yr holl rai y perthyna iddynt, a phe cymmerasai y gyfraith ei rhedfa arnynt ; pe amgen ni wnelid *iawn*, a thrugaredd a ymfuddugoliaethai ar draul cyflawnder.”\*

Y difyniadau canlynol a gymmerir o'r drydedd ran, lle y dyga Mr. Fuller i mewn ei olygiadau mewn ffurf o gyd-ymdiddan rhwng Pedr, Iago, ac Ioan. Iago a ddygir i mewn fel yn amlygu syniadau Mr. Fuller. Pan y gofynir gan Pedr ei olygiadau ar gyfrifiad, efe a ettyb :—

\*Dialogues, &c. page 162—164.

“ Cyfris, yn gyffredin, a arwyddha gyhuddo, priodoli, neu osod yn erbyn, yn ol y gwahanol wrthrychau y cymhwysir ef attynt. Mae i'r gair hwn, fel llawer eraill, ystyr briodol ac anmhriodol, neu gyffelybiaethol. Yn gyntaf, cymhwysir ef at gyhuddo, priodoli, neu osod yn erbyn personau a phethau, *yr hyn yn briodol a berthyna iddynt*. Hyn wyf yn ystyried ei ystyr priodol. Yn yr ystyr hwn y defnyddir y gair yn y manau canlynol :—‘Eli a feddyliodd ei bod hi (Hannah) yn feddw,’ &c. &c. Yn ail, cymhwysir ef at gyhuddo, priodoli, neu osod yn erbyn personau a phethau *yr hyn yn briodol ni pherthyna iddynt, fel pe perthynai*. Hyn a ystyriaif ei ystyr anmhriodol, neu gyffelybiaethol. \* \* \*. Yn yr ystyr olaf yr wyf fi yn deall yr ymadrodd pan ei cymhwysir at gyfiawnhad. \* \* \*. Yn yr ystyr yma hefyd y deallaf fi gyfrifiad o bechod i Grist. Efe a gyfrifwyd yn y gweinyddiad dwyfol, megis pe buasai, neu iddo fod, y pechadur, fel y cyfrifid y rhai a gredent ynddo ef, megis pe byddent, neu ildynt fod, yn gyfiawn.”\*

“ PEDR. A ystyriwch chwi Grist megis wedi ei *gospni*, a gwirioneddol a phriodol *gospedigaeth*? ”

“ IAGO. Gallwn feddwl nad wyf. Ond beth a feddyliwch chwi wrth *gospedigaeth*? ”

“ PEDR. Gall person diniwaid *ddioddef*; ond a dywedyd yn briodol, ni ellir ei *gospni*. Cospedigaeth o angenrheidrwydd a olyga *drosedd*. ”

“ IAGO. Yn gymmwys felly; a chan hyny, fel na chredaf fi fod Iesu, mewn unrhyw ystyr, yn droseddwr, ni allaf ddywedyd ei *gospni* ef yn wirioneddol a phriodol.”†

“ Os yw bywyd tragwyddol, er yn wobr, a ninau yn cyfraniogi o hono, etto yn wirioneddol a phriodol wobr usudd-dod Crist, ac nid yr eiddom ni, yna dioddefiadau Crist, er iddynt fod yn gospedigaeth, ac iddo ef eu dwyn, etto cospedigaeth wirioneddol a phriodol ein pechodau ni ydoedd, ac nid yr eiddo ef.” &c. †

“ Ymrwymiad gwirfoddol i ddioddef cospedigaeth un arall, nid yw euogrwydd, mwy nag yw y rhyddhad canlynol o'r rhwymedigaeth yn ddiniweidrwydd yn y troseddwr. Euog-rwydd a diniweidrwydd ydynt drosglwyddadwy yn eu heffeithiau, ond ynddynt eu hunain y maent yn annhrosglwyddadwy. Dywedyd gyfrif, neu osod Crist yn y gweinyddiad dwyfol, megis pe buasai ef y pechadur, a'i ddyfod dan ymrwymiad i ddioddef y felldith, neu'r gospedigaeth ddyledus i'n pechodau

\* Dialogues, &c. page 197—200. † Ibid. page 203. ‡ Ibid. page 205.

ni, yw un peth; ond dywedyd y teilyngai y felldith hono, sydd beth arall. Euogrwydd, a llafaru yn gaeth, yw cydymmaith anwahanadwy trosedd; ac ni allai, gan hyny, byth am un munud, feddiannu cydwylod Crist.”\*

“ Bod yr Ysgrythyrau yn gosod allan y credinwyr fel yn derbyn y lleshad, neu yr effeithiau, yn unig o gyflawnder Crist, yn y cyflawnhad, sydd sylw na’s gallaf fi weled y twyll o hono; ac nid yw yn canlyn, ychwaith, na chyfrifir ei ufudd-dod ef ei hun iddynt hwy. Ufudd-dod ei hun a ellir, ac a gyfrifir, tra na chyfrenir: ac o ganlyniad, na dderbynir ond ei effeithiau yn unig.† Nid yw pechod na chyflawnder, ynddynt eu hunain, yn drosglwyddadwy.”‡

Ynghylch *machinaeth*, Mr. Fuller a eglura ei hun fel hyn:—

“ Yr wyf yn ofni, ynte, i amryw gamsyniadau pwysig gyfodi oddiwrth ystyried cyfryngwriaeth Crist dan y tyb o dalu dyled. \* \* \*. Pechod sy ddyled, yn unig, mewn ystyr drawssymmodol; a llafaru yn briodol, camwedd yw; a’r boddlonrwydd drosto a ofynir ei wneud, nid ar egwyddorion ariannol, ond moesol.§ Hawdd yw canfod yr achos o’r gwhaniaeth hwn. Mae dyledion yn drosglwyddadwy, ond nid yw camweddau felly. Gall trydydd person dôileu y naill, eithr nis gall ond diddymu effeithiau y llall. Y mae haediant y troseddwr yn aros.”||

“ Pe gofynid i mi am yr efengyl, pan ei dygir i ryw wlad, Er mwyn pwy yr anfonwyd hi? Pe golygwn ewyllys dat-guddiedig Duw yn unig, attebwn, Anfonwyd hi er mwyn dynion; nid fel etholedigion, nac anetholedigion, ond fel pechaderiaid. Ond pe golygwn fwriad Duw mewn perthynas i’w chymhwysiad, mi ddywedwn, Ymwelwyd a’r wlad hono i ‘gymmeryd o honynt bobl i’w enw.’ Yr un modd am farwolaeth Crist, pe dywedwn am dani yn ddiberthynas a bwriad y Tad a’r Mab, o ran y gwrthrychau a achubid trwyddi, gan olygu yn unig yr hyn y mae ynddi ei hun yn ddigonol iddo, ac wedi ei chyhoeddi yn yr efengyl yn addas iddo, meddylawn yr attebwn yr holiad yn ysgrythyrol wrth ddywedyd, Mai dros becharduriaid, fel pechaduriaid, yr oedd. Ond os golygaf fwriad y Tad yn rhoddi ei Fab i farw, a diben Crist yn dodi ei einioes i lawr, attebwn, Mai dros ei etholedigion yn unig yr oedd.”¶

\*Dialogues, &c. page 209. †Ibid page 211. ‡Ibid. page 243. §Ibid. page 209.

||Ibid. page 220. ¶Ibid. page 224.

“ Os oedd iawn Crist ynddo ei hun yn ddigonol dros yr holl fyd, nid oes un priodoldeb, bellach, mewn gofyn, Pechodau pwy a gyfrifwyd i Grist? Neu dros bwy y bu efe farw fel machniydd? Mwy nag fel y gofynir drwy hyny, Pwy yw y personau a fwriadodd efe eu hachub yn y diwedd?”\*

“ Yn fyr, rhaid i ni naill ai cydnabod llawnder gwrthrychol yn iawn Crist, digonol er iachawdwriaeth yr holl fyd, pe credai yr holl fyd ynddo; neu, mewn gwrthwynebiad i'r Ysgrythur a synwyr cyffredin, gyfyngu ein galwadau i gredu, i'r cyfryw bersonau ag a gredasant yn harod.”†

Ni fydd i mi ond ychwanegu ychydig yn rhagor o ddisyniadau ar y pwnc o brynedigaeth neillduol.

“ Neillduolrwydd y prynedigaeth, medd Mr. Fuller, sydd gynnwysedig yn moddhad pen-arglwyddiaethol Duw gyda golwg ar y cymhwysiad o'r iawn; hyny yw, gyda golwg ar y personau y cymhwysir ef attynt.”‡

“ PEDR. A oes unrhyw beth yn yr iawn, neu addawedig iddo, yn sierhau yn anffaeledig gymhwysiad o hono at bawb dros y rhai y gwnaed ef?”

“ IAGO. Os wrth hyn y meddyliwch bawb, er iachawdwriaeth y rhai yr oedd yn ddigonol, yr wyl yn ateb, Nac oes. Ond os meddyliwch bawb, er iachawdwriaeth y rhai y bwriadwyd ef, atebaf, Oes.”§

“ Os gwnaed boddlonrwydd ar yr egwyddor o ddyledwr a gofynwr, a bod yr hyn a dalwyd yn gymmwys ddigon o werth i ddiddyledu rhifedi terfynol o bechodau, ac i waredu nifer terfynol o bechaduriaid, a dim ychwaneg, ymddangosai yn ddyledswydd ar neb ond yr etholedig, nac arnynt hwythau, hyd oni ddatguddid iddynt eu bod o'r etholedigion, hyderu arno: canys i ba beth y parwn i'n llygaid ehedeg ar y peth nid yw? Ond os oes y fath gyflawnder yn iawn Crist, ag sy ddigonol er iachawdwriaeth yr holl fyd, pe credai yr holl fyd ynddo ef: ac os gorwenna neillduolrwydd y prynedigaeth yn unig yn mwriad neu ewyllys pen-arglwyddiaethol Duw i'w wneud yn effeithiol i rai yn hytrach nag i eraill, ni chymmera yr un canlyniadau le,” &c.||

Y difyniadau hyn a ddangosant yn llawn, ar un golwg, syniadau Mr. Fuller ar athrawiaeth bwysfawr yr iawn; ac erfyniaf eich ystyriaeth manylfaf iddynt; canys er mor wyneb deg yw ei eiriau, bwriadaf brofi eu bod yn wrthun o anghyson a

\*Dialogues, &c. page 227. †Ibid. page 231. ‡Ibid. page 233. §Ibid. page 244.

||Ibid. page 248.

hwy eu hunain, ac mor groes a hyny i air Duw. Ac attolygaf eich ystyriaeth iddynt yn fwy, o achos y cwynion trystfawr a gyfodwyd gam-ddarlunio Mr. Fuller. Ni ddiangodd, hyd yn oed y difluant a'r cywraint Mr. Booth, y cyhuddiad o gam-ddeall a cham-ddarlunio meddwl Mr. Fuller.\* Pa un a oedd unrhyw sylfaen gyfiawn i'r cyhuddiadau hyn, afreidiol ymofyn yn awr; eithr yn yr olrheiniad presennol, cymmerir gofal na byddo dim camgymmeriad.

---

## LLYTHYR II.

---

NID amheuaf y cyd-unwch a mi pan ddywedaf i gyfnewidiad mawr gymmeryd lle, yn ysbaid y trugain mlynedd yn ol, yn yr egwyddorion a ddalai eglwysi y Bedyddwyr Neillduol. Gogoniant yr eglwysi hyn, unwaith, oedd ymdrechu yn ddifrifol dros athrawiaethau pen-arglwyddiaethol, a neillduol gras,† hyd yn oed pan yr ymddangosai tueddrwydd rhy gyffredino y'mhlith proffeswyr i ymollwng yn y pyngciau hyn, ac i gymmodi pethau a'r byd; tuedd-sryd y galarwyd yn fawr o'i herwydd, ac yr attolygwyd llawer rhagddo gan weision Crist. Rhag-ddyweddodd Dr. Gill yn eglur am ei effeithiau dinystriol, yr hyn a fu yn rhy weledig yn ein eglwysi. Yn ei bregeth ar "Attebiad y Gwyliedydd," &c. dyweda, "Mae adfeiliad tra amlwg wedi cymmeryd lle yn y blynyddoedd diweddaf, ac y mae nos yn dyfod y'mlaen, i'r hon yr ydym ni wedi myned; cysgodau yr hwyr a ymestyn arnom ar ffrwst, ac arwyddion oriau'r cyfnos ydynt dra amlwg, ac a ymddengys etto fwy fwy; claiarineb a diofalwch mewn pethau ysbrydol, a diffyg cariad at Dduw, Crist, a'i bobl, ei wirioneddau a'i ordinhadau, a ganfyddir yn hawdd: ymadawwyd a'r cariad cyntaf; anwiredd a

\*Morris's Memoirs of Mr. Fuller, page 407. †Gwel Dr. Gill's "Answer to the Birmingham Dialogue Writer," part 1, page 29.

amlha, ac y mae cariad llawer yn oeri; ac fe oera etto fwy fwy, ac a derfyna mewn ymadawiad cyffredinol o gyd-ymgynnulliad, ac mewn esgeulusdra hollol o weinidogion yr efengyl, tra fyddo y cyfryw a fuont broffeswyr eu hunain, yn osgoilyd o honynt, ac yn ofalus i'w gochelyd," &c. Yn awr, beth a ddy-wedasai y gwr sanctaidd hwn, pe yn fyw yn bresennol, yn gweled cyflawni ei eiriau mor fuan yn ein enwad ni ein hunain? Pa gyfnewidiad a raid fod wedi cymmeryd lle yn ein plith ni, pan nad oes yn awr i'w cael ond ychydig iawn yn dal yr un gwirioneddau gogoneiddus, dros y rhai yr oedd Dr. Gill yn ddadleuwr mor alluog; a'r ychydig sydd, ni dderbynir monynt mwyach yn garedig i'n areithfeydd, na'u dioddef yn ein cymmanfaeodd! Cyfododd gwyr i fynu yn ein plith ni, y'mhob lle, yn llafaru pethau gwyr-draws; tynnwyd yr eglwysi o'r neilldu, yn raddol, ganddynt hwy; hyd onid, o'r diwedd, na ddioddefa proffeswyr athrawiaeth iachus, ond yn flynyddol ydynt yn pentyru iddynt eu hunain y cyfryw athrawon ag a rynga fodd eu clustiau merwinllyd hwy.

Ymddengys y bu Mr. Fuller yn fath o flaenor yn yr ymadawiad hwn; o leiaf, ystyriodd i'w gyhoeddiadau ei hun gyn-northwyo, nid ychydig, tuag at y cyfnewidiad. Mynega ei hun, wrth ysgrifenu at gyfaill ar y testyn hwn, medd ei fwy-graphiedydd,\* yn yr iaith nerthol a phigog ganlynol:—"Pan gy-hoeddais gyntaf fy nhraethawd ar natur ffydd, a dyledswydd pob dyn a glywo yr efengyl, i'w chredu, yr oedd y broffes Gristionogol wedi suddo i ddirmyg yn ein plith ni; yn gymaint a phe yr aethai pethau y'mlaen ychydig flynyddau yn hwy, y Bedyddwyr a ddaethent yn dommen ddrewedig mewn cymdeithas." Iaith gref a phigog, yn wir! Etto, mewn gwirionedd, rhaid addef mai hyn, mewn gradd mawr, oedd ein cyflwr. Y gwir yw hyn,—mai yr egwyddorion a ymddiffynid y dyddiau hyny gan y Bedyddwyr, oddynt gyfryw ag i'w gwneuthur yn atgas gan y cyffredin. Byth nis gallent ddal yr egwyddorion hyny yn ddihalog, ac ar yr un amser gael eu hystyried fel corph parchus o Gristionogion proffesedig. Hwy a rag-rybuddiwyd yn eglur, gan yr Arglwydd ei hun, y caseid hwy gan bawb er ei fwyn ef, megis y casaodd y byd yntau. Os achosodd yr athrawiaeth a ddysgodd Arglwydd y ty, ei ddirmygu a'i wrthod ef gan ddynion; os, am yr un achos, y cyfrifid yr apostolion fel ysgubion y byd, a sorod pob dim,—pa hawl oedd gan y Bedyddwyr hyn i gwyno, os tra delid, yn oh-

\*Memoirs of Mr. Fuller, by Morris, page 267.

eu mesur hwy, yr un gwirioneddau, y daeth eu proffes hwy i fod yn ddirmygedig, a'u heglwysi i'w hystyried yn dommen ddrewedig mewn cymdeithas? Cwyno! Na, yr anrhydedd cyrhaeddedig uchelaf oedd iddynt yn y fuchedd hon. Os rhoddwyd iddynt hwy, er mwyn Crist, nid yn unig gredu ynddo, ond hefyd ddioddef erddo, dylasant lawenhau eu cyfrif hwynt yn deilwng i ddioddef gwaradwydd er mwyn ei enw ef. A diliys genyf i lawer o honynt wneuthur felly. Dr. Gill, pañ yn mynega ei bendersyniad i fyned y'mlaen, gan bregethu iachawdwriaeth rad a gorphenol, y'ngwyneb pob gwrthwynebiad,\* a chwanega; "Nid ofnaf waradwydd dynion; yr wyf wedi ymgynnefino a'r pethau hyn o'm hieuengctyd i fynu, ond nid wyf yn gwneuthur cyfrif o un o'r pethau hyn."

Ond, fel y dywedais yn barod, mae yr achos yn dra gwanhol yn awr. Er pan y ffynodd egwyddorion Mr. Fuller yn ein plith, nid ydym mwyach yn *ffaidd* gan y byd; neu i ddefnyddio ei iaith rymus ef, *nid* ydym mwyach yn *dommen mewn cymdeithas*. Tramgywydd y groes, mewn gradd mawr, a beidiodd, o ran ein hathrawiaeth, ein proffes, a'n pregethu. Ac i chwanegu at ein parchedigaeth, mae genym yn ein plith risedi o weinidogion rhesymol a moesgar; gwyr ag y mae eu meddylan yn rhy oleuedig, rhy ddiragfarn, i sefyll llawer dros athrawiaethau neillduol yr efengyl; a'r rhai, o ganlyniad, a dreiglant y'mlaen yn ffrwd lawn anrhydedd daearol. Yn ol y byd y llasaran, a'r byd a wrengy arnynt. Eithr, gyda yr holl fanteision hyn, beth a gollasom ni? O Dduw! ty o wyddost ein colled! Ein proffes sydd ddidramgywydd; ond, och! ni a gollasom lawer o ddiddanwch yr Ysbryd Glan. Ni a enillasom esmwythder a thawelwch; ond ni a gollasom, mewn gradd mawr, y mwynhad teimladwy o bresennoldeb yr Arglwydd. Nid ydym mwyach yn atgas mewn cymdeithas; eithr yr Yspryd Glan a giliodd mewn modd nodedig; y Person addoledig hwnw a dristawyd; grym duwioldeb, o fewn ychydig, a aeth ymaith; ac, mewn llawer amgylchiad, y ffurf o hono, hefyd, sydd ar ymadael.

"Paham, Arglwydd, y gwnaethost i ni gyfeiliorni allan o'th ffyrrd? ac y caledaist ein calonau oddiwrth dy ofn? Dychwel er mwyn dy weision, llwythau dy etifeddiaeth."†

Af rhagof, yn awr, i chwilio y difyniadau yn fy llythyr cyntaf; ond cyn gwneuthur hyny, angenrheidiol sydd egluro y defnyddiaf y gair prynedigaeth, yn y ddadl hon, yn ei ysty:

\*Sermons and Tracts, vol. 1, page 249. †Esa. Ixiii. 17.

cyffredin. Pan lafarwn am brynedigaeth neillduol, neu brynedigaeth gyffredinol, defnyddiwn y gair mewn cyfeiriad at bridwerth y prynedigaeth. Weithiau yn yr Ysgrythur, wrth y gair *prynedigaeth*, y deallir, rhyddhad neu waredigaeth; ond ei ystyr ail-raddog yw hyn. Prynus, yn briodol, yw prynu drachefn, prynu o gaethiwed, &c.; a phan ei defnyddir mewn cyfeiriad at waith mawr yr iachawdwriaeth, perthyna yn flaenaf i waed Crist, "yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth." Yn yr ystyr yma y ddefnyddia Mr. Fuller y gair, pan y llefara efe am "Neillduolrwydd y prynedigaeth;" ac yn yr ystyr hwn y defnyddia yr ys grifenydd ysbrydoledig ef, pan ddyweda, "A hwy wedi eu cyfiawnhau yn rhad trwy ei ras ef, trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu."\*\* Yr eglurhad yma sydd angenrheidal, o achos i rai, o anystyriaeth, ac eraill o ddiben gwaeth, osod ystyr amheus i'r gair. Y difyniadau, at y rhai y gelwais eich sylw, ydynt wedi eu hysgrifenu yn bur gywrain. Ond y cywreinrwydd ei hun sydd ddrwg-dybus, o achos na raid i'r gwirionedd wrtho. Y fath yw y tywyllwch a'r cyfrwysdra a red drwyddynt, fel ag mai ychydig o'r personau a ddarllenasant Ymddiddanion Mr. Fuller, a'u dealla hwynt yn gyflawn. Dychymga rhai y dalia efe yr athrawiaeth o brynedigaeth neillduol, o achos y llafara efe weithiau am Grist yn marw dros ei bobl: Eraill a dybiant y dysga ef brynedigaeth gyffredinol; ond llawer, er naddeallant mono yn gyfan-gwbl, a ganfyddant yn eglur y ffafria efe eu rhag-dueddiad hwy at Arminiaeth, ac am hyny cymmeradwyant ei gyfundraeth. Mewn rhai amgylchiadau, yn ddiamheu, camddeallwyd Mr. Fuller, drwy anystyriaeth, ond nid bob amser. Mae gradd anghyffredin o gyfrwysder yn ei osodiadau, cydfynedol a thegwch arwynebol; anghysonerau nodedig a orchuddir a medrusrwydd mawr: a'r gwahaniaeth rhyngddo ef a'i wrthwynebwyr a leiheir mor ddichellgar, fel yr ymddengys i lawer o ddarllenwyr ei fod o bwysigrwydd bychan. Dymuna, yn amlwg, beidio ei ystyried yn wrthwynebwr i brynedigaeth neillduol; etto, ni chyduna ef, nac a'r Bedyddwyr Neillduol, o un ochr, nac yn haeru yn éofn, gyd a'r Bedyddwyr Cyffredinol, i Grist farw yn gyfartal dros bob dyn; ond yn dal math o ganol-bwngec philosophyddol, yr hyn sydd ymadawiad mor bell oddiwrth y symlrwydd yn Nghrist, ag yw oddiwrth yr efengyl hono sydd guddiedig oddiwrth y doethion a'r rhai deallus.

\*Rhuf. iii. 24.

Bydd i mi dreulio gweddill y llythyr hwn gyda'r cyfryw chwiliad o'r difyniadau ag all ddatguddio yr anghysondeb a'r hunain-wrthddywediad a orwedd yn geledig oddifewn iddynt.

**YN GYNTAF.** Yn y lle cyntaf, datguddia Mr. Fuller anghysondeb mawr, ac anonestrwydd, wrth chwennych ei ystyried yn amddiffynwr prynedigaeth neillduol, pan, mewn gwirionedd, ni ddal efe athrawiaeth o'r fath. Efe a ddymuna ei ddeall yn ffafriol i'r athrawiaeth ei hun,\* ac yn gwahaniaethu oddiwrth ei frod yr unig yn yr eglurhad o honi. "Neillduolrwydd y prynedigaeth, medd efe, a gynnwysir yn ewyllys pen-arglwyddiaethol Duw, gyda golwg ar gymhwysiad yr iawn, hyny yw, gyda golwg ar y personau y cymhwysir ef atynt." Yn awr, y rhan amlaf, wrth ddarllen hyn, a arweinid yn naturiol i benderfynu y credai Mr. Fuller bob rhywbeth o neillduolrwydd yn yr iawn, ei hun. Ond yma hwy a gamsyient; ni feddylia efe ddim o'r fath beth. Efe a haera y gor-wedda neillduolrwydd y prynedigaeth, yn unig, "yn mwriad pen-arglwyddiaethol Duw, i'w wneuthur yn effeithiol i rai yn hytrach nag eraill."† Nid hyn, pa fodd bynag, yw prynedigaeth neillduol; etholedigaeth ben-arglwyddiaethol ydyw. Rhyw rai ag a ddalent brynedigaeth gyffredinol, a ddalent hefyd etholedigaeth neillduol, ac o ganlyniad, "fwriad pen-arglwyddiaethol Duw" i beri yr iawn a phregethaid yr efengyl fod yn effeithiol i rai yn hytrach nag eraill. Dylasai Mr. Fuller, gan hyny, fod yr un mor onest a chydnabod, ar gy-hoedd, na chredai efe yn unrhyw neillduolrwydd yn yr iawn, ynddo ei hun, ond yn unig yn mwriad pen-arglwyddiaethol Duw, gyda golwg ar y cymhwysiad o hono; yr hyn fwriad pen-arglwyddiaethol a berthyna i etholedigaeth, ac nid i'r iawn.

Diamheu yr ymddangosai yn afresymol i feddwl Mr. Fuller ddal etholedigaeth bersenol mewn cyssylltiad a phrynedigaeth gyffredinol, fel y dalai rhai Protestaniaid, ac fel y dysga Eglwys Loegr yn ei 17eg a'i 31ain Erthygl; ac mae'n debygol iddo feddwl, pe dirprwyid prynedigaeth anmhennodol am brynedigaeth gyffredinol, na hanfodai y gwrthuni mwyach. Ond, wrth chwilio, fe geir nad yw golygiad Mr. Fuller, mewn un modd, yn symmud ymaith yr anghysondeb. "Neillduolrwydd y prynedigaeth, medd efe, a orwedd yn unig yn mwriad

\* Dialogues, &c. page 233, 234. Rhai o gyfeillion Mr. Fuller, yn ddiweddar a daflasant ymaith y dwyll-wisg, a haerant yn noethion, brynedigaeth gyffredinol, heb, pa fodd bynag, gyhoeddi eu hunain yn Fedyddwyr Cyffredinol.

† Dialogues, &c. page 248.

ac ewyllys pen-arglwyddiaethol Duw, i'w wneuthur yn effeithiol i rai yn hytrach nag eraill." Yma ni a gawn anghywreinrwydd duwinyddol. Dylasai Mr. Fuller ddywedyd, mai neillduolrwydd y prynedigaeth yw *effaith bwriad pen-arglwyddiaethol* Duw, &c. Marwolaeth y Gwaredwyr a gymmerth le yn ol y cynllun rhagflaenol; *canlyniad* yw o fwriad pen-arglwyddiaethol Duw, ac mewn cydgordiad perffaith ag ef. Gan hyny, gwrthun o anghywrain yw dywedyd y *gorsefylla* neillduolrwydd y prynedigaeth yn y peth hyny ag sydd mor wahanol oddiwrtho ei hun ag yw achos oddiwrth ei effaith. Ond hawed yw cansod na ddichon IAWN dros *bechod*, *yn gyffredinol*, fod yn brynedigaeth neillduol. Iawn ag all fod ynddo ei hun yn ddigonol dros berson unigol yn unig, neu dros fyf, ond yr hwn ni wnaethpwyd dros unrhyw risedi neillduol o bersonau, ond yn unig dros *bechod fel pechod*; gellir cyfenwi y cyfryw iawn wrth ryw enw arall, ond prynedigaeth neillduol nis dichon fod. Neillduolrwydd yr iawn a saif yn natur fachniol marwolaeth Crist; yn ei gynnyrcholedigaeth o holl bersonau yr etholedigion i Dduw; yn ei ddygiad ef o'u pechodau a'u doluriau; yn ei farw drostynt, a throstynt hwy yn unig; ac yn eu pwrcasu hwy fel hyn, gorff ac enaid, a'i waed gwerthocaf ei hun. Y golygiad yma o'r iawn sydd ganlyniad o fwriad pen-arglwyddiaethol Duw, ac yn unol ag ef; ond iawn anmhennodol sydd, nid yn unig yn beth gwahanol oddiwrth brynedigaeth neillduol, ond y mae hefyd mewn anghydfoda phen-arglwyddiaeth y bwriad dwyfol, a chymhwysiad neillduol y gwaed cymmodol.

YN AIL. Yr Apostol sanctaidd a ddarlunai natur efengyl wyrdaws, megis "ie, ie, nage, nage," 2 Cor. i. 18; drwy yr hwn ymadrodd y bwriada efe osod allan ei hansicrwydd a'i hanghysondeb; weithiau y mae yn un peth, weithiau yn beth arall. Ond nis gwn i y'mha le, yn yr holl fyf, y ceir engraift o efengyl ie a nage, oni hanfoda hi yn y difyniadau dan sylw.

Yn t. d. 244, gofyna Pedr, pa un a oes unrhyw beth yn yr iawn, yr hyn a sicrh a yn anffaeledig gymhwysiad o hono at y rhai oll y gwnaethpwyd ef drostynt? I'r hyn yr atteba Iago, "Os wrth hyn y meddyli bawb, er iachawdwriaeth y rhai yr oedd *yn ddigonol*, yr wyf yn ateb, Nac oes. Ond os meddyli bawb, er iachawdwriaeth y rhai y *bwriadwyd* ef, attebaf, Oes."

Yn awr, ymddengys gwrthuni hyn mewn amryw olygiadau.

1. Os, fel y gwelsom yn barod, nad oes unrhyw neillduol-twdd yn iawn Crist ynddo ei hun, ond yn unig yn mwriad pen-arglwyddiaethol Duw i'w wneuthur yn effeithiol i rai, yn hytrach nag eraill; yna mae'n canlyn, o angenrheidrwydd, nad oes un peth yn yr iawn, *ynddo ei hun*, asicrha, yn anffaeledig, gymhwysiad o hono at unrhyw ddyn. Ni ddangosodd Mr. Fuller beth sydd yn yr iawn at sicrhau ei gymhwysiad at y rhai y bwriadwyd ef; ac yn hyn fe wnaeth yn gall. Canys ar y dybiaeth o brynedigaeth anmhennodol, annichonadwy dangos unrhyw gyssylltiad angenrheidiol rhwng yr iawn a'r cymhwysiad o hono; o achos, y cymhwysiad o hono, pa un bynag ai at un person yn unig, neu at yr holl fyd, a gyfoda, nid oddiwrth unrhyw beth yn yr iawn ei hun, ond yn hollo oddiwrth fwriad neu arfaeth Duw. Os yw, gan hyny, y ddyfais anmhennodol yn gywir, ni all fod dim yn yr iawn ei hun ag a sicrha yn anffaeledig ei gymhwysiad at neb o'r hil ddynol.

2. Ond caniatau yr hyn a honna y difyniadau, sef, bod rhyw beth yn yr iawn, yr hyn a sicrha yn anffaeledig gymhwysiad o hono at yr holl rai y *bwriadwyd* ef iddynt; yna, fe ganlyna bod iachawdwriaeth *un person yn unig*, yn beth anmhosibl, yn gymaint a'bod yr iawn yn sicrhau iachawdwriaeth *llawer*. Mewn geiriau eraill, mae yn canlyn nad yw iachawdwriaeth un person unigol, neu fyd cyfan, yn ymddibynu *yn unig* ar fwriad pen-arglwyddiaethol Duw, fel yr haera Mr. Fuller.

3. Ond afresymolderau pellach etto a ddinoethir, os ym-ofynwn i natur y digonoldeb hwnw a briodola Mr. Fuller i'r iawn. Efe a haera ei fod yn ddigonol dros holl ddynolryw—ond wedi ei *fwriadu* yn unig i'r etholedigion. Yn awr, ym-ddengys y twyll o hyn, os clust-ymwrandaŵn ag un gwirionedd syml,—bod yr Ysgrythyrau y'mhob lle, yn priodoli iachawdwriaeth pechadur, nid unrhyw ddigonolrwydd yn y crynswth, ond i natur fachniol marwolaeth Crist. Nid yw yr iawn, gan hyny, mewn unrhyw ystyr, yn ddigonol dros unrhyw ddyn, oni fu Iesu farw *dros y dyn hwnw*. Cyflawnder a ofyna fod y boddlonrwydd yn fachniol; fel ag y cyfoda digonolrwydd yr iawn oddiwrth y peth hwn yn gyfan-gwbl, sef farw o Grist yn ein lle ni. I hyn yr olrheinia yr Ysgrythur ein iachawdwriaeth ni yn wastad. “Canys nid appwyntiodd Duw nyni i ddigofaint, ond i gaffael iachawdwriaeth trwy ein Harglwydd Iesu

Grist, yr hwn a fu farw drosom.”\*\* Yr wyf yn penderfynu, gan hynny, mai llawer llai gwrthun yw haeru gyda'r Arminiaid, i Grist farw dros holl ddynolryw, na dal, gyda Mr. Fuller, bod yr iawn yn ddigonol er iachawdwriaeth y rhai ni fwriadwyd mono iddynt, a thros y rhai ni bu yr Iachawdwyr farw.

Os nithir y'mhellach natur y digonolwydd hwnw dros bob dyn, yr hyn a briodola Mr. Fuller i'r iawn, ymddengys nad yw ddim amgen na digonolwydd *ammadol*, y fath ag a briodola yr Arminiaid i'w prynedigaeth gyffredinol hwy. “Y mae y fath gyflawnder yn iawn Crist, medd Mr. Fuller, ag sydd ddigonol er iachawdwriaeth yr holl fyd, pe credai yr holl fyd ynddo ef.” Yr iawn, ynte, sy ddigonol i'r holl fyd; yn *ammadol*; hynny yw, pe credai yr holl fyd. Nid mor hawdd, pa foddy bynag, y cyflawnir yr ammod. Llawer o broffeswyr a siaradant am gredu yn Nghrist, yn gymhariaethol, fel peth esmwyth neu hawdd, ac megis pe byddai y'ngallu y pechadur; ond yr Ysgrythyrau a ddysgant beth gwahanol. Arddangosant ddyn, wrth natur, yn ysbrydol rwym a chadwynau, wedi ei gau i fynu mewn tywyllwch, ac mewn carchar-dy. I'r golygiad hwn, y saif digonolwydd *ammadol* Mr. Fuller o'r iawn yn wrthwynebol, fel ag y gellir egluro yn y dull canlynol. Gwr cyfoethog a dyngarol, a ymwela ag Algiers, ac a ddynesa at y daear-dy, yn yr hwn y gorwedd y carcharor truenus, yn rhwym a chadwynau a llyffetheiriau, ac wedi ei ddiogelu yn gadarn o fewn muriau, a dorau, a barau. Efe a gyhoedda yn uchel i'r carcharor, ddwyn o hono ef aur yn *ddigonol* bridwerth gollyng-dod, ar yr ammod i'r carcharor ryddhau ei hun o'i gadwynau, rhwygo yn agored ddrysau ei garchar, a dyfod allan. Och! dolefa y dyn truenus, ni chyrhaedda dy gymmwynasgarwch fy nghyflwr i. Oni fedr dy aur effeithio fy rhyddhad, ni all fod o un gwasanaeth i mi. Ni ddichon cynnygiad o hono ar y fath ammodau wneuthur un lleshad i mi. Yn awr, er fod gwahaniaeth mawr rhwng anallu ysbrydol ac anallu moesol, etto gwasanaetha y naill i egluro y llall. Mae dyn, wrth natur, mor analluog ysbrydol i gredu yn Nghrist, ag yw y carcharor Algerinaidd yn analluog naturiol i dorri ei gadwynau a drysau y carchar; fel nad yw yr holl ddigonolwydd ymffrostgar hwn yn yr iawn, ddim ond, yn unig, cynnygiad gwag o iachawdwriaeth ar ryw delerau ac ammodau; a'r fath iawn sy lawer rhy wan i wynebu cyflwr anobeithiol pechadur colledig.

Ond pa mor wahanol yw iachawdwriaeth! “Trwy waed

\*Thes. v. 9, 10.

dy ammod y gollyngais dy garcharorion o'r pydew heb ddwfr ynddo."\* Iesu, drwy ei farwolaeth, a dalodd y pridwerth gollyngdod, ac a wnaeth y carcharorion yn eiddo iddo ei hun. Am hyny, mae ganddo hawl cyfreithiol o'u personau, ac a'i ddeheulaw ei hun y dwg efe hwynt allan. Ei ogoniant ef yw "dwyn allan y carcharor o'r carchar, a'r rhai a eisteddant mewn twyllwch, o'r carchardy."† Haerwyd, ychydig yn ol, mai yr un yw y digonolrwydd a briodola Mr. Fuller i'r iawn, a'r hwn a gyfrifa yr Arminiaid i'w prynedigaeth gyffredinol hwy. Pa wahaniaeth bynag a hanfoda rhyngddo ef a hwy ar byngciau eraill, nid oes ond anghydfod geiriol, yn unig, rhyngddynt ar brynedigaeth. Pan haera Mr. Fuller bod iawn Crist yn ddigonol dros holl ddynolryw, ni feddylia ef i Grist farw dros holl ddynolryw yn y cyfryw fodd ag i wneuthur eu hiachawdwriaeth yn sicr; y cwbl a arwyddoca yw, bod yr iawn yn ddigonol er eu hiechawdwriaeth, yn ammodol—hyny yw, os credant. Dr. Whitby, pen-campwr yr Arminiaid, a eglura ei athrawiaeth ef fel hyn:—"Pan ddywedwn i Grist farw dros bawb, ni feddyliwn iddo farw dros bawb, na neb, yn hollol, neu heb unrhyw ammodau i'w cyflawni o'u tu hwy, iddynt gyfranogi o fendithion ei ddioddefaint; ond yn unig farw o hono dros bawb yn ammodol, neu fel ag y gwnelid hwy yn gyfranogion o fendithion ei ddioddefaint iachusol, ar yr ammod o'u ffydd hwy, a'u hedifeirwch," &c.‡ Yma ni chawn un gwahaniaeth hanfodol rhwng Mr. Fuller a Dr. Whitby ar iawn Crist; yr unig wahaniaeth rhyngddynt, a berthyna i fwriad Duw o ran y cymhwysiad o hono. Cyduna y ddau gyda golwg ar farwolaeth Crist, fel yn ammodol ddigonol dros holl ddynolryw. Ond y Doctor a wad fod bwriad Duw yn sierhau cymhwysiad o'r iawn at unrhyw ddyn; ac yn yr ystyr yma, y mae ef yn fwy cyson ag ef ei hun na Mr. Fuller.

Gellir cadarnhau y'mhellaeh y cyd-darawiad rhwng prynedigaeth anmhennadol a'r ddyfais Arminiaid, drwy gymharu geiriau Mr. Fuller a difyniad arall o waith y cywrain a'r dysgedig Whitby. Mr. Fuller a ddarlunia y cymmod "yn fod-lonrwydd i gyflawnder dwyfol, drwy rinwedd yr hwn nid oes un peth perthynol i lywodraeth foesol Duw a rwystra y pechadur ddychwelyd atto ef; ac ar y sylfaen hwn y gwahoddir pechaduriaid yn gyffredinol i wneuthur felly.§ Ystyria ef, yr iawn, "fel moddion dwyfol anghyffredin i drugaredd weithredu

\*Zec. ix. 11. †Isa. xlvi. 6, 7. ‡On the Five Points, 2nd edition, page 103.

‡Dialogues, &c. page 243.

yn gyson a chyflawnader;\* a'i fod, ynddo ei hun, yr un mor addas i achub byd ag i achub un dyn, os credai y byd ynddo."† Yn awr, gadewch i ni glywed y Doctor yn adrodd yr un farn mewn geiriau eraill. "Efe (hyny yw Crist) drwy ei farwolaeth, a osododd bob dyn mewn sefyllfa, yn unig, i'w cyflawnhau, a maddeu iddynt; ac felly eu cymmodi a Duw, a chael tangnefedd ganddo, ar eu dychweliad atto, a bod ganddynt ffydd yn ein Harglwydd Iesu Grist; gan i farwolaeth Crist wneuthur yn gyson a chyflawnader a doethineb Duw, ag anrhuddedd ei fawrhydi, ac a dibenion ei lywodraeth, faddeu i'r pechadur edifeiriol."‡ Och Dduw, na chawsid Mr. Fuller mewn gwell cymdeithas!

4. Os angenrheidiol dilyn y gyfundraeth o "ie a nage" yn mhellach etto, nid yw ond i ddinoethi ychwaneg o anghysonderau a gwrthuni. Os, megis y caniata Mr. Fuller, ni fwriadodd Crist ond lleshau rhai yn unig, drwy ei farwolaeth, yna efe a gyflawnodd ei fwriad, yn ol prynedigaeth neil duol, drwy dalu eu pridwerth-gollyngdod hwy yn unig. Gwrthun yw arddangos Crist wneud pridwerth-gollyngdod digonol dros bawb, pan ni fwriadodd waredu ond rhai yn unig! neu haeru fod Crist yn iachawdwyr digonol i'r rhai ni fwriadodd efe erioed eu hachub!

Bryd bynag y llafara yr Ysgrythyrau am ddigonolrwydd y prynedigaeth, priodolir hyny, bob amser, i effeithioldeb sicr y prynedigaeth. Mae iawn Crist yn ddigonol, o achos ei fod yn gwbl-effeithiol, ac o achos y dwg iachawdwriaeth i bawb dros y rhai y gwnaethpwyd ef. Y mae yn ddigonol, nid am y caniatâ i ddynion y posibl rwydd o iachawdwriaeth, ond o achos y cwblhâ gyda gallu anorchfygol eu hiachawdwriaeth hwy. Felly, nid yw gair Duw byth yn gosod allan ddigonolrwydd yr iawn fel yn helaethach na diben yr iawn, fel y gwnaeth Mr. Fuller. Ni wyr yr Ysgrythyrau ddim am brynedigaeth ddigonol, yr hon a adawa y carcharor i gyfr-golli mewn caethiwed, nac am iawn digonol, yr hwn ni wareda yr euog; ond hwy a lafarant am brynedigaeth bob ffordd yn ddigonol ac effeithiol; prynedigaeth, yr hon ni ellir ei diddymu, ond yr hon a gyflawna yn fuddugoliaethus iachawdwriaeth ei holl wrthrychau. Disgwylid Israel am yr Arglwydd; o herwydd y mae trugaredd gyd a'r Arglwydd, ac aml ymwared gydag ef, *plenteous redemption*. Ac efe a waredd Israel oddiwrth ei holl anwireddau.§

\* Morris' Memoirs of Mr. Fuller, page 410. † Memoirs, page 408.

‡ Five Points, page 107. § Psalm cxxx. 7, 8.

**YN DRYDYDD.** Yn ddiamheu, gwylder Mr. Fuller a balledd, pan y gwirthododd ef mor llwyr arddangosiad pechod megis dyled, ac iawn Crist fel taledigaeth dyled. Pob un a ddysgodd weddi yr Arglwydd a wyr i'r Arglwydd yno ein dysgu i ystyried ein pechodau o dan y tyb o ddyled. Ac etto, Mr. Fuller a hysbysa i ni, "mai anmhriodol fyddai arddangos gwaith mawr y prynedigaeth fel rhyw orchwyl masnachol rhwng gofynwr a dyledwr."\* Ond pwy a ddylai wybod oreu? Os gwebddoethineb Duw yn addas ei osod allan felly, gallwn gwbl-greded fod priodoldeb ardderchog ynddo, pa un bynag a ganfyddwn ni hyny ai peidio. Mr. Fuller, er hyny, a ofna ganlyniadau niweidiol oddiwrth y cyfryw olygiad am bechod a phrynedigaeth. "Ofnaf, medd ef, i amryw gamsyniadau pwysfawr gyfodi oddiwrth ystyried cyfryngwriaeth Crist dan y tyb o dalu dyled."† Mewn gwirionedd, mae hyn yn holol wahanol i barchedigaeth cyffredin Mr. Fuller i'r Ysgrythur; nid yw ddim llai na gwirth-ddywediad union-gyrchol i air Duw. Oni chyfeiria y gair prynedigaeth, yn eglur, ynddo ei hun, at negeswriaeth masnachol? Oni arwydda brynu drachefn, mewn cyfeiriad at etifeddiaeth dan y gyfraith, neu gaethion mewn gwasanaeth?‡ Y'mha gynnifer o fanau ein dysgir i Grist "roddi ei einioes yn bridwerth?"§—"brynu ei eglwys er gwerth,"|| a'i galw "y pwrcas,"¶—wedi ei phrynu, nid yn wir ag arian ac aur, ond a'r hyn sydd wirioneddol werthfawr. Dim llai na "gwerthfawr waed Crist."\*\* Oni ddyga ein Harglwydd ddammeg y'mlaen, un amcan o'r hon yw ein dysgu ni fod ein pechodau yn ddyledion, hyd yn oed ddeng mil o dalentau, am yr hyn Duw ei hun yw ein gofynwr?† Ac oni arddangosa yr Apostol ein Harglwydd Iesu Grist fel pen-talwr mawr ei bobl, pan ddyweda, "Ac am hyny y mae efe yn Gyfryngwr y cysammod newydd; megis trwy fod marwolaeth yn ymwared oddiwrth y troseddau oedd dan y cysammod cyntaf, y cai y rhai a alwyd dderbyn addewid yr etifeddiaeth dragwyddol?"‡ Etto, gyda hyn oll, Mr. Fuller a farna yn anmhriodol osod allan waith mawr y prynedigaeth fel dyled ddiluedig, pridwerth wedi ei dalu, a phwrcas wedi ei wneuthur.

Ond gellir ymofyn, pa ddiben oedd gan Mr. Fuller drwy wrthwynebu y golygiad hwn o bechod a phrynedigaeth? I hyn y gellir atteb, ddarfod i lawer o ysgrifenwyr Protestanaidd

\*Dialogues, &c. page 162. †Ibid. page 218. ¶Lef. xxv. 23—34. Esa. liii. 3.

¶Matt. xx. 28. ||Cor. vi. 20. ¶Eph. i. 14. \*1 Pedr i. 19. †Matt. xxviii. 23, &c. ‡Heb. ix. 15.

ya enwedig wrth amddiffyn cyfiawnder cyfrisol yn erbyn y Pabyddion a'r Sosiniaid, egluro trosglwyddiad ein pechodau ni ar Grist, a'n gwaredigaeth lwyd ni oddiwrthynt, drwy gyfeiriad at oruchwyliaethau masnachol y'mhlith dynion. Yr ysgrif-enwyr hyn a wyddent yn dda na ellid trosglwyddo camweddau y'mhlith dynion, er y gellid trosglwyddo cospedigaeth cam-weddau; a chan farnu bod trosglwyddiad o gosp, yn unig, yn anfeidrol fyr o'r cyfnewid rhyfeddol hwnw a weithredir y'ngwaith mawr y prynedigaeth, hwy a arddangosasent yn fynych ein pechodau ni megis dyledion, Crist fel ein machniydd a'n pen-talwr mawr, a'n rhyddhad oddiwrth euogrwydd a thrueni mor gyflawn, mewn canlyniad o drosglwyddo ein pechodau ni arno ef, fel yr arddelwa cyfiawnder Duw ein hiachawdwriaeth, yn yr un ffordd ag y gofyna cyfiawnder y'mhlith dynion ollwng yn rhydd y dyledwr, wedi y derbynio y gofynwr daliad oddiar law y meichiau.

Dyma y "camsyniadau pwysfawr," at y rhai y cyfeiria Mr. Fuller; ond pa un a ydynt yn gamsyniadau ai peidio, ni a ymofynwn rhagllaw. Gosod allan gyfryngwriaeth Crist, pa fodd bynag, dan y tyb o dalu dyledion ei bobl, er na ddichon un peth fod yn fwy ysgrythyrol, sydd mor wrthwynebol i'r go-lygiad a gymmerth Mr. Fuller o'r iawn, fel ag y mae yn hawdd barnu am y modd anwyliadwrus ac anystyriol, yn yr hwn yr amlygodd efe ei hun ar y pwngec.

**YN BEDWERYDD.** Mr. Fuller sydd neillduol o anghyson ag ef ei hun pan y llafara, fel y gwna ef weithiau, am Grist yn rhoddi ei einioes i lawr dros ei ddefaid, ei bobl, &c. Os oes, fel y dyweda Mr. Fuller, "y fath gyflawnder yn moddlon, rwydd iawn Crist ag sy ddigonol er iachawdwriaeth yr holl fyd pe credai yr holl fyd," ac os "gorwedd a neillduolrwydd y prynedigaeth yn unig yn ewyllys pen-arglwyddiaethol Duw i'w wneuthur yn effeithiol i rai yn hytrach nag eraill," yna mae yn canlyn na bu Crist farw dros un o'r hil ddynol yn wahan-iaethol oddiwrth eraill, ond yn unig mai ewyllys pen-arglwyddiaethol Duw oedd cymhwys o'i iawn anmhennodol ef at rai rhagor eraill. Mewn geiriau eraill, mae'n canlyn, na bu Crist farw dros Paul mwy na thros Judas, ond yn unig gymhwys o'r iawn at Paul, ac nid at Judas. Y mae, gan hyny, yn anghysondeb o'r mwyaf, ddywedyd i Grist farw dros ei bobl, ei ethol-edigion, &c.

Ni all fod iawn Crist anmhennodol a neillduol. Os bu

Crist farw dros ei etholedigion, a throstynt hwy yn unig, yna nid yw wirionodd y gorwedd a neillduolrwydd y prynedigaeth yn unig, yn mwriad Duw o berthynas i'r cymhwysiad o hono; ond os iawn anmhennadol a wnaeth Crist dros bechod, yna ni ellir dywedyd gydag unrhyw radd o wirionedd neu briodoldeb, iddo farw dros ei etholedigion ar wahan oddiwrth eraill. Os yw morwolaeth Crist yn un neillduol, nid yw mwyach yn anmhennadol; os anmhennadol, nid yw mwyach yn neillduol.

Mabwysiadu y gysundraeth ansicr, hunan-wrthddywediadol hon, a arweiniodd lawer i dybied yr ymddibyna ar ein credu ni, pa un a fu Crist farw drosom ai peidio. Yn ol barn personau o'r fath yma, ein credu ni a wiria i Grist farw drosom ni. Y cyfryw dyb sydd groes i'r Ysgrythur, yn gystal ag i bob egwyddor o ymresymiad cywir. Yn ddiau, os bu Crist farw dros unrhyw bersonau neillduol, y mae hyny yn wirionedd ynddo ei hun, ac y mae yn wirionedd hunan-ymddibynol, o ran cymhwysiad o'r iawn; ond os bu Crist farw yn anmhennadol, ni all un cyfnewidiad a gymmero le ar y pechadur, newid y gwirionedd blaenorol, neu wirio i Grist farw drosto ef. Yn sicr, mae yn llai gwrthun haeru yn amlwg gyda'r Arminiaid, i'r Iesu farw dros yr holl hil ddynol, pa un bynag a gredant hwy ynddo ef ai peidio.

**YN BUMMED.** Mr. Fuller a lafarodd yn fynych am gymhwysiad o'r iawn ond ni hysbysodd i ni beth a feddylia efe wrth y gair hwn. Mae'r ymadrodd, yn ei ystyr cyffredin, y'mhlith ysgrif'enwyr Calfinaidd, yn hollol anghyson a'i olygiadau ef am farwolaeth Crist. Cymhwysiad neillduol o'r iawn a gyduna, yn unig, a phrynedigaeth neillduol. Wrth gymhwysiad yn yr ystyr y deallir ef yn gyffredin, y meddyllir y gwaith hwnnw o eiddo yr Yspryd fyfth-fendigedig, drwy yr hwn y purir cydwybodau y rhai hyny ag y bu Crist farw drostynt, oddiwrth euogrwydd, drwy adnabyddiaeth o'i waed ef, a ffydd ynddo; a thrwy yr hyn y darbwyllir hwynt o'u hawl neillduol yn ei farwolaeth. Hyn a elwir yn yr Ysgrythur, "derbyn y cymmod;"\* a hyn, yn gyffredin, a feddylir wrth ei gymhwysiad. Yn awr, mae yn anghyson llafaru am y cynhwysiad neillduol hwn, ar y sail o brynedigaeth anmhennadol. Cymhwysiad neillduol a rag-olyga yn eglur ran neillduol neu berchenogaeth yn Nghrist, anwybod i'r pechadur gwaredigol, hyd onis datguddir gan yr Yspryd; ond ni ddichon fod y cyfryw berchenogaeth ar y tyb o brynedigaeth anmhennadol. Pan

dderbyniasei y Cristionogion cyntaf y cymmod, hwy a gredasant " farw o Grist dros eu pechodau hwy, yn ol yr Ysgrythyrau."\* Hyn a dderbyniaseint hwy fel gwirionedd anghyfnewidiol, yr hyn ni ymddibyna ar y cymhwysiad, on yn hytrach y cymhwysiad a ymddibynai ar y gwredd, farw o Grist dros eu pechodau hwy. Pan gymhwyswyd yr iawn at Paul, efe, drwy hyny, a adnabyddodd ei hawl neillduol ynddo, fel ag y eawn ef yn datgan ei ffydd yn Mab Duw, " yr hwn, medd ef a'm carodd, ac a'i dodes ei hun dros of fi."† Drwy daenelliad gwaed Iesu, neu mewn geiriau eraill, drwy gymhwysiad o'r iawn, cydwybod yr apostol a burwyd oddiwrth euogrwydd, ac efe a ddaeth yn sier ynddo ei hun farw o Grist dros ei bechodau. Gal. i. 14. Rhuf. v. 11. Eithr y mae hyn oll yn anghyson a phrynedigaeth anmhennodol; yn wir, y mae yn aninhosibl, os, fel y dyweda Mr. Fuller, " y cynnwysa neillduolrwydd y prynedigaeth yn unig yn mwriad Duw gyda golwg ar ei gymhwysiad.

Anghysondeb Mr. Fuller ar y pwngc hwn nid yw annhebyg i'r hyn a ellir sylwi arno yn fynych y'mhlith y Trefnyddion Arminiaidd. Mae'n beth cyffredin iddynt hwy, pan yn darlunio eu gwaredigiaeth oddiwrth euogrwydd, ddywedyd gymhwysyo gwaed Crist mor rymus at eu cydwybodau, fel y teimlant eu hunain yn sier farw o Grist drostynt hwy. Ond, yn ddiau, pan gredo dyn farw o Grist dros holl ddynolryw, ni all efe dybied y rhaid iddo wrth Yspryd Duw i ddangos iddo farw o Grist drosto ef, y'nghyd a'r holl rai eraill yn gyffredin! Nid cyson, ychwaith, unrhyw ddyn a haera gymhwysiad neillduol o'r iawn ac etto yn dal, fel y gwna Mr. Fuller, nad oes un neillduolrwydd yn yr iawn oll, ond yn unig yn mwriad Duw!

YN CHWECHFED. Nis gallaf fyned heibio i'r dull tra gwrthodedig, yn yr hwn yr eglurodd Mr. Fuller ei hun ar y pwngc o *gyfrisiaid*. Difynais ei eiriau yn fy llythyr cyntaf, at yr hwn y cefaf gennad eich cyfeirio, ac hefyd at y gwaith gwreiddiol.‡ Hysbysir i ni yno beth a arwydda y gair; dywedir i ni hefyd, fod iddo, fel i lawer o eiriau eraill, ystyr priodol ac anmhriodol. Hysbysir i ni ymhellach yr arwydda y gair y peth a'r peth yn ei ystyr priodol, ac yn ei ystyr anmhriodol arwydda y peth a'r peth; y casgliad o hyn oll yw, mai pan y llasara yr Ysgrythur am gyflifiad pechod i Grist, neu gyflawnder i'r pechadur, bod y gair i'w gymmeryd, nid mewn ystyr briodol, eithr anmhriodol. Yn awr, y mae hyn oll yn

\*1 Cor. xv. 3. †Gal. ii. 20. ‡Dialogues, &c: page 197—200.

ewnio yn bur philosophydaidd ; ond pa wir addysg, neu gysur a all y fath fanylwch weinyddu i enaid diffuant ymofyngar ? Y cyfryw, wrth gyfarfod a'r eglurhad yma o eiddo Mr. Fuller, a ddychrynaid yn y fan, a dywedyd, "Och ! mi seddyliais, yn wir, gyfrif fy holl bechodau i'r Arglwydd Iesu, a hyn oedd sail fy nghysur ; ond dyweda Mr. Fuller wrthyf, wneuthur hyn yn unig yn y petb a gyfenwa ef yn ystyr anmhriodol. Ac mi a gysurais fy hun a'r meddwl bod cyflawnder Crist yn eiddo i mi, wedi ei gyfrif yn wirioneddol i mi ; ond Mr. Fuller a'm dyrysodd, ac am trallododd i, canys efe a ddyweda, 'nid fel hyn, yn briodol, y mae'r peth.' " Yn y modd yma byddai philosophydiaeth Mr. Fuller yn waeth nag wedi ei fwrrw ymaith. Ond ei holl osodaeth ar y pwnc hwn a eglurwyd yn fongleraidd, ac yn hanfodol ddiffygol.

Yn y lle cyntaf, ynte, y gosodiad ei hun sydd agored i'w gamddeall, o herwydd y dull tywyll ac anniben, yn yr hwn yr anturiodd efe ei egluro. Rhoddwn engraifft neu ddau. Ystyr priodol cyfrifiad, fe ddywedir i ni, yw " cyhuddiad, priodoliad, neu osodiad yn erbyn personau a phethau, *yr hyn yn briodol a berthyna iddynt hwy.*"\* A'r engraifft cyntaf o gyfrifiad mewn ystyr priodol, a dynnodd Mr. Fuller, sydd yn achos Eli yn cyhuddo Hannah o feddwdod. "Eli a *feddyliodd* iddi fod yn feddw." Yn awr, mae rheswm i dybied na ddeallai llawer o'i ddarllenyyddion mo feddwl Mr. Fuller yn eglur yn y lle hwn ; ac os na ddeallent ystyr dwfn philosophyddol y gair *priodol*, hwy a fyddent mor weiniaid ag i ddychymygu bod cyfrifiad Eli yn *gyfrifiad anmhriodol* ! Ond, hyd yn oed y'mhlith y rhai ag ydynt fwy cywraint mewn ystyr geiriau, gall fod rhai, a hwy yn gwybod i Eli gyhuddo Hannah yn anghyfawn, na chaent, ysgatfydd, mor hawdd wybod pa fodd y cyfrisodd efe iddi, " yr hyn yn briodol a berthynai iddi hi." Yr un mor anwybodus fyddai rhai darllenwyr yn cael bod yr Arglwydd heb gyfrif an-wiredd i ddynion, i'w ddeall mewn ystyr *priodol* ; hyn yw, na chyfrifa efe anwiredd yn *briodol* i'w bobl. Hwy fyddent syth fwy ar ol heb ad-ystyried y deallai Mr. Fuller gyfrifiad pechod i Grist mewn ystyr *anmhriodol*, a gallent gasglu yn naturiol, mai gan nad yw yr Arglwydd yn cyfrif pechod, nac yn *briodol* i'w bobl, nac ychwaith i Grist, na chyfrifir eu pechodau hwy byth yn *briodol* oll. Mewn gwirionedd, mae 'n drueni gweled pwnc mor bwysfawr, ac etto mor eglur, yn cael ei dywyllu fel y ceir ef yn esponiad Mr. Fuller. Yn wir, dosparthiadau

\* Dialogues, &c. page 197.

celfyddgar, ac ymadroddion ysgoleigaidd, ydynt weithiau yn waeth na bod yn ddiddefnydd, ac yn fynych yn dda i ddim ond i chwyddo mawrhydi y dysgawdwr, ac i wasanaethu yr un perwyl mewn duwinyddiaeth ag y mae math o Ladin barbar-aidd yn cael ei wneud i ateb mewn cyfraith a physigwriaeth.

Ond eglurhad Mr. Fuller o'r pwnge pwysfawr hwn, sydd, nid yn unig yn gymmynsglyd a thywyll, ond y mae yn hanfodol ddiffygiol. Yn fyr, cyfrifiad o bechod i Grist a esponir ymaith. Yn ol Mr. Fuller, ni chyfrifwyd pechod yn *wirioneddol*, neu fel y geiriau ef, yn *briodol* i Grist, ond yn unig mewn *ymddangosiad*. Ymddygywyd tuag atto fel pe cyfrifesid pechod iddo yn *wirioneddol*; efe a dioddefodd megis pe buasai euog; ond etto, yn ol Mr. Fuller, euogrwydd ei hun ni chyfrifwyd iddo yn *wirioneddol*. I beidio ymddadleu y'nghylch geiriau, gellir egluro y pwnge drwy negeswriaethau y'mysg dynion. Pan gyfrifa un dyn bechod neu drosedd i arall, y mae hyn yr un peth a'i gyhuddo o'r trosedd hwnw. Fel hyn Saul a gyfrifodd fradwriaeth i Ahimelech, pan y *cynuddodd* efe ef o hono.\* Ond y cyfryw gyfrifiad a ddichon fod yn *wir*, neu gall fod yn unig mewn *ymddangosiad*; cyfrifiad a ddichon fod yn *gyfiawn*, neu gall fod yn *anghyfiawn*. Pan gyhuddodd Nathan Ddafydd o bechod yn achos Uriah, yr oedd y cyhuddiad yn *wir* ac yn *gyfiawn*. Pan gyfrifodd Joseph egwyddorion drygionus i'w frodwr, efe a'u cyhuddodd hwynt, nid yn *wirioneddol*, ond mewn *ymddangosiad* yn unig, canys efe a wyddai mai nid ysbiwyr oeddynt; a phan gyfrifodd Eli feddwod i Hannah, efe a wnaeth hyny yn *wirioneddol*, ond gwnaeth felly yn *anghyfiawn*. Yn awr, pan gyfrifodd Duw bechod i Grist, efe a'i cyhuddodd ef naill ai yn *wirioneddol* neu mewn *ymddangosiad* yn unig, yn *gyfiawn* neu *anghyfiawn*. Gyda golwg ar *gyfiawnder*, nid ymofynwn yn awr; ond y ddadl a berthyna i'r cyntaf, sef, pa un a gyfrifodd Duw bechod i Grist yn *wirioneddol*, fel machniydd y pechadur, neu pa un o wnaeth efe felly mewn *ymddangosiad* yn unig. Mr. Fuller a wada iddo wneuthur felly yn *wirioneddol*, neu i Grist ddioddef gwir a phriodol gospedigaeth; † ac er na ddyweda ef yn yr un geiriau, mai mewn *ymddangosiad* yn unig yr oedd y cyfrifiad hwn, etto, hyn yw ei feddwl. Dyweda i ni bod cyfrifiad o bechod i Grist i'w ddeall mewn *ystyr anmhriodol*. Wrth gyfrifiad mewn *ystyr anmhriodol*, y dealla ef, "gyhuddiad, priodoliad, neu osodiad yn erbyn personau a phethau, yr hyn yn *briodol* ni pherthyna iddynt, megis pe per-

\* 1 Sam. xxii. 12. † Dialogues, &c, page 203.

thyhai." Fel engraifft o'r cyfrifiad anmhriodol hwn, efe a ddyry i ni achwyniad Job, " Pa ham y cuddi dy wyneb, ac y cymmeri fi yn elyn i ti?\* Yn awr, ni chyfrifodd yr Arglwydd mo Job yn elyn iddo yn wirioneddol ; efe a gysrifodd ddigasedd iddo yn unig mewn ymddangosiad, neu ymddygodd tuag atto megis pe buasai yn elyn. Etto yn yr ystyr hwn yn unig y dealla Mr. Fuller gyfrifiad o bechod i Grist. " Efe a gyfrifwyd, medd ef, yn yr oruchwliaeth ddwyfol megis pe buasai, neu iddo fod, y pechadur, fel y cyfrifid y rhai a gredant ynddo ef megis pe byddent, neu iddynt fod, yn gyfawn."† Meddwl eglur yr hyn yw, i Dduw roddi ei Fab i dioddef, megis pe cawsid pechod arno ef; neu mewn geiriau eraill, i Grist ddwyn cospedigaeth euogrwydd, ond nid euogrwydd ei hun. Yn awr, dioddef o Grist yn lle yr euog sydd un peth, ond bod euogrwydd ei hun yn gyfrifedig iddo, sydd beth arall. Mae y gwahaniaeth hwn mor amlwg, fel mai braidd y rhaid iddo wrth yr eglurhad canlynol. Rhyw wr a gaed yn euog o uchel-fradwriaeth, ac a goll-farnwyd i farw. Ei frawd, yn unig o dosturi, a gynnygiodd farw yn ei le. Y pridwerth a dderbyniwyd, a'r diniwaid a aeth dan gospedigaeth y gyfraith, fel meichiau gwirfoddol dros ei frawd euog. Yn awr, yn yr achos hwn, y diniwaid a ddygodd gospedigaeth euogrwydd ei frawd, ond nid yr euogrwydd ei hun. Efe, yn wir, a aeth dan ddedryd y gyfraith, ond ni chyfrifwyd bradwriaeth iddo—cyfiawnder a waharddai wneuthur felly. Ymddygwyd tuag atto megis pe buasai euog, a hyny yw un peth ; ond gorwedd dan gyhuddiad o euogrwydd sydd beth arall. Fel hyn yr esponia Mr. Fuller ymaith yr athrawiaeth o gyfrifiad. Drwy wadu trosglwyddiadd o'n euogrwydd ar Grist, ni chaniata efe unrhyw gyfrifiad gwirioneddol o'n pechodau arno ef, ond yn unig drosglwyddiad o gospedigaeth. Cyfrifiad o bechod, gan hyny, yn ol ystyr anmhriodol neu gyffelybiaethol Mr. Fuller, ni arwydda unrhyw gyfrifiad gwirioneddol oll.

YN SEITHFED. Er i Mr. Fuller ysgrifenu yn dra galluog yn erbyn Sosiniaeth, mae rhai o'i dybiadau ef ei hun yn sawrio yn arswydus o'r heresi hono, ac, gellir ofni yn gyfawn, yn tueddu yn union-gyrchol tuag atti.—Y cyntaf a gaf fi grybwyllyw yw y golygiad a gymmer ef o brif ddiben marwolaeth Crist. Y diben penaf o iawn ein Harglwydd, medd ef, yw " amlygiad o gasineb Duw at bechod, mewn trefn i wneuthur gweinyddiad trugaredd yn gyson a chyfiawnder."‡ " Y diben, medd ef, yw arddangos anfoddlonrwydd yn erbyn anufudd-dod—gwneuthur

\* Job xiii. 24.

† Daloigues, &amp;c. page 200:

‡ Ibid. page 244:

y fath arddangosiad o anfoddlonrwydd gan y deddf-roddwr, fel ynddo y gallai holl ddeiliaid ei ymerodraeth ddarllen beth yw ei olygiadau o'r drwg a wahardda, a pha beth yw ei benderfyniadau gyda golwg ar ei gospedigaeth; i ateb y diben mawr hwn o lywodraeth foesol, yr hyn ni allesid ateb drwy ddioddefiadau creadur yn unig."\* Caniateir yn rhwydd mai un diben o farwolaeth Crist oedd amlygu casineb Duw at bechod, ac ateb dibenion llywodraeth foesol, yr un modd ac mai un diben o honi yw gadael i ni siampl o amynedd ac ymostyngiad. Ond nid un o'r rhai hyn yw y diben penaf. Meddwl fel arall, ni phriodolai reswm digonol dros y gwaith mawr hwnw, tra mae anfoddlonrwydd y deddf-roddwr wedi ei amlygu yn barod yma erbyn pechod yn y gyfraith ei hun ac yn nioddefiadau y rhai colledig; a chafwyd siampl o amynedd yn ymddygiad y prophwydi sanctaidd. Yn wir, y Sosiniaid eu hunain a briodolant agos gymaint o anrhydedd i ddioddefiadau Crist, ag a amlyga Mr. Fuller. Llafarant am farwolaeth Crist yn ateb dibenion llywodraeth foesol, drwy gadarnhau i ni ewyllys Duw. A hwy a ant mor bell a dywedyd, " nad oes amheuaeth i Grist foddloni Duw yn y fath fodd, drwy ei ufudd-dod, ennill o hono, drwy ras Duw, i ni oll, y rhai a gredwn ynddo, faddeuant o'n pechodau, ac iachawdwriaeth dragwyddol."†

Y tyb hoff hwn o eiddo Mr. Fuller, mewn perthynas i brif ddiben marwolaeth Crist, a ddistrywia y meddyl-ddrych o iawn. Arddangosa yr Arglwydd Iesu fel Deddf-roddwr yn hytrach nag Iachawdwr, a phriodola i'w farwolaeth yr hyn yn hytrach a berthyna i gyfraith y deng air deddf. Pan gyhoeddwyd y ddeddf sanctaidd, ond tanllyd hono, mewn mawrhydi ofnadwy, oddiar Sinai, ei diben penaf oedd mor amlwg, fel y crynodd Moses, a'r holl bobl a ddychrynasant. Ei diben, yn wir, yw " amlygu an-foddlonrwydd yn erbyn anufudd-dod—amlygu y fath arddangosiad o anfoddlonrwydd" gan y Deddf-roddwr, fel drwyddo, y gallai holl ddeiliaid ei ymerodraeth ddarllen beth yw ei olygiadau ef am y drwg a wahardda, a pha beth yw ei benderfyniadau gyda golwg ar ei gospedigaeth." Ond nid yw marwolaeth Crist yn iawn dros bechod, os hyn yw ei diben penaf: yn hytrach cyfraith wedi ei rhoddi yw, yr hon, fel y tybir, sydd alluog i roddi bywyd, drwy gyhoeddi ammodau esmwythach o gymmeradwyaeth na'r ddeddf foesol.‡ Yn wir, dangosai felly burdeb y deddf-roddwr, wedi

\* Dialogues, &c. page 163, 164. † Racovian Catechism, Rees' edition, sec. 5, chap 8. ‡ Gal. iii. 21.

ei dymmeru a chymmaint o drugaredd ag i gynnyg iachawdwriaeth i ddynion ar delerau ac ammodau neillduol, drwy gyflawniad o'r rhai y gallent ennill bywyd. Fel hyn cawn y gyfraith a'r esengyl wedi eu cymmysgu mor gywraint ag i gyfansoddi gwyrdroad o hynnyt ill dwy.

2. Yn y lle nesaf, mae yn sicr mai tyb Sosinaidd yw y gorwedd a holl rinwedd yr iawn yn mhennodiad Duw ; a Mr. Fuller a ddadleuodd yn bur effeithiol yn erbyn y tyb hwn.\* Ond twyllir fi yn fawr, os ni ddysga Mr. Fuller ei hun athrawiaeth debyg iawn i hon. Ai ni ddysga ef bod yr iawn ynddo ei hun yr un mor ddigonol er iachawdwriaeth byd ag yw er iachawdwriaeth un person ; ac mai yr unig reswm pa ham y cyrhaedda ei rinwedd rai, ac nid eraill, yw appwyntiad Duw ? Oni ddalia ef, pe achubid ond un pechadur yn unig, y rhaid i'r iawn fod yr un a phe achubid y byd ; ac mai wedi unwaith roddi iawn, y gellid achub byd, neu un person yn unig, yn ol pennodiad Duw.† Yn awr, beth yw hyn ond gosod rhinwedd yr iawn yn appwyntiad Duw ? Pa fodd y mae y cyrhaedda effeithioldeb yr iawn at y byd, ac nid at un person yn unig ? Ai o achos unrhyw beth yn yr iawn ynddo ei hun ? Nage, yn sicr, canys dyweda Mr. Fuller ei fod ynddo ei hun mor addas i un person, ac i holl ddynolryw. Rhaid olrhain ei rinwedd i achub, gan hyny, i benodiad Duw. Y'mhellach ; os nid oes dim yn yr iawn ynddo ei hun at sicrhau iachawdwriaeth mwy nag un person, pe felly y trefnasai Duw, yna, mae yn canlyn, y gallasai Duw beidio, hyd yn oed appwyntio iachawdwriaeth un person. Fel hyn, ymddengys, os oes unrhyw rinwedd yn marwolaeth Crist i gwblhau iachawdwriaeth, rhaid ei gyfleu oll yn appwyntiad Duw !

Anhawdd dywedyd pa fodd y gellid dirymu gras Duw oll, os nid trwy athrawiaeth cyffelyb i hon. I ba ddiben y safwn ni dros Dduwdod Crist, os daliwn olygiadau mor lippa am ei iawn ag i wadu sicrwydd effeithioldeb ei farwolaeth ; neu ddal, drwy arwyddo, nad oes mwy o rym yn ei waed, ynddo ei hun, i dynnu ymaith bechod, nag oed y'ngwaed aberthau yr Hen Destament.

3. Mae yn hysbys ddigon i bawb adnabyddus o'r ddadl Sosinaidd, mai un prif reswm a gymhellir ganddynt yn erbyn machniaeth Crist yw, na adawa un lle i drugaredd anhaeddedit Duw yn maddeuant pechod, ond yr arddangosa iachawdwriaeth dynion fel peth o gyflawnnder. Fel hyn y dadleua y Sosiniaid

\* Dialogues, &c. page 166. † Memeirs, page 408.

yn erbyn y rhai a amddiffynant fachniaeth Crist. "Tystia yr Ysgrythyrau, yn mhab man, y maddeuir i ddynion eu pechodaun yn rhad. Ond nid oes un peth yn fwy gwrthwynebol i faddeuant rhad nag yw y fath iawn ag yr ymdrechant hwy drosto, a thaliad o werth cyfartal. Canys lle y boddlonir gofynwr, naill ai gan y dyledwr ei hun, neu gan berson arall ar ran y dyledwr, ni ellir dywedyd mewn gwirionedd am dano ef, faddeu o hono y ddyled yn rhad."\*

Mae yr ymresymiad hwn mor debyg i eiddo Mr. Fuller, yn ei wrth-ddadleuon i'r egwyddor o ddyledwr a gofynwr, fel yn gwasanaethu i egluro gwaith mawr y prynedigaeth, fel y mae y tebygolrwydd yn rhyfeddol, yn gystal a galarus. Efe a gyttuna a'r Sosiniaid yn gwadu i Grist foddloni cyfiawnder dwysol yn y fath fod dros bechodau ei bobl, ag fod cyfiawnder ei hun yn arddelwi eu hiachawdwriaeth.† Ac er bod y gymhariaeth o ddyledwr a gofynwr yn cael ei defynddio yn unig i roddi rhyw feddyl-ddrych o'r egwyddor, ar yr hon y dygir y'mlaen waith mawr y prynedigaeth; etto, er mor ysgrythyrol ydyw, bu gan Mr. Fuller y wyneb-galedwch i'w gwrthod, a chyda hyny, y gwirionedd pwysig a fwriedir egluro drwyddi. "Yn achos y dyledwr, medd ef, wedi unwaith dderbyn iawn, cyfiawnder a ofyna ei gyflawn-ollyngdod; ond yn achos y troseddwr, lle y gwneir iawn i anrhyydedd archolledig y gyfraith ac awdurdod y deddf-roddwr, er y caniatâ cyfiawnder ei oll-yngdod, etto ni ofyna hyny mewn modd amgen nag y gallasai fod yn beth o "addewid i'r machniydd."‡ Attebiad i'r wrth-ddadl hon o eiddo Mr. Fuller a'r Sosiniaid sydd beth tra hawdd. Tuag at y pechadur, iachawdwriaeth sydd weithred o drugaredd rad, ac anhaeddianol; ond tuag at Grist, fel machniydd a chynnrychiolwr y pechadur, y mae yn weithred o gyfiawnder, yn cyfodi, nid yn unig oddiar yr addewid a wnaeth-pwyd iddo gan y Tad, ond oddiwrth natur rinweddol ei iawn cyflawn ei hun. Yn holl gynllun rhyfeddol y prynedigaeth, cyfiawnder anfeidrol a thrugaredd annherfynol a arddangosir. Yn y gwaith mawr hwn, y disgleiria Jehofah yn ei holl ogoniad fel Duw cyfawn ac Achubydd.

YN WYTHFED. Drwy wadu trosglwyddiad o bechod ar Grist, Mr. Fuller a faglodd ei hun a llawer o afresymolderau. Y'mysg pethau eraill, y cyfundraeth hwn a'i harweiniodd i wadu

\*Racovian Catechism, section 5, chapter 8.

†See Peter's observations in Dialogues, &c. page 223, and James's reply.

‡Dialogues, &c. page 221.

fod dioddefiadau Crist yn gospedigaeth gwirioneddol a phriodol.\* Ond wrth hyn ni feddylia efe, fel y tybiodd rhai,† na ddioddefodd Crist yn wirioneddol a diffuant, ond nad oedd ei ddoddefiadau yn gospedigaeth gwirioneddol a phriodol. Yn awr, os nid oedd dioddefiadau Crist yn gospedigaeth gwirioneddol, fe ganlyna na chospir byth bechodau y rhai a gedwir oll, ac fel hyn trugaredd a fuddugoliaethai ar draul cyflawnder. Caniateir na chospir pechod yn briodol yn mhersonau y rhai a gedwir; ac os ni chospir ef yn mhersonau eu Machniydd mawr, pechod a faddeuir heb gospedigaeth, a chyflawnder heb ei foddloni. Os, fel yr haera Mr. Fuller, "Nad yw euogrwydd yn drosglwyddadwy, ond yr erys drwg-haediant y troseddwr," yna cyflawnder, am y ca efe euogrwydd ar y troseddwr, a waedda yn uchel am ei gospedigaeth; ac ni ddichon, ychwaith, ganiatau dioddefiadau person diniwaid yn ei le, o achos na chaiff ddim euogrwydd yn y cyfryw un; ac o achos y cospa bechod, yn unig lle y ceir fod pechod i'w gospi. Eithr, os gwir yw i Dduw, drwy weithred ryseddol o'i ras, roddi anwiredd yr holl rai a gedwir, ar Grist, yna cyflawnder dwyfol yn cael pechod arno ef, a'i cospodd ynddo ef; ond yr un cyflawnder a wahardda gospi credinwyr, o achos na cha ef un euogrwydd arnynt hwy. Drachefn; dywedodd Mr. Fuller lawer am ddioddefiadau Crist, fel arddangosiad o gasineb Duw yn erbyn pechod; ond mae y rhan hon o'i gyfundraeth mor anghyson ag yw y lleill. Dioddefiadau Immanuel oedd ynt, yn wir, yn arddangosiad o atgasrwydd anfeidrol Duw at anwiredd; ac ymddengys yn hyn, nad arbedai efe bechod pan y ceid ar ei Fab ei hun, ond efe a'i cospau hyd yn oed ynddo ef. Ond os tybiwn na throsglwyddwyd pechod yn wirioneddol ar Grist, yna ei ddioddefiadau a allent yn wir fod yn arddangosiad o gariad at y pechadur, ac o anrhyyded y deddf-roddwr, ond ni amlygesid yn berffaith gasineb at anwiredd. "Nid yw yr holl fydd, medd un Puritan sanctaidd, mor anwyl y'ngolwg Duw ag yw ei Fab; a phe dichonadwy fuasai cyd-ddwyn a phechod, ar ei Fab y gwnelsid hyny, gan mai ei eiddo ef oedd yn unig trwy gyfrifiad. Gall tad hoff, o bosibl, esgeuluso bai yn ei Fab, yr hyn ni phasia efe heibio mewn caethwas; ond pan darawo tad blentyn anwyl, ar yr hwn y caed bai, a thân ei ddi-gofaint yn attal ei gariad, arwydda hyn eithafoedd cynddaredd

\* Dialogues, &c. page 203.

† Testimony of the Norfolk and Suffolk churches, 1806, page 22, where Mr. Fuller is thus misunderstood.

y tad, ac ysgelerder y trosedd a'i henynodd. Pan ddyryr yr Arglwydd anwired ar Grist, a'i gael arno ef, os efe ei hun ni ddiangc,—ie, os ni cheir fod lleihad o'r digofaint, er na bydd y trosedd arno ef yn amgen nag fel meichiau, dengys hyn fod anwired o arogl mor ffiad yn ffroenau Duw, fel ag y mae yn anmhosibl bod ynddo unrhyw dueddgarwch neu esgeulusder tuag atto y'mha le bynag y ceir ei fod.”\*

**YN NAWFED.** Y'mha ffordd bynag y dwys-sfyriwn ni gyfundraeth Mr. Fuller, ei hanghysondeb a'i gwrthuni a ymdangosa. Efe a addef yr athrawiaeth o etholedigaeth, er i brofiad ddlangos bod tueddiad ei egwyddorion yn wrthwynebol i dderbyniad croesawgar o honi; ond efe a *addef* i Dduw'r Tad ddewis rhyw nifer o ddynion cwym piedig yn Nghrist Iesu, y rhai a benderfynodd efe ddwyn i ogoniant tragwyddol drwy waed y Gwaredr; etto, Mr. Fuller a wada, mewn effaith, dywallt gwaed Crist dros bechodau yr etholedigion, ar wahan oddiwrth eraill. Addefa fod amcan Duw yn rhoddi ei Fab, a diben Crist yn dodi ei einioes i lawr, *yn bennadol*; etto, haera dros iawn *anmhennadol*. Efe a ganiata y golygai bwriad pen-arglyddiaethol Duw mewn etholedigaeth, a gwaith yr Yspryd bendigedig mewn dychwelied, bobl briodol; etto, efe a wada y disgleiria yr un pen-arglyddiaeth yn marwolaeth Crist. Yn lle dal yn gyson y golygai y rhan a gymmerodd pob un o ber sonau addoladwy y Drindod y'ngoruchwyliaeth fawr yr iaehaw dwriaeth, yr un gwrthrychau, ni a gawn etholedigaeth neillduol, galwedigaeth effeithiol, ond nid prynedigaeth neillduol. Caniata fod bwriad Duw y Tad yn bennadol; gweithrediad yr Yspryd sydd ddiammodol; etto, gydag anghysondeb rhyfeddol, arddangosa *iawn* Crist fel yn ddigonol ammodol dros holl hil Adda! Fel hyn, mi a ddangosais rai pethau neillduol lle yr ymddengys syniadau Mr. Fuller yn hunan-wrthddywediadol; ac os ydych chwi, fy nghysaill, yn ffieiddio o'r galon, fel yr wyf fi, y fath efengyl wyr-draws, y gyfundraeth hon o “ie a nage,” ac os oes i chwi unrhyw archwaeth at fynegiad cywir o wirionedd dwyfol yn ei symlwydd, dygaf i mewn i chwi yma, mewn ffordd o gyferbyniad, dystiolaeth rhai o'r eglwysi hyny a ystyriwyd agos “yn dommen ddrewedig mewn cymdeithas.” Cyffes Cymmanfa Eglwysi y Bedyddwyr yn Norfolk a Suffolk yw, ag yr anrh ydeddodd Dr. Rippon ei hun trwy ei gosod i mewn yn Nghofrestr y Bedyddwyr o'i eiddo ef.†

\*Dr. Crisp's Sermons, 4th edition, 1791, vol. ii, page 43. †Vol. IV. for 1801 and 1802, page 981. Gobeithiaf yn ddisfrifol fod eglwysi Norfolk a Suffolk yn parhau dal

"Nyni a gedwir, drwy allu ein Duw Cyfammodol, yn ddiysgog y'ngwirioneddau mawrion a gogoneddus yr efengyl dragwyddol—yr athrawiaethau sydd yn anrhymeddu Duw, yn cyfoethogi yr enaid, ac yn gwresogi y galon, o Drindod o personau yn y Duwdod—cariad pen-arglwyddiaethol, tragicwyddol, ac anghyfnewidiol y Tri-Un Jehofah, yn ymgysarfod yn yr Iesu, ac yn gorwedd yn ei holl ogoniant anniflanedig, a'i fendifithion aneiris, ar feibion Duw—etholedigaeth tragicwyddol rhai o'r hil ddynol i fywyd tragicwyddol a gogoniant yn Nghrist Iesu, yn deillio oddiwrth, a'i lywodraethu gan ben-arglwyddiaeth anymddibynol ac anattaladwy ewyllys y Jehofa—undeb tragicwyddol ac annattodadwy yr holl ddewisedigion yn Nghrist yr hwn a osodwyd i fynu er tragicwyddoldeb fel eu pen cyfammodol a'u cynnyrchiolwr gogoneddus; yn yr hwn y derbyniwyd eu personau mewn cariad—eu rhagarfaethiad i fabwysiad meibion, fel gweithred Duw y Tad, yn deilliaw o gariad annherfynol ei galon yn ei Fab, ac a fwriadwyd er mawl gogoniant ei ras anfeidrol—goruchwyliaethau cyfammodol, tragicwyddol, grasol, ac anfeidrol ddoeth y Tri Sanctaidd, o berthynas i iachawdwriaeth marwolion troseddedig—trosglwyddiad o holl bechodaù yr etholedigion oddiwrthynt hwy ar Grist, a chyflawn gondemniad a chospedigaeth o honyt ynddo ef—yr iawn cyflawn a wnaethpwyd drostynt hwy trwy yr un aberth gogoneddus ac holl-ddigonol o ddynoliaeth difrycheuleyd Crist, cyflwynedig i gyflawnnder anfeidrol ar allor ei dduwdod, yn holl fflamiau ei gariad adderchog—ufudd-dod personol a chwblberffaith ein Immanuel mawr, i'r ddeddf sanctaidd, wedi ei gyflawni yn lle a thros ei bobl, wedi ei dderbyn drostynt hwy, a'i gyfrif iddynt gan Dduw pob gras; a'u cyflawnhad rhad cyflawn, a thragywyddol drwyddo yn ei olwg ef—y prynediagaeth gogoneddus, glanhad perffaith, a maddeuant llawn, o holl lestri trugaredd, trwy werthfawr waed y groes—eu hadgenhedliad, galwad effeithiol, a dychweliad, trwy weithrediadau gogoneddus, hollalluog, ac anwrthwynebol Duw yr Yspryd Glan; y bywyd o ffydd maent yn fyw ar gyflawnnder Iesu, a'r gweithredoedd da a gyflawnant o gariad at y Drindod mewn Cyfammod, er anrhymeddedd gras nuillduol a gogoniant y Tri-Un Jehofah—yn ddiweddaaf, eu cadwedigaeth trwy nerth yr Hollalluog,

y gwrionedd yn ddisig!. Y mae ganddynt etto enw o fod 'yn fyw; mi obeithias nad marw monynt. Satan a geisiodd eu llithio hwynt oddiwrth y ffydd yn mherson Crist; ond os byth yr hudir hwy o'r neilldu drwy ei ddichelion ef, neu os byth y peidian ddwyn eu dystiolaeth yn erbyn duwinyddiaeth boblogaidd yr oes, yna safed y gyffes iachusol han fel pyst yn eu herbyn hwy drog byth.

trwy ffydd, i'r gogoniant hwnw y rhag-arsaethwyd hwynt gan gariad etholedig cyn sylfaenu y byd. Y gwirioneddau goruchel hyn a ystyriwn fel gogoniant y Bibl, enaid Cristionogrwydd, sylfaen gobaith pechadur, a ffynon gorfoledd y credadyn; a gallwn ddywedyd, mewn gwirionedd, y prisiwn hwynt uwchlaw cyfoeth y ddwy India. Nid ydym, ychwaith, yn feddianol ar radd digonol o'r boneddigeiddrwydd diragsfarnllyd diweddar, i'w hystyried gyda diofalwch difatter, neu eu golygu fel pethau anhanfodol, ond ystyriwn ein hunain yn rhwym i'w hamddiffyn hyd eithaf ein gallu, ac i wrthod pob haeriadau anghyson a hwynt.<sup>12</sup>

Ai yr athrawiaethau hyn a roddasant gymmaint tramgwydd i Mr. Fuller? Ai dyma y broffes sydd mor ddirmygedig yn ei olwg ef? Ai dyma yr eglwysi a gymharai efe i dommen mewn cymdeithas? O fy enaid, bydd dithau hefyd ddirmygedig! Cyfranoga dithau o gystuddiau yr efengyl, a bydded i ti gymdeithas a'r rhai sydd gyfranog o honiynt, yn eu trallog yn gystal ag yn eu llawenydd. A pha waeth, er dy waradwyddo a'th ddifenwi di yma, fel y gwnaed a'th Flaenor mawr, bydded yn sicr genyt, er dy ddiddanwch, y treiglir ymaith waradwydd ei ganlynwyr ef, pan ddel efe yn ei ogoniant, ac y'ngogoniant ei Dad, a'i holt angylion sanctaidd gydag ef.

### LLYTHYR III.

WEDEI mi yn fy llythyr diweddaf gymharu syniadau Mr. Fuller a hwy eu hunain, mi gaf dreulio yr un presennol a chwiliad gofalus o'i olygiadau neillduol ef am yr *iawn mawr*, trwy eu dwyn i'r prawf wrth air Duw. A chrefaf eich clustymwrandawiad yn ddwysach i'r rhan hon o'r pwnc, o achos mai fy mwriad yw profi bod yr egwyddorion a wrthwynebaf, yn

ddinystriol i agos yr holl athrawiaethau mawrion sylfaenol, mewn cyssylltiad a phrynedigaeth drwy waed Iesu. Pan ddechreuaus gyntaf yr olrheiniad hwn, nid oeddwn yn wybodus bod tystiolaeth mor ehelaeth, dros y cyhuddiad disrifol yma, ond pa mwyaf y myfyriaf y pwngc, dyfnaf yw, fy argyhoeddiad, bod y gwahaniaeth, nid mewn *geirianau*, ond mewn *pethau*; ac mewn pethau hefyd ag ydynt hanfodol i'r efengyl, ac yn gwneuthur i synu unig sylfaen gobaith pechadur. Af rhagof i brofi y cyhuddiad hwn yn y dull canlynol.

**YN GYNTAF.** Y peth cyntaf a dery y meddwl wrth fanwl-chwilio golygiadau Mr. Fuller mewn perthynas i'r iawn yw, nad yw marwolaeth Crist yn fachniol, yn ol ei egwyddorion ef. Wrth fachniol yr wyf yn meddwl, *dros*, neu yn lle eraill. Yr Arminiaid a'r Calfiniaid a ddaliant bod marwolaeth Crist yn fachniol; ond Mr. Fuller, wrth geisio myned rhygddyd hwy, mewn effaith a'i gwada. Pan haerwn i Grist ddodi ei einioes i lawr dros ei ddefaid, neu iddo farw yn lle ei etholedigion, yr ydym wrth hyn ymhaeru fod ei farwolaeth yn fachniol; neu pe haerem, gyda Dr. Whithby, i Grist farw yr un dros holl hil Adda, ni a haerem o hyd bod ei farwolaeth yn fachniol. Ond ni chyttuna Mr. Fuller ag un o'r rhai hyn; ni ddysga ef nac i Grist farw dros ei etholedigion yn unig, nac ychwaith haeru iddo farw dros holl hil Adda, ond efe a ddalia i Crist wneuthur iawn dros *bechod yn anmhennodol*, dros *bechod yn gyffredinol*, yn y fath ffordd ag y gallai Duw faddeu i rai dynion os mynai, neu bawd os gwelai ef yn dda. Fel hyn Mr. Fuller a wada bod marwolaeth Crist yn fachniol.

Ymddengys hyn, fe allai, yn fwy eglur etto wrth ystyried y dyryswn canlynol. Os bu Crist farw, efe a fu farw dros, neu yn lle, *pob dyn*, neu yn lle *rhai dynion*, neu yn lle *neb*. Yn awr, cymmered unrhyw berson, o olygiadau Mr. Fuller, yr un a fyno o'r rhai hyn, canys rhaid i un o honiynt fod yn wir. Os cymmer efe y cyntaf, a haeru gyda'r Arminiaid i Grist farw aros bob dyn, efe a newidia, ei dir. Os yr ail, a haeru i Grist farw dros ei etholedigion yn unig, efe a rydd y ddadl i fynu i ymuno a'i wrthwynebwyr; ac os yr olaf a gymmera, efe a wada i Grist farw dros neb o'r hil ddynol! A hyn, mewn effaith, a wnaeth Mr. Fuller drwy ei athrawiaeth o iawn anmhennodol. Y gwirionedd o hyn a gadarnhawyd yn fynych mewn cyd-ymddiddan a phersonau o olygiadau Mr. Fuller. Ymddiddan tebyg i'r canlynol a ddamweiniodd yn fynych.

*Holiad.* "Beth yw eich golygiad chwi am effeithioldeb a helaethrwydd marwolaeth Crist?"

*Atteb.* "Yr wyf fi yn ystyried yr iawn fel moddion dwyfol anghyffredinol, i weinyddu trugaredd yn gyson a chyflawnder; a bod y cyfryw foddlonrwydd wedi ei wneuthur ynddo dros bechod, fel i roddi sail i bechaduriaid gredu a bod yn gadwedig."

*Holiad.* "Da; ond dymunwn wybod pa un a gredwch chwi i Grist farw dros bob dyn, neu dros ei etholedigion yn unig?"

*Atteb.* "Yr wyf yn ystyried iddo farw dros bechod."

*Holiad.* "Gwir yw y bu; ond efe a fu farw hefyd dros bechaduriaid, a dymunwn wybod pa un a gredwch chwi iddo farw, dros bob pechadur, neu dros rhai pechaduriaid yn unig?"

*Atteb.* "Yr wyf yn ystyried pe yr achubesid onid un pechadur yn unig yn gyson a chyflawnder, y gofynid ei achub drwy yr un ufudd-dod perffaith hollol hyd angau; ac wedi cael hyn, y mae yr iawn ynddo ei hun yr un mor addas i achub byd ag i achub un person, ond i fyd gredu ynddo."

*Holiad.* "Yr wyf yn eich deall chwi, ond nid attebasoch fy ngofyniad. Ni ddywedasoch pa un a fu efe farw dros un person neu dros fyd."

*Atteb.* "Credaf fod llawnder yn iawn Crist digonol er iachawdwriaeth yr holl fyd, pe credai yr holl fyd ynddo ef."

*Holiad.* "Yr ydych o hyd yn osgoi fy ngofyniad i; dymunaf arnoch ddywedyd pa un a fu Crist farw dros bob pechadur, neu dros rai yn unig?"

*Atteb.* "Os wrth hyn y meddyliwch ofyn dros hwy y mae iawn Crist yn ddigonol, yr wyf yn atteb, yr holl fyd; ond os cyfeiriwch at fwriad Duw mewn perthynas i'w gymhwysiad, attebaf, dros rai dynion yn unig."

*Holiad.* "Yma, yn ddicheillgar, chwi a gymmynsgasoch amryw bethau; canys fe all dyn gredu yn mwriad pen-arglwyddiaethol Duw, mewn perthynas i gymhwysiad o'r iawn, ac etto dal prynedigaeth gyffredinol. Eithri ni ofynais i ddim y'nghylch bwriad Duw, nac y'nghylch cymhwysiad o'r iawn, ond mi a ofynais holiad eglur, i'r hwn y disgwyliais yn ofer am attebiad didwyll. Caniatewch i mi erfyn arnoch ymwrthod a chuddiedig bethau cywilydd, heb rodio mwyach mewn cyfrwys-dra. Addefwch yn hyf, nai'l ai i Grist farw dros bob dyn, neu iddo farw dros rai yn unig, neu ynto iddo farw dros neb. Dywedyd iddo farw dros bechod yn unig, yw gwadu bod ei farwolaeth yn fachniol."

Mi a wn yr ymedy Mr. Fuller weithiau oddiwrth ei syniadau neillduol, a llafaru am Grist yn marw dros ei ddefaid, ei eglwys, &c. ; eithr ni phrofa hyn ddim ond anghysonder cyfeiliornad. Pob dyn cyfeiliornus *αὐλοχαρακτίσ*, a gondemniodd, a ddamniodd ei hunan.\* Golygiad *neillduol* Mr. Fuller o'r iawn yw yr hyn yr wyf fi yn ei wrthwynebu, ac nid y gwirionedd ag a gydnabydda efe weithiau, yn ei olygiad neillduol ef yn noeth yw hyn : “ Marwolaeth Crist (barna ef) oedd iawn i gyfawnder, gan i Dduw drwy hyn yma amlgu ei anfoddlonrwydd yn erbyn pechod. Wedi rhoddi yr iawn hwn, ac amlygu yr anfoddlonrwydd yma, agorwyd ffordd, trwy yr hon y gellir achub un person, neu yr holl fyd, yn ol ewyllys pen-arglwyddiaethol Duw.” Pob neillduolrwydd yn yr iawn ynddo ei hun, efe a'i gwada, ond addefa fwriad pen-arglwyddiaethol Duw mewn perthynas i'w gymhwysiad. Yn fyr, ni addefa na phrynedigaeth gyffredinol gyda'r Arminiaid, nac ychwaith brynedigaeth neillduol gyda'r Calfiniaid, eithr haeru yr hyn a ellir yn briodol iawn gyfenwi yn brynedigaeth anmhennodol ; a pha mor groes yw yr athrawiaeth hon i air Duw, ni a gawn weled yn ebrwydd.

Mae yn deilwng o sylw, er yr ymddengys amryw ysgrythyrau yn ffafrio prynedigaeth gyffredinol, nad oes un, hyd yn oed mewn ymddangosiad, yn cefnogi golygiadau Mr. Fuller. Yr adnodau hyny ag sy'n llafaru am Grist yn marw dros yr holl fyd, dros bob dyn, &c. a brofant ormod i'w amcan ef. Yn ofer y chwiliwn yr Ysgrythyrau am un testyn yn cefnogi y tyb gwrthun bod yr iawn yn ddigonol i bawb, ond wedi ei fwriadu i rai yn unig ; neu am yr awdurdod lleiaf i ddidoli digonolrwydd yr iawn oddiwrth y bwriad o hono. At y gyfraith ac at y dystiolaeth yr apeliwn yn awr, ac wrth y rheol ddiwyrni hon ni a brofwn yr athrawiaeth o brynedigaeth anmhennodol. Gwysio ger bron yr holl adnodau ag sy'n mynegi natur sefydlog, bennadol, a machniol yr iawn, a fyddai adysgrifenu rhan fawr o'r Hen Testament a'r Newydd ; ychydig, gan hyny, all fod yn ddigonol fel engraifft.

Ac yn y lle cyntaf, os ymwrandoawn ag ystyr y gair Prynedigaeth, ni a gawn y cynnwysa reswm cryf yn erbyn y ddyfais anmhennodol. Y gair Saesneg a darrra o'r Lladin, Redimo, prynu eilwaith, rhyddhau drwy werth ; a'r geiriau a arferir yn y Testament Groeg i amlygu ein Prynedigaeth ydynt *αγοράω* prynu, a *εξαγοράζω*, prynu allan o ddwylaw arall,

\**Titus iii. 11.*

neu gael rhyw beth drwy dalu gwerth priodol am dano. Yr Hebraeg, y gair כְּפָרָה, gwaredu, a arwydda hefyd didoli, neu osod o'r neilldu; naill ai o achos y "didolir" y peth a brynir at wasanaeth y prynwr, neu o achos ddidoli meibion Israel trwy brynedigaeth i fod yn bobl briodol i'r Arglwydd. Gwir natur prynedigaeth, gan hyny, a gynnwysa ryw beth machniol, ryw beth pennodol. Y gwirionedd mawr hwn a ddisgleiria yn nghyfodau ac arddangosiadau y gyfraith, yn y rhai oll y delir allan yn wastad natur bennadol y prynedigaeth drwy farwolaeth Crist. Fel hyn, rhyddhad Israeliad tlawd gan unrhyw gyfathrachwr iddo sydd gysgod bywiog o farwolaeth Crist dros ei bobl, yr hwn a roddeis ei einioes dros eu heinioes hwy, a'i berson dros eu personau hwynt. "A phan gyrhaeddo llaw dyn dieithr, neu ymdeithydd, gyfoeth gyda thi, ac i'th frawd dlodi yn ei ymyl ef, a'i werthu ei hun i'r dieithr, yr hwn fydd yn trigo gyd a thi, neu i un o hiliogaeth tylwyth y dieithryn; wedi ei werthu, cair ei ollwng yn rhydd; un o'i frodyr a gaiff ei ollwng yn rhydd," &c.\* Yr arian cymmod hefyd oedd gysgodol o'r prynedigaeth trwy Grist, ac o hono ef yn rhoddi ei hun i fod yn bridwerth dros rifedi pennodol o bechaduriaid. "Pan rifech feibion Israel, dan eu rhifedi, yna rhoddant bôb un iawn am ei einioes i'r Arglwydd, pan rifer hwynt: fel na byddo pla yn eu plith, pan rifer hwynt. Hyn a ddryry pob un a elo dan rif. Hanner sicl, yn ol sicl y cyssegr:—A chymmer yr arian cymmod gan feibion Israel, a dod hwynt i wasanaeth pabell y cyfarfod." &c.† Gorchymwynwyd hefyd na chaid gwerthu y tir dros byth, ond y byddai i'w ryddhau, neu ei brynu yn ol; i arwyddo, er i etholedigion Duw werthu eu hunain yn rhad, etto, na chollir monynt, o achos mai eiddo yr Arglwydd ydynt, wedi eu prynu drachefn yn sicr, nid yn wir ag arian ac aur, ond â gwerthfawr waed Crist. "A'r tir ni chair ei werthu yn llwyr; o herwydd dieithriad ac alltudion ydych gyda mi. Ac yn holl dir eich etifeddiaeth rhoddwch ollyngdod i'r tir. Os tloda dy frawd, a gwerthu dim o'i etifeddiaeth, a dyfod ei gyfnasaf i'w ollwng; yna efe a gaiff ollwng yr hyn a werthodd ei frawd."‡ Yn yr engreifftiau hyn ni a ddysgw arwyddocad y gair prynedigaeth, ac fel y cyfeiriant at ein Harglwydd Iesu Grist, gallwn hefyd ganfod ynddynt olrheiniadau o natur sachniol ei farwolaeth. Yn wir, pa bryd bynag y crybwyllir am iawn Crist, yn yr Ysgrythur, yi egwyddor hon yn mhob lle a arwyddir, ac agos y'mhob lle a amlygir. Yn

\* Ex. xxx, 12—16. † Lev. xxxv, 23—25. ‡ Ioan x, 15, &c.

ganlynol ni a ddarllenwn, iddo "roddi ei einioes i lawr dros ei ddefaid ;" iddo "roddi ei hun dros ei Eglwys ;" "roddi o hono ei einioes dros lawer." Rhagfynegodd y prophwyd, "y bleiddid y Messiah, ond nid o'i achos ei hun ; a prophwyd arall a hysbysa i ni, dros bwy, neu yn lle pwyl byddai iddo farw ; "ond efe a archollwyd am ein camweddau ni, efe a ddrylliwyd am ein hanwireddau ni : rhoddwyd pla arno ef am gamwedd fy mhobl." Ei waed, fel gwaed o'r Testament Newydd, "a dywalltwyd dros lawer." "Efe a'i rhoeddies ei hun drosom, i'n prynu ni." "Efe a'i rhoddes ei hun dros ein pechoda fel y'n gwaredai ni oddiwrth y byd drwg presennol." Ac yn fyr, gwrthychau y prynedigaeth, eglwys Dduw, a "bwrcaswyd a'i briod waed," "wedi ei phrynu oddiwrth ddynion," ac am hyny a ddywedir ei phrynu er gwerth. Yn awr, yr holl Ysgrythyrau hyn, gyda lluoedd eraill, a ddatganant yn eglur nad yw marwolaeth Crist yn iawn dros bechod yn y crynswth o hono, nac yn amlygiaid yn unig o'r anfoddlonrwydd Dwyfol yn erbyn pechod, nac ychwaith yn iawn anmhennodol i gyflawnder Dwyfol, eithr pridwerth prynedigaeth, *ransom price*, wedi ei dalu dros ryddhad tragywddol rhifedi neillduol o bechaduriaid, a boddlonrwydd cyflawn dros eu pechoda neillduol hwy.

Nid yw, ychwaith, y manau hyny o'r Ysgrythur a ymddangosant yn ffafriol i'r ddyfais gyffredinol yn llai cyfeiriol at y pwngc. Hawdd fyddai dangos nad yw y cyfryw adnodau yn ffafrio prynedigaeth gyffredinol mewn gwirionedd, yn gymaint ag y mynegant yn gyflawn am y boddlonrwydd holol a roddwyd i gyflawnder dwyfol trwy waed Crist, ac effeithioldeb sicr ei farwolaeth ; ond nid hyn yw ein pwngc. Y ddadl a berthyna, nid i brynedigaeth gyffredinol, ond i brynedigaeth anmhennodol : nid y ddadl yw dros bwy y bu Crist farw, ond a fu ef farw dros neb ? a yw ei farwolaeth ef yn fachniol ? Yn awr, ni a ddarllenwn i'r Iesu "farw dros bawb." Y "profodd efe farwolaeth dros bob dyn," hyny yw, yn lle pob dyn. Y Groeg yw  $\nu\pi\epsilon\rho \pi\alpha\nu\tau\omega\varsigma$ , dros bob un, hyny yw, dros bob un o'r meibion a ddygai ef i ogoniant ; ond natur fachniol ei farwolaeth a amlygir yn nerthol yn y geiryn, participle,  $\nu\pi\epsilon\rho$ .\* Y gair hwn a gyfieithir "dros" yn Rhuf. v. 7, 8. "Oblegid braidd y bydd neb farw *dros* un cyflawn : oblegid *dros* y da, ysgatfydd, fe feiddiai un farw héfyd. Eithr y mae Duw yn can-

\* Gall y darlenydd weled hyn wedi ei egluro drwy ddifyniadau allan o Euripides, &c. yngwaith Witsius, a elwir *Œcon*, of the Cov. Book 2, chap. 6.

mol ei gariad tuag attom ; oblegid, a nyni 'etto yn bechaduriaid, i Grist farw *drossom* ni." Ac yn wir, y'mhob lle a ymddengys yn ffafrio prynedigaeth gyffredinol, y gwirionedd mawr hwn a drosglwyddir, sef i Grist farw *dros*, neu yn lle y personau y cyfeirir attynt, ac felly eu pwrcasu hwynt trwy ei waed. "Na ddistrywia ef a'th fwyd, dros yr hwn y bu Crist farw." "A ddifethir y brawd gwan, dros yr hwn y bu Crist farw?" "Y rhai, yn ddirgel, a ddygant i mewn heresiau dystriol, a chan wadu yr Arglwydd, yr hwn a'u prynodd hwynt." "Yr hwn a'i rhoddes ei hunan yn bridwerth dros bawb, i'w dystiolaelu yn yr amseroedd priod."\* Mae'r gair a gyfeithir "pridwerth," *ransom*, yn y difyniad olaf hwn yn dra arwyddocaol. Nid  $\lambda\upsilon\tau\rho\omega$ , pridwerth, yn unig yw, eithr  $\alpha\upsilon\tau\iota\lambda\upsilon\tau\rho\omega$ , pridwerth cyfattebol. "Arwydda yn briodol, medd un beirniad dysgedig, bridwerth, drwy yr hwn y gwaredir carcharorion oddiwrth, eu gelynion, y fath hwnnw o gylnewidwriaeth, trwy yr hwn y gwaredir un person trwy berson arall, ac y gwaredir einioes."† Nid oes un athrawiaeth, gan hynny, yn fwy gwrthwynebol i un arall, nag yw'r golygiad ysgrythrol hwn o brynedigaeth, i ddyfais anmhennodol Mr. Fuller. Mi a'i cyfenwais hi, mewn ffodd o wahaniaeth, yn brynedigaeth anmhennodol ; ond nid yw, mewn gwirionedd, yn brynedigaeth oll. Gellir profi gwrthuni y gyfundraeth y'mhellach drwy y rhesymau canlynol.

*Rheswm 1.* Os ni bu Crist farw ond dros bechod yn y crynswth yn unig, ac os nid yw ei farwolaeth ef yn fachniol, yna ni ddichon un pechadur yn neillduol gael unrhyw ran neu berchenogaeth neillduol yn ei farwolaeth, ac o ganlyniad llafuria Paul dan gamsyniad, wrth amlygu ei ffydd yn Mab Duw, pan yr ychwanegai, "Yr hwn a'm carodd, ac a'i dodes ei hun drosof fi."

*Rheswm 2.* Iawn dros bechod yn y crynswth, a prynedigaeth anmhennodol, ydynt ill dau yr un mor afresymol. Ni ddichon fod prynedigaeth lle ni ryddheir y personau; ni all fod *iawn* lle ni olygir *personau*. Gellir gwneud iawn dros bechodaun a gyflawna un dyn yn erbyn arall, ond iawn dros bechod yn y crynswth sydd beth annealladwy; gellir, ac fe wnaethpwyd iawn dros bechodaun pechaduriaid, ond iawn dros

\* Rhuf. xiv. 15. 1 Cor. viii. 11. 2 Pedr ii. 1. 1 Thess. ii. 6.

† Significat proprie pretium, quo redimuntur captivi ab hostibus; eamque commutationem qua capite caput et vita redimimur vita. *Hyperius in Leigh's Critica Sacra.*

bechod fel pechod, sydd wrthum. Yn gyssylltiedig a iawn y mae cymmod. Y'mhlith dynion, pan iawnir camwedd, y blaid dramgwyddiedig a foddlonir, a chymmod a ganlyn : felly pan fu Crist farw dros bechoda'u ei etholedigion, gwnaethpwyd iawn, rhoddwyd boddlonrwydd, a chymmod a gymmerth le.\* Ond ar y tyb i Grist farw dros bechod yn y crynswth, pwy, neu beth a gymmodwyd ?

*Rheswm 3.* Y tyb hwn o iawn anmhennodol a deifl gwm-mwl ar ddoethineb Duw : canys, os, fel yr addefa Mr. Fuller, mai bwriad Duw oedd gwneuthur yr iawn yn effeithiol ar ran yr etholedigion yn unig, yna y diben mawr hwn a gyflawnwyd trwy osod eu hanwireddu hwy yn unig ar Grist ; ac fel hyn, yn ol prynedigaeth neillduol, y mae Jehovah o *un meddwl*, yn † helaeth o bob doethineb a deall tuag at ei ddewisedigion. Ond prynedigaeth anmhennodol, yn gyssylltiedig ag etholed-iagaeth bersonol, a arddangosa ein Duw ni fel yn cloffi rhwng dau feddwl, megis pe buasai heb fod yn gwbl benderfynol pwy a achubai.

*Rheswm 4.* Y syniad dan sylw yn awr, a gymyla ogoniant gwaith cwbl-orphenol Crist. Y cwbl a briodola i'r gwaith hwnw, yw, yn unig y posibilrwydd o iachawdwriaeth. Yn y golygiad yma, dadleuwyr prynedigaeth anmhennodol a chyffredinol a gytuant a'u gilydd. Unant ill dau yn gwadu i Grist wneuthur iawn hollol dros bechoda'u dynion, ac effeithio eu gwir gymmodiad a Duw ; gan ddirnad yn eglur, os bu Crist farw dros ddynion yn hollol y byddai eu hiachawdwriaeth yn sicr.‡ Prenedigaeth anmhennodol ni sicrha iachawdwriaeth hyd yn aed un pechadur; y cwbl a gymmer arni effeithio yw gosod dynion mewn sefyllfa achubadwy, a'u gwneuthur yn gymmodadwy i Dduw. Cymmer arni fod yn ddigonol er iachawdwriaeth pob dyn, ond ni sicrha iachawdwriaeth neb. Yn awr, gogoniant prynedigaeth yw, nid yn unig gwneuthur Duw yn gymmodadwy a phechod yn faddeuadwy; nid y gwna hi Dduw yn gymmodadwy tuag at ddyn, neu ddyn yn gymmodadwy tuag at Dduw ; ond “dibenu cainwedd, selio pechoda'u,”|| “cyflawnhau yr annuwiol, heddychu pechaduriaid a Duw,§ a pherfeithio yn dragwyddol y rhai sydd wedi eu sancteiddio.”¶ Nid ymddangosodd Crist i wneuthur dynion yn achubadwy a phechod yn faddeuadwy; ond efe a ymddangosodd i “ddileu pechod trwy ei aberthu ei hun.” “Mewn

\* Rhuf. v. 10. † Eph. i. 8. ‡ Gwel Dr. Whitby, page 105, 2nd edition, 8vo.  
¶ Dan. ix. 24. § Rhuf. v. 10. ¶ Heb. x. 14.

gair, medd un o gedyrn Israel, naill a'i nid oedd marwolaeth Crist yn wir a pherffaith iawn dros bechod, neu os oedd, yna, oddiar bod egwyddor rheswm a chyflawnder, rhaid maddeu yr holl bechod hwnw yn wirioneddol a'i dynnu ymaith, i'r hyn yr oedd ei farwolaeth ef yn wir a chyflawn foddlonrwydd. Ond ar y tyb nad oedd ei brynedigaeth ef yn brynedigaeth lwyr, mae yn diflanu i ddim prynedigaeth oll. Ewch drosodd, gan hynny, yn deg a chryno, I bebyll Sosinus, neu credwch mai Crist yw Oen Duw, yr hwn mewn gweithred, ac mewn gwirionedd, sydd yn dywn ac yn tynnu ymaith bechodau y byd,"\*

*Rheswm 5.* Golygiad Mr. Fuller o'r iawn a ddistrwyia y cydgordiad prydferth hwnw a dreiddia trwy bob rhan o offeiriadaeth gogoneddus Crist. Y cydgordiad hwn a ymddangosodd yn gysgodol dan y gyfraith. Aaron yr arch-offeiriad, a gymmerwyd o blith ei frodyr, meibion Israel, i offrymu rhoddion ac aberthau. Dros bechodau Israel yn unig, y gwnaeth-pwyd y cymmod, ac nid dros y cenhedloedd cymmydogaethol, nac ychwaith dros bechod yn anmhennodol. Ar arch-offeiriad a gynnrycholai Israel yn unig, pan ddygai efe eu henwau hwynt ar ei galon yn y ddwyfroneg barnedigaeth, a phan elai i mewn i'r sanctaidd sancteiddiolaf gydag enwau y deuddeg llwyth ar ei ddwyfron. Efe a ddygai eu barnedigaeth hwy, a'u barnedigaeth hwynt yn unig, o flaen yr Arglwydd yn wastadol; trostynt hwy yr eiriolai, a hwy a fendithia efe yn arbenig. Hyn oll a arddangosai yr arch-offeiriad mawr hwnw a aeth i'r nefoedd, Iesu, Mab Duw. Ni chymmerodd efe arno y natur ddynol yn anmhennodol, eithr had Abraham a gymmerodd efe, fel y byddai efe yn *Goel*, cyfathrachwr etifed-dion yr addewid, ac felly meddiannu hawl gyfreithiol i'w gwaredu hwy. Fel eu harch-offeiriad hwy, efe a wnaeth gymmod dros bechodau y bobl; drostynt hwy yr ymddengys ef yn mhresennoldeb Duw; hwy a gynnrychiola efe; trostynt hwy yr eiriola efe, a hwy a fendithia efe yn y diwedd. Ni achuba ef neb ond hwy, dros y rhai y gweddia; ni eiriola efe dros neb ond trostynt hwy, y rhai y bu efe farw trostynt; ni bu ef farw tros neb onid hwy, tuag at y rhai y safodd efe yn gyfathrachwr gwar-edol iddynt. Y pwngc gogoneddus hwn a lanwai enaid yr apostol a pher-lewyg sanctaidd, pan lefai allan, "Pwy a ddyry ddim yn erbyn etholedigion Daw? Daw yw yr hwn sydd yn cyflawn-hau. Pwy yw yr hwn sydd yn damnio? Crist yw yr hwn a fu farw, ie, yn hytrach a gyfodwyd hefyd; yr hwn sydd ar

\*Toplady's Sermons. Works, vol. 3. page 31.

ddeheulaw Duw, yr hwn hefyd sydd yn erfyn trosom ni.”\* Ond och, pa fodd yr aflownydda athrawiaeth Mr. Fuller y cyd-gordiad hwn! Os yw yr iawn mawr yn anmhennodol, rhaid i bob rhan o offeiriadaeth ogoneddus Crist, gorhwyseg arni, fod yn anmhennodol hefyd. Os bu Crist farw dros bechyd yn y crynswth, fe ganlyn na ymddangosa efe yn mhresennoldeb Duw dros un dyn yn neillduol, y cynnyrchiola efe bech-aduriaid yn gyffredinol, ac yr eiriola efe dros ddynion yn anmhennodol; yr hon athrawiaeth, I Dduw y b’o'r diolch, sydd gau, pe amgen ni achubid un person o'r hil ddynol.

Fel hyn golygiadau Mr. Fuller a safant yn wrthwnebol i natur fachniol marwolaeth Crist, ac ydynt, o ganlyniad, yn ddymchweliadol o un o wirioneddau mwyaf pwysig yr efengyl.

**YN ALL.** Athrawiaeth arall, hanfodol i'r efengyl, a wada Mr. Fuller, yw, trosglwyddied o'n pechodaun ni ar Grist. Yr athrawiaeth fawr hon ni wedir gando mewn modd anuniongyrchol; ni wedir moni yn ganlyniadol, neu trwy gasgliad; ond efe a'i gwada hi yn eofn, ac mor eglur ag y mae yn possibl i iaith amlygu. Y mae yn anmhosible cam-ddeall y difyniadau canlynol: “Nid yw rhwymedigaeth gwirfoddol i ddioddef cospedigaeth un arall yn euorgrwydd, ddim mwy nag y mae y gollyngdod canlynol oddiwrth rwymedigaeth ar y troseddwr, yn ddiniweidrwydd. Euogrwydd a diniweidrwydd ydynt drosglwyddadwy yn eu heffeithiau; ond ynddynt eu hunain y maent yn annhrosglwyddadwy;”† a thrachefn, “Nid yw pechod a chyflawnder, ynddynt eu hunain, yn drosglwyddadwy;”‡ a thrachefn, “Dyledion ydynt drosglwyddadwy, ond camweddau nid ydynt. Gall trydydd person ddileu y naill, eithr ni ddichon ond diddymu effeithiau y llall; mae drwg-haediant y troseddwr yn aros.”||

Pa mor wagelog bynag y barnodd Mr. Fuller yn angen-rheidiol amlygu ei hun ar rai pyngciau, efe a lafara yn hyf ar y pwngc hwn. Yma ni a gawn wadiad mor eglur o athrawiaeth fawr Brotestanidd, ag sydd ddichonadwy mewn geiriau. Ond etto, rhaid cymmeryd gofal rhag ei gam-ddarlungio. Nid yw Mr. Fuller yn gwadu y cyfrifwyd pechod i Grist, ond efe a wada y trosglwyddwyd pechod arno. Yr hyn a feddylia efe wrth gyfrifiad o bechyd i Grist, ni a'i cawn yn ei eiriau ef ei hun; “cyfrifiad o'n pechod ni i Grist, a gynnwysir yn y trosglwyddiad o'i effeithiau.”§ ond trosglwyddiad o bechyd ei hun,

\*Rhuf. viii. 33, 34. †Dialogues, &c. page 209. ‡213. ¶219. ¶Morris' Memoirs of Fuller, 412.

efe a'i gwad yn bendant, fel peth annichonadwy. Y'mhlith dynion, yn wir, caniateir na ellir trosglwyddo euogrwydd, ond ei effeithiau yn unig. Addefir y dichon trydydd person ddileu dyledion y'mhlith meibion dynion, ond nid camweddau, y rhai gyda marwolion a all fod yn drosglwyddadwy yn unig yn eu heffeithiau; ond y'ngwaith mawr yr iachawdwriaeth, ein Duw ni a saif yn unigol ac ar ei ben ei hun. Yn y gwaith gogoneiddusaf hwn, y mae y fath arddangosiad o gyfiawnder, trugaredd, doethideb, a gallu, na ddaeth erioed i galon dyn amgyffred, ac o ganlyniad, na ddichon fod un cysfattebolrwydd iddo yn ngweithrediadau dynion. "Pwy a draethodd hyn er cynt? Pwy a'i mynegodd er y pryd hwnnw? Onid myfi yr *Arglwydd*? ac nid oes *Duw* aral ond myfi yr *Arglwydd*? yn *Dduw* cyfawn, ac yn achubydd; nid oes ond myfi."\*

Y ddadl, ynte, yn noeth, yw hyn; yn ngoruchwyliaeth sawr yr iachawdwriaeth, pa un a drosglwyddwyd pechodau dynion ar Grist, neu yr effeithiau yn unig. Os ni ymddengys y cyntaf oddiwrth yr *Ysgrythyrau*, yna, ymresymiad Mr. Fuller sydd gywir; eithr os dysga gair Duw yn eglur y trosglwyddwyd, nid yn unig canlyniadau ac effeithiau dychrynllyd pechod ar Grist, ond hefyd pechod ei hun, yna, ei holl ymresymiadau ar y pwngc ydynt eirau anwired. Addefir yn rhwydd ac yn llawen y dug Crist, fel machniydd ei bobl, effeithiau eu pechodau, cospedigaeth eu heuogrwydd; eithr dysgu na ddygodd efe ond hyn yn unig, a gwadu trosglwyddiad pechod ei hun, sydd beth arall, ac, fel y cynnygiaf brofi, yn gyfeiliornad tra mawr, ac yn groes i synegiadau egluraf gair Duw; er engraift,

(1.) Trosglwyddiad o bechod ei hun ar Grist, a ddysgwyd yn eglur dan y gyfraith. Rhag-ddarluniwyd hyn trwy osodiad dwylaw y pechadur ar ben yr anifail a fwriedid ei aberthu. Fel hyn, pan yr oedd Aaron a'i feibion i'w sancteiddio, gor-chymwynwyd iddynt "osod eu dwylaw ar ben y bustach," yr hyn a gynnwrchiolai yn gysgodol drosglwyddiad o'u pechodau hwynt ar yr anifail, yr hwn, trwy hyny, a gyfrifid yn teilyngu marwolaeth; canys fe chwanegir, "A lladd y bustach ger bron yr *Arglwydd*, wrth ddrws pabell y cyfarfod."† Mwy nodedig etto yw iawn y bwch diangol, yr hyn sy ddarluniad bywiog o drosglwyddiad pechod ar Grist, ac o'i ddygiad ef o hono ymaith dros byth. "A phan ddarffo iddo lanhau y cyssegr, a phabell y cyfarfod, a'r allor; dyged y bwch byw; A

\*Esa. xvi. 21. †Exod. xxix. 10, 11.

gosoded Aaron ei ddwlaw ar ben y bwch byw, a chyffesed arno holl anwiredd meibion Israel, a'u holl gamweddau hwynt yn eu holl bechodau ; a rhodded hwynt ar ben y bwch, ac anfoned ef ymaith yn llaw gwr cymhwys i'r anialwch. *A'r bwch a ddwg eu holl anwiredd hwynt arno, i dir neillduaeth : am hyny hebrynged efe y bwch i'r anialwch.*\* Yma, ynte, ni a gawn mewn darluniad, yn gyntaf, drosglwyddiad gwirioneddol o bechod ei hun ar Grist ; yn ail, trosglwyddiad o bechodaun pobl briodol, nid amgen meibion Israel ; ac yn drydydd, trosglwyddiad o'u holl anwireddau, eu holl gamweddeu, a'u holl bechodaun neillduol hwynt. Mewn cardarnhad o hyn, mae yn deilwng o sylw, yr arwydda y gair חטאָת, yr hwn, y'nghyfraith Moses, a ddefnyddir am y pech-aberth, yn briodol bechod ei hun ; fel ag yr oedd yr aberth, mewn canlyniad o drosglwyddiad anwiredd cysgodol arno, yn cael ei ystyried yn bentwr o bechod, er engraifft, Lefiticus iv. 21. a manau eraill yn fynych ; lle cyfenwir y bustach yn bech-aberth y gynnulleidfa, ond yr anifail, yn yr Hebraeg, a elwir yn bechod ei hun. “Ac dyged a bustach allan i'r tu allan i'r gwersyll, a llosged ef fel y llosgodd y bustach cyntaf. Dyma bechod y gynnulleidfa.” Hefyd y gair בְּשָׁאָה, yr hwn a gyfieither offrwm dros gamwedd, a arwydda yn briodol euogrwydd ; o achos y dygai yr anifail, yn gysgodol, euogrwydd y trosseddwr, yr hwn a'i dygasai yn offrwm. Lev. v. 6, 7, 18. ac mewn manau eraill yn fynych. “Yr aberthau a'r dyhuddiadau a offrymid dros bechod, medd Calvin, a gyfenwid a'r שְׂמֹרָתָה, gair a arwydda yn briodol bechod ei hun. Trwy yr enwad hwn, bwriadai yr Yspryd arwyddo, mai aberthau machniol oedd ynt, i dderbyn a chynnal y felldith ddyledus i bechod. Ond yr hyn a arddangosid yn gysgodol yn yr aberthau Moesenaidd, a ddangosir allan yn sylweddol yn Nghrist, sylwedd y cysgodau, “Am hyny, mewn trefn i wneuthur dyhuddiant cyflawn, efe a rodde ei enaid בְּשָׁאָה, hyny yw, yn aberth cymmodol dros bechod, fel y dywed y prophwyd ; fel ag y rhaid i'n heuogrwydd ni, a'r gosp ganlyniadol, beidio a bod yn gyfrifedig i ni, gan ei drosglwyddo, megis, arno ef.”†

(2.) Trosglwyddiad o'n pechodaun ni ar Grist a ddatguddir, nid yn unig y'nghyfraith Moses, ond hefyd yn y manau hyny o'r prophwydi a'r Psalmau ag sydd yn tystiolaethu am dano ef. Yn yr Ysgrythyrau hyn, datguddir yn y modd egluraf a mwyaf neillduol, nid yn unig iddo ddwyn ein doluriau, a holl ganlyn.

\*Lef. xvi. 20-22. †Institutes, Book, 2, chap. xvi. v. 6.

iadau ein camweddau ; ond hefyd iddo ddwyn ein pechodau eu hunain yn bennodol ; ac nid yn unig felly, ond mai iddo ef ddwyn ein doluriau yw yr effaith o'i ddygiad ef o'n pechodau. Mr. Fuller a wada yn bendant drosglwyddo, neu y gallesid trosglwyddo ein pechodaui ein hunain ar Grist. Eu heffeithiau, medd ef, a ellid drosglwyddo, ond nid y pechodau eu hunain. "Nid yw ymrwymiad gwirfoddol i ddioddef cospe-digaeth un arall, medd ef, yn euogrwydd, ddim mwy nag y mae y gollyngdod canlynol oddiwrth rwymedigaeth ar y tro-seddwr, yn ddiniweidrwydd. Euogrwydd a diniweidrwydd ydynt drosglwyddadwy yn eu heffeithiau, ond ynddynt eu hunain y maent yn annhrosglwyddadwy." Fel hyn y dysga Mr. Fuller ; yn awr ni a synwn weled beth a ddysga gair Duw. Addefir bod y drydeddar-ddeg a deugain o Esaiah yn broph-wydoliaeth am y Messiah, ei ddioddefiadau mawrion, a'i ogoniant ar ol hyny. Yn y rhan yma o'r gair Dwyfol, arddangosir y Messiah fel person gwaradwyddedig a gwrthodedig, fel gwr gofidus a chynnefin a dolur ; ond fe ddysgir yn y modd mwyaf eglur ei fod felly, nid o'i achos ei hun, ond yn achos ei bobl. Eu camweddau hwy a'i harcholloedd ef, eu hanwiredau hwynt a'i drylliodd ef. Datguddir, yn wir, yn y modd mwyaf neill-duol, drosglwyddo effeithiau eu hanwiredau hwynt arno ef. "Diau efe a gymmerth ein gwendid ni, ac a ddug ein doluriau ;" ond nid llai eglur y sicrheir, drosglwyddo ein pechodau eu hunain arno ef. "Nyni oll a grwydrasom fel defaid; troisom bawb i'w ffordd eihun : a'r Arglwydd a roddes arno ef ein hanwiredd nii gyd." ad. 6. Ni allasai y Messiah ddwyn ein doluriau, oni throsgwyddesid hwy arno ef ; nac ychwaith ddwyn ein pechodau, oni throsglwyddesid hwythau hefyd arno ef. Yn ganlynol fe 'n dysgir, ddwyn o hono ef ein pechodau yn gystal a'u heffeithiau ; "fy ngwas cyfiawn a gyfiawnha lawer trwy ei wybodaeth, canys efe a ddwg eu hanwiredau hwynt." ad. 11. "Am hyny y rhanaf iddo ran gydallawer, am iddo dyw-allt ei enaid i farwolaeth : efe a gyfrifwyd gyda'r troseddwyr : ac efe a ddug bechodau llaweroedd." Yny cyflawniadau arbenig hyn, "ein Harglwydd Iesu a safodd fel Machniydd llawer." "Gofynwyd, ac efe a ddaeth yn atebol ; ac niagorai ei enau."\* Megis ag y trosglwyddir dyledion oddiwrth y dyledwr gwreiddiol ar y meichiau, felly y trosglwyddwyd pechodau llawer-oedd ar y Gwareddwr difrycheulyd, ac efe a'u dug hwynt : ac fel y doluriau meichiau o achos y ddyled sydd drwy drosglydd-

\*Gwel gyfeithiad Lowth o Esa. lili. 7.

iad yn dysod yn eiddo ef ei hun, felly Crist a faeddwyd am gamweddau ei bobl. Oddiyma y mae y cyfenwa efe eu pechodaau hwynt yn eiddo iddo ei hun, megis y gwna yn fynych pan yn llafaru yn y Psalmau. Yn y ddeugeinfed Psalm, y llafarwr, tu hwynt i amheuaeth, yw y Messiah, megis ag y sicrhada yr apostol i ni yn Heb. x. 5. Yn y Psalm hon, efe a gyfenwa y cyfyngder i'r hwn, drwy ei ymrwymiadau cyfammoadol, y dygwyd ef, yn bydew erchyll; ac er y rhagwyddai y canlyniadau, etto, yn ad. 7, efe a fynega ei barodrwydd i gymmeryd corph, ac i gyflawni ewyllys ei Dad yn iachawdwriaeth ei ddewisedigion, yn unol a'r hen ymrwymiadau, ysgrifenedig yn *Rhol y Llyfr*, gan ddywedyd, "Wcle ! yr ydwyf yn dysod. Da genyf wneuthur dy ewyllys, O fy Nuw." Yna, yn ad. 11, a 12, efe a weddia am waredigeth o'i gyfyngderau mawrion, gan ddywedyd, "Tithau, Arglwydd, nac attal dy drugareddau oddiwrthuf: cadwed dy drugaredd a'th wirionedd fi byth. Canys drygau annifeiriol a'm cylchynasant o amgylch; sy mhechodau a'm daliasant, fel na allaf edrych i synu; amlach ydynt na gwallt fy mhen; am hyny y pallodd fy nghalon genyf." Ac a hyn yn gymhwys y cyfatteb yr hanes efengylaidd am ddioddefiadau Crist. "Yr awr hon y cynhyrfwyd fy enaid, a pha beth a ddywedaf? O Dad, gwared fi allan o'r awr hon: eithr o herwydd hyn y daethum i'r awr hon."\* Y gwir achos o'i holl ddioddefiadau oedd hyn, osod o Dduw y Tad ein hanwiredd ni i gyd arno ef; ac os ein hanwiredd, o ganlyniad ei effeithiau. Yn wir, ni allasai Crist ddwyn yr effeithiau o hono pe ni ddygasai efe bechod ei hun, o achos un rhan o gospedi-gaeth pechod yw teimlad o euogrwydd a lligofaint. Am hyny, pan oedd ein pechod ni arno ef, se ballodd ei galon ganddo, ac ni allai edrych i synu, ond gwaeddodd mewn gofid anfeidrol, "Fy Nuw, sy Nuw, pa ham y'm gadewaist?"† Yn y nawfed Psalm a thirugain hefyd, yr hon, mewn amryw fanau o'r Testament Newydd, a gymhwysir at Grist, ni gawn y Messiah yn cyfenwi pechodaui bobl yn eiddo iddo ei hun; yn gymaint a'i fod ef a hwythau yn gwneud i synu un corph. "Achub fi, O Dduw; canys y dyfroedd a ddaethant i mewn hyd at fy enaid. Soddais mewn tom dwfn, lle nad oes sefyllfa; daethum i ddyfnader dyfroedd, a'r ffirwd a lisodd drosos." Ac yn ad. 5, efe a briodola ei ddioddefiau i'w hachos pennigol. "O Dduw, ti a adwaenost fy ynfydrwydd; ac nid yw fy nghamweddau guddiedig rhagot." Pa fodd y gallasai y Gwaredwyr

\*Ioan xii. 27. †Matt. xvii. 40.

disfrycheulyd lafaru am ei bechodau mewn unrhyw ystyr arall na'r un mewn dadl? Pa fodd y gallasant fod yn eiddo ef yn amgen na thrwy drosglwyddiad, megis ag y tros-glwyddir dyledion ar y meichiau? Ond, Felly yr ysgrifennyd, ac felly yr oedd yn rhaid i Grist ddioddef:<sup>\*</sup> ac wedi ei ddyfod ef yn attebol gwirsoddol, "Onid oedd raid i Grist ddioddef y pethau hyn, a myned i mewn i'w ogoniant?"†

(3.) Yr athrawiaeth sawr hon a dystiolaethir yn gyflawn yn yr ysgrifenadau apostolaid. Ymddengys fod gan holl ymadroddion ysgrifenwyr y Testament Newydd, mewn perthynas i'r pwngc hwn, gyfeiriad at yr aberthau seremoniol. Megis ag y cyfenwid yr anifail a offrymid yn aberth, yn bechod, o achos y dygai ef anwiredd yn gysgodol; felly Crist, yr hwn nid adnabu bechod, "a wnaethpwyd yn bechod trosom ni, fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef."<sup>‡</sup> Ie, "efe a wnaethpwyd yn felldith trosom;"§ ac yr oedd efe felly, o achos "ei offrymu ef unwaith i ddwyn pechodau llaweroedd."<sup>||</sup> Nid oedd yr offrwm un waith hwn yn gysgodol, fel yr aberthau dan y gyfraith, ond gwir ddyhuddiad anwiredd; ac nid oedd y cyfrifiad o bechod i'r Iesu o natur cysgodol neu anmhriodol, eithr cyfrifiad cyssyliadol a gwir drosglwyddiad o'n hanwreddau ni arno ef, fel y cynnwysir yn eglur yn y geiriau grymus hyny o eiddo Pedr, "Yr hwn ei hun a ddug ein pechodau ni yn ei gorff ar y pren; fel, gwedi ein marw i bechodau, y byddem byw i gyfiawnder."<sup>¶</sup>

Os oes un athrawiaeth o'r efengyl a'r hon y dymunem fod yn gydnabyddus, athrawiaeth ar yr hon yr ymddibyna ein hiachawdwriaeth a'n diddanwch, yr un hono o drosglwyddiad ein pechodau ar Grist yw hi. Os mynwn adnabod Crist, a chymdeithas ei ddioddefiadau; os mynwn edrych arno ef, yr hwn a wanasom, a galaru; os mynwn farw i bechod, a dwyn ffrwyth i Dduw, rhaid i ni gael dawn yr Yspryd bendigedig i ddatguddio i ni y dirgelwch mawr hwn, ddarfod i'r Tad osod ar Grist ein hanwreddau ni i gyd. Pa ham yr acth y Gwareddwr sanctaidd mewn tristwch i'r bedd? Pa ham y dilynodd cyfiawnder dwyfol ef? Yn unig o achos iddo ddwyn pechodau llaweroedd. O'r ffynon hon y dylifa ffrydiau iachawdwriaeth rad; yr ydym yn marw i bechod, yr y'm yn byw i gyfiawnder, yn unig o achos iddo ef ei hun ddwyn ein pechodau yn ei gorff ei hun ar y pren. O drosglwyddiad dirgeledigaethol! O

\* Luc. xxiv. 46.    † Ibid. ad. 26.    ¶2 Cor. v. 21.    § Gal. iii. 13.    || Heb. ix. 28.  
¶ 1 Pedr ii. 24.

ddirgelwch rhyfeddol! yr hyn ni welodd llygad, ac ni chlwy-odd clust, ac ni ddaeth erioed i galon dyn i'w amgyffred, ond yr hyn, O Dduw, a egluri di i'th etholedigion trwy yr Yspryd!

Ni fydd i mi ond ychwanegu, mewn cadarnhad pellach o'r athrawiaeth sylfaenol hon, y rhesymau canlynol :

*Rheswm 1.* Os nid yw pechod ei hun yn drosglwyddadwy ond yn unig ei effeithiau, yna nid gwir yw i Grist ddwyn ein pechodau. Gallasai ddwyn mewn rhan eu canlyniadau, ond ein pechodau eu hunain ni's gallasai ddwyn, oni throsglwyddwyd arno ef. “Efe a ddwg יְסָבֵל eu hanwiredau hwynt,” medd y prophwyd; canys y gair gwreiddiol a arwydda dwyn, fel y caria cludydd saich. Yr oedd saint yr Hen Testament yn adnabyddus ddigon a'u Duw, fel Duw yn dwyn pechodau, ac ystyrient hyn yn ogont ei gymmeriad. “Pa Dduw sydd fel tydi, קָשָׁא עֲרֵךְ yn dwyn anwired; ac yn myned dros gam-weddau gweddill ei etifeddiaeth?”\* Ond o achos bod yn anmhosibl trosglwyddo euogrwydd ymhlih marwolion, Mr. Fuller a ddadleua bod hyny yn annichonadwy gyda ein Duw ni!

*Rheswm 2.* Os nid yw pechod ei hun yn drosglwyddadwy ni allasai Crist ddwyn holl effeithiau a chanlyniadau ein hanwiredau ni. Y cywilydd a'r boen a ddioddefodd y Gwaredrwr dihalog oddiwrth yr Iuddewon, a'r milwyr Rhufeinig, y groes, yr hoelion, a'r drain, oddynt ran sechan iawn o wobr ein cam-weddau ni. Y rhan benaf o gospedigaeth pechod, sydd gynnwysedig mewn teimlad o euogrwydd, ac o ddigofaint Dwyfol; ond ni's gallasai Immanuel ddioddef un o'r rhai hyn, oni buasai iddo ddwyn ein pechodau eu hunain.

*Rheswm 3.* Os nid yw pechod yn drosglwyddadwy, yna, y mae cyflawnder anfeidrol etto yn cael euogrwydd ar gredin-wyr a saint gogoneddedig, ac a gaiff felly tros byth; yn y cyfrwy amgylchiad, cyflawnder a ofynai ei foddloni etto, ac ar-ddangosid trugaredd ar draul cyflawnder. Ond yn groes i hyn, yr Ysgrythyrau a osodant allan fel gogoniant yr iachawdwriaeth, bod pechod ei hun wedi ei dynnu ymaith y'ngwaed yr Oen. Yn hyn y cynnwysir gogoniant ei gyflawnder ef, nid yn unig bod y felldith wedi ei symmud, ond yr achos o'r fell-dith hefyd; canys, “cyn bellod ag yw y dwyrain oddiwrth y gorllewin, y peliaodd efe ein camweddau oddiwrthym.” Ein

\*Micah vii. 18, yr hyn a gyfeitha y deg-a thrugain yn Εξαρπων ανομίας, Cymharwch Exod. xxxiv. 6, 7, yn yr Hebraeg; grym yr hyn a gollwyd yn y cyfeithiad Saesneg.

pechodaú a drosglwyddwyd ar Grist yn y fath fodd, fel pe ní orchfygasai efe, a'u dinystrio hwynt, hwy a'i dinystriaser ef. Yr oedd ei adgyfodiad yn brawf nad oedd pechod arno mwyach; ac y mae yr apostol yn cadarnhau hyn, trwy ymadrodd nodedig, yn yr Heb. ix. 28, lle, wedi iddo ddysgu ddwyn o Grist bechodau llaweroedd, dyweda, "efe a ymddengys yr ail waith heb bechod." "Sylwch ar hyn yn dda, medd un gwr sanctaidd, fe fu amser pan nad ymddangosodd Crist heb bechod; canys efe a ddygodd bechodau llaweroedd, ond y mae ail amser, pan yr ymddengys, ac yna, efe a fydd heb bechod; fel nad oes gan gredinwyr bechodau arnynt hwy, na chan Grist yr un arno yntau ychwaith."\* O ogoneddus wirionedd, ac yn werth mwy na mynydd o aur!

*Rheswm 4.* Os nid oedd pechodau dynion yn dros-glwyddadwy ar Grist, yna, nid oedd ei dioddefiadau o natur cospedigaethol, ac ni ellid ychwaith boddloni cyfiawnder anfeidrol gyda hwynt. Cyfiawnder a ofyna bod anwiredd yn cael ei gospi, ond nid oedd dioddefiadau Crist yn gospedigaeth oni throsglwyddwyd ein pechodau ni arno ef. Dichon person diniwaid ddioddef, ond ni ellir yn briodol gospi person diniwaid; ac ni all cyfiawnder ganiatau i berson diniwaid, a'i ystyried fel diniwaid, ddioddef yn lle yr euog. Ond cyfiawnder dwyfol a foddlonwyd a dioddefiadau Crist; o achos iddo ddwyn anwiredd yn gystal a'i ganlyniadau, ac, fel hyn, Duw "a gondemniodd bechod yn y cnawd."

"Cospedigaeth, medd un awdwr synwyrol, yw dioddef, o dan gyhuddiad o drosedd, ac heb gyfrifiad cyfiawn o euog-rwydd, ni ellir, yn ol uniondeb, osod cospedigaeth ar unrhyw ddeiliad. Anghyfiawnder o'r mwyaf yw cospi neb a ystyrir fel yn ddiniwaid; ac am hyny, os oedd yn anmhosibl gyda Duw gyfrif pechod i'r diniwaid Iesu, ni allasai ychwaith osod cospedigaeth arno ef; ac os ni ddioddefodd Crist gospedigaeth priodol, nid oedd ei dioddefiadau, ac ni allent fod, yn fodlonawl i'r gyfraith a chyfiawnder Duw dros ein pechodau, ac yn ofer y gobeithir am iachawdwriaeth trwy ei farwolaeth a'i ddioddefiadau ef."†

Pa mor alarus yw cael fod unrhyw gyfeillion proffesedig o Grist yn gwrthwnebu yr egwyddor sylfaenol hon o'r efengyl!

**YN DRYDYDD.** Mewn cyssylltiad agos a'r pethau blaenorol y mae yr athrawiaeth o gyfiawnhad; yr hon erthygl fawr,

\*Dr. Crisp—Christ alone exalted, vol. i. p. 428.  
†Brine's Sermon on 2 Cor. v. 21.

er yr ymddengys ei chydnabod yn unfryd gan yr holl eglwysi diwygiedig, a osodir o'r neilldu yn hollol gan Mr. Fuller. Cyfawnhad sydd air barnol, ac a arwydda ollyngdod oddiwrth euogrwydd ; saif yn wrthwynebol, nid i gospedigaeth, ond i haeddiant cospedigaeth. Pan osodir cynghaws ar ddyn, cy-huddiedig o unrhyw drosedd, yn ol cyfreithiau ei wlad, naill ai profir y trosedd yn ei erbyn, neu ni phrofir mono. Os profir, yna, cyhoeddref yn euog ; ond os ni phrofir, cyhoeddref yn ddieuog, neu mewn geiriau eraill, efe a gyfawnheir oddiwrth y cyhuddiad. Ond os euog o drosedd mewn gwirionedd a fydd y dyn, gellir maddeu iddo, ond ni ellir ei gyfawnhau. Maddeuant yw gollyngdod yn unig oddiwrth gospedigaeth, ond cyfawnhad, yw rhyddhad oddiwrth haeddiant cospedigaeth. Os estynir trugaredd i'r troseddwr, efe a faddeuir, ond ni ddi-chon un gallu creadigol ei gyfawnhau ef. Ond yr hyn sydd anmhosibl gyda dynion a gyflawnir gan ein Duw ni. Rhy-feddwch, chwi nefoedd ! a synna ditha, ddaear ; Jehofah, nid yn unig sydd yn maddeu, ond yn cyfawnhau yr annuwiol ! Efe, nid yn unig a dynn ymaith eu cospedigaeth, ond a sym-muda eu pechodau hesyd ; fel ag y mae nefoedd, daear, ac uffern yn cael eu herrio i ddwyn un bai yn erbyn gwaredigion yr Arglwydd, os gallant. "Pwy a rydd ddim yn erbyn etholedigion Duw ? Duw yw yr hwn sydd yn cyfawhau. Pwy yw yr hwn sydd yn damnio ? Crist yw yr hwn a fu farw."\* Yn awr, bod yr athrawiaeth hon yn cael ei thaflu o'r neilldu yn llwyr gan egwyddorion Mr. Fuller, ni all braidd un person amheu, yr hwn a ddarllena ac a ddealla y difyniadau canlynol. "Dyledion ydynt drosglwyddadwy, ond camweddau nid ydynt. Gall trydydd person ddileu y naill, eithr ni all ond diddymu effeithiau y llall ; mae drwg-haediant y troseddwr yn aros."† A thrachefn, "nid yw pechod na chyflawnader, ynddynt eu hunain, yn drosglwyddadwy."‡ A thrachefn, "Bod yr Ysgrythyrau yn gosod allan gredinwyr fel yn derbyn y lleshad, neu yr effeithiau yn unig o gyflawnader Crist mewn cyfawnhad, sydd sylw na allaf fi weled y twyll o hono ; ac nid yw yn canlyn ychwaith na chyfrifir ei ufudd-dod af ei hun iddynt hwy. Ufudd-dod ei hun a ellir, ac a gyfrifir, tra na chysfrenir, ac o ganlyniad, na dderbynir ond ei effeithiau yn unig."§ Os hyn mewn gwirionedd yw'r peth, yna nid oes y fath beth a chyflawnhad pechadur, heblaw yn yr ystyr ag y caniata y Pabyddion eu hunain, yr hyn, yn wir, nid yw gy-

\*Rhuf. viii. 38.

†Dialogues, &amp;c. page 220.

‡Ibid. 213.

§Ibid. 211.

fiauñhad, eithr maddeuant yn unig.\* Ac er y defnyddia Mr. Fuller y gair cyfiauñhad, am y ceir ef yn yr Ysgrythur, eto, mae yn anilwg na feddylia efe ddim chwaneg wrtho na rhyddhad oddiwrth gospedigaeth, neu ymddwyn tuag at y pechadur megis pe buasai gyfiauñ.† Efe a wada yn bendant dros-glywyddo, neu y gellir trosglwyddo pechad ei hun oddiar y pechadur, neu symmud haeddiant cospedigaeth, neu gyfranu cyfiauñder Crist; yr hon athrawiaeth, os gwir yr Ysgrythyrau, a brofaf ei bod yn anwireddus hollol.

Ystyr meddylddrychol y gair **הַצְדִּיק**, cyfiauñhau, a fynegir trwy uniondeb mewn pwysau a mesurau: mae 'n ddeilliedig o dafol cywir, pwysau cyfiauñ, chlorianau union. “Na wnewch gam ar farn, ar lathen, ar bwys, nac ar sesur. Bydded i chwi **מְאֹזֵנִי צֶדֶק**, glorianau cyfiauñ, epha gyfiauñ, a hin gyfiauñ.”‡ Dyn cyfiauñ, neu uniawn, gan hyny, yw yr hwn, wedi ei bwys yn y clorianau, ni chaed yn brin; un ag y mae ei ufudd-dod yn cyfattēb i'r ddeddf sanctaidd. “A mi a oso-daf farn wrth linyn, a chyfiauñder wrth bwys. Ond yr ufudd-dod hwnw, yr hwn sydd mewn unrhyw ffordd yn ysgafnach neu sylwrach na chyfraith sanctaidd Duw, nid yw gyfiauñder; canys “cyfiauñder a barn yw trigfa ei orseddfaingc.”|| Pan ddywedir, gan hyny, fod Jehofah yn cyfiauñhau dyn, efe a wna fwy na maddeu iddo; ac fel y mae ei farn ef bob amser yn ol gwirionedd, nid yw efe byth yn collfarnu y diniwaid, nac yn ymddwyn at neb megis pe byddent gyfiauñ, y rhai nid ydynt yn wirioneddol felly.

Nid oes dim yn fwy cyffredin y'mhlith dynion na maddeu tramgyddiadau, ond cyfiauñhad y troseddwr, yn gyson a gwirionedd, sydd annichonadwy gyda hwy. Yr hyn oll a ddi-chon gallu creadigol wneuthur yn gyfiauñ, yw cyfiauñhau y diniwaid, a chollfarnu yr euog. Ond gogoniant cymmeriad y Jehofah yw, ei fod yn Dduw cyfiauñ ac yn cyfiauñhau y neb sydd o ffydd Iesu. Yn y gwaith goruchel hwn, efe a ddiddyma holl ddoethineb ac ymddadl y byd hwn.§ Yn y pen-gorchwyl yma o'i ddoethineb ac o'i allu, efe a gyflawna yr hyn gyda dynion sydd anmhosibl, sef trosglwyddiad o bechad a chyfiauñder, ac fel hyn a ddilea, nid effeithiau pechad yn unig, ond pechad ei hun. Ac mewn attebiad i holl wrth-ddadleuon dynion cnawdol, mewn perthynas i anmosibilrwydd y gwaith mawr hwn, y mae yn ysgrifenedig, “Am hyny wele

\*Pabyddion a ddysgant y cynnwysir cyfiauñhad mewn maddeuant pechad, a'r ymarferiad o gyfiauñder tumewnlol. †Memoirs, 412. ‡Lef. xix. 35, 36. ||Psalm lxxxix. 14. §Esa. xxviii. 21.

Si yn myned rhagof i wneuthur yn rhyfedd ym mysg y bobl hyn, sef gwyrthiau a rhyfeddod : canys difethir doethineb eu doethion hwynt, a deall eu rhai dealgar hwynt a ymguddia." Y gwaith rhyfeddol hwn, os ydym i gredu apostol ysbrydoledig,\* a gynnwysir, nid yn nistrywiad doethineb y doethion, ond yn y gwaith mawr hwnnw trwy yr hwn y dygir y'mlaen yr effaith yma. Nid gorchestwaith mawr gyda Duw yw distrywio doethineb y byd hwn, ond achub a chyflawnhau yr annuwiol trwy werthfawr waed y groes sydd waith rhyfeddol yn wir. Dyma waith rhyfeddol Duw; dyma ryfeddod Duw; trwy yr hwn "y dinystria efe ddoethineb y doethion, ac y dilea ddeall y rhai deallus."

Os mywrandaawn a'r hyn a ddywed yr Ysgrythur mewn perthynas i fendith fawr y cyflawnhad, ni a gawn fod y gair yn cael ei ddefnyddio yn ei ystyr caeth a phriodol, ac mewn ystyr helaethach. Hyn a rodd achlysur i lawer o ysgrifennwyr Protestanaidd ddysgu bod cyflawnhad yn gynnwysedig o ddwy ran, sef maddeuant pechodau a chyfrifiad o ufudd-dod perffaith Crist.† Cyflawnhad, yn ei ystyr caeth a gwreiddiol, yw y weithred hono o ras helaethlawn Duw, trwy yr hon y cymmer efe ymaith euogrwydd ei etholedigion, a'u cysfansoddi hwynt yn ddifai ac yn ddifrycheulyd yn ngolwg cyflawnder anfeidrol trwy farwolaeth ac adgyfodiad Crist. Yn yr ystyr yma y dywedir gyflawnhau credinwyr oddiwrth bechod, a'u "cyflawnhau oddiwrth yr holl bethau." Yn yr ystyr hwn y defnyddir y gair yn y floedd fuddugoliaethus hono o eiddo'r Apostol, "Pwy a rydd ddim yn erbyn etholedigion Duw? Duw yw yr hwn sydd yn cyflawnhau :" fel ag mai dyn cyflawnedig yw un, yn erbyn yr hwn ni ellir yn gyflawn ddwyn un cyhuddiad; ac yn y golygiad yma, cyflawnhad a briodolir i waed Iesu. Ond fel ag nad oedd ymostyngiad, dioddefiadau, a marwolaeth Crist yn iawn tros anwiredd yn unig, ond hefyd yn weithred o ufudd-dod arbenig i gyfraith Duw; felly ein cyflawnder ninau sydd gynnwysedig, nid yn unig mewn gwaredigael oddiwrth euogrwydd, fel yn Psalm ii. 14. a Rhuf. iv. 6, 7, 8, ond hefyd yn ein bod wedi ein cyflawni yn ufudd-dod perffaith Iesu Grist. "Oblegid megis trwy anusudd-dod un dyn y gwnaeth-pwyd llawer yn bechaduriaid; felly trwy ufudd-dod un y gwneir llawer yn gyflawn."

Wedi cynnyg fel hyn eglurhad o'r geiriau, af rhagof yn awr i brofi bod athrawiaeth Mr. Fuller, megis y darlunir uchod

\* 1 Cor. i. 18, 19, wedi ei gymharu ag Esa. xxix. 14. †Felly Witsius, Econ. of the Cov. Book 3. viii. 43.

yn ei eiriau ei hun, yn hollol gyfeiliornus, gan fod yn uniongyrchol wrthwynebol i air Duw.

1. Dysga yr Ysgrythur mor eglur ag y dichon amlygu, bod Duw yn nghyflawnhad ei bobl, nid yn unig yn dileu *effeithiau* eu pechodau, trwy waed y groes, ond *pechod ei hun*; nid yn unig y mae efe yn eu rhyddhau oddiwrth *ganlyniadau* eu camweddau, ond efe a gymmer ymaith *euogrwydd* eu camweddau hefyd.

Profwyd drosglwyddo anwired ei bobl ar Grist, a'u dodi arno ef, fel ag y canlyna yn naturiol, nad oes anwired i'w gael mwyach ar gredinwyr, gan ei drosglwyddo oll ar Iesu. Yn yr ystyr yma yn unig y mae "na wel Duw anwired yn Jacob, na thrawsedd yn Israel."\*

Tuag at osod allan y gwirionedd pwysig hwn, gwelwyd yn dda gan yr Yspryd Glan ddefnyddio llawer ymadroddion a chyffelybiaethau cryfion, o'r hyn y rhai canlynol ydynt engreifftiau.

(1.) Dywedir, mewn cyfeiriad at eu cyflawnhad, wneuthur credinwyr yn rhydd oddiwrth bechod. Rhuf. vi. 7. Y rhan benaf o erfyniad Dafydd yn Psalm li. a berthyn i'r fendith hon. Nid ymddengys ef mor awyddus i'w waredu oddiwrth gospedigaeth ei bechod, ag oddiwrth yr euogrwydd o hono. Ond pe credasai nad oedd euogrwydd yn drosglyddadwy, ni weddiasai byth am waredigaeth oddiwrtho. Efe, yn wir, a llofruddiasai Urias yr Hethiad, ac euogrwydd y weithred hon a flinodd ei enaid. Ond megis ag y datganasaï yr Arglwydd, trwy Nathan y prophwyd, i'r Jehofah "dynnu ymaith ei bechod," cefnogwyd ef i weddio, yn ad. 14, "Gwared fi oddiwrth waed, O Dduw, Duw fy iachawdwriaeth: a'm tafod a gan yn llafar am dy dyfiawnder." Yn yr erfyniad hwn, Dafydd a fynega ei argyhoeddiad y gallai cyflawndor Duw gymmeryd ymaith ei euogrwydd; ac er y llychwinasid ei enaid a llofruddiaeth ysgeler dyn diniwaid, etto efe a wyddai y gallai Duw, ei Iachawdwr, ei olchi yn lan, a gwneuthur ei enaid halogedig yn wynach na'r eira, ad. 7. A hyn y cyttuna iaith yr Apostol, pan yn darlunio gwynfydedigrwydd credinwyr, efe a ddyweda, y "pura gwaed Crist eu cydwybodau oddiwrth weithredoedd meirwon," ac yn ganlynol nid oes ganddynt "gydwybod pechod mwy," ond ydynt wedi eu perfleithio dros byth, yngolwg y gyfraith.† Y rhyddhad cyfreithiol hwn oddiwrth bechod, a gadarnheir ac a eglurir yn helaeth gan Paul, yn ei epistol at y Rhuseiniaid, pennod vi. Efe a ddechreua trwy wrthdaro y

\*Num. xxiii. 21. †Heb. ix. 14, and x. 2, 4.

cyhuddiad o benrhydd-did a ddygasid yn erbyn athrawiaeth gras, a thrwy sefydlu tueddrwydd sanctaidd y gwirionedd neillduol hwn. "A ninau wedi marw i bechod, pa wedd y byddwn byw etto ynddo ef? Efe a eglura y pwnc y'mhellach, trwy yr ordinhad sanctaidd o Fedydd, ac undeb y credadyn a Christ, yn ei farwolaeth a'i adgyfodiad; yr hwn, fel machniydd llaweroedd, ryddhawyd oddiwrth eu pechodau yn ei farwolaeth." "Canys y mae yr hwn a fu farw, wedi ei ryddhau oddiwrth bechod," neu yn hytrach (fel y cyfieithir y gair δεδικαιωται yn gywir ar ymyl y ddalen,) a gyflawnhawyd oddiwrth bechod. Yna, a rhagddo i brofi bod y credadyn yn farw gyda Christ, ac wedi ei gyflawnhau gydag ef; ac wedi dangos mai y bendigedigrwydd hwn, mor bell o arwain i benrhydd-did, yw ffynonell pob gwir sancteiddrwydd, efe a benderfyna fel hyn, "Ac yr awr hon, wedi eich rhyddhau oddiwrth bechod, a'ch gwneuthur yn weision i Dduw, y mae i chwi eich ffrwyth yn sancteiddrwydd, a'r diwedd yn fywyd tragicwyddol."

(2.) Nid gollyngdod o'r gosp yn unig a dderbynia credinwyr, ond tynniad ymaith eu pechodau hefyd. Y fendith hon, y llasfir mor synych am dani yn yr Ysgrythur, a gynnwysa faddeuant, ond cynnwysa fwy na maddeuant yn unig. Mae'n arwyddo fod pechod wedi ei dynnu ymaith; 2 Sam. xii. 13. Heb. ix. 26. Yn ganlynol, hwynthwy, y rhai y tynnwyd eu pechodau ymaith, ni safant mewn eisiau o iawn mwyach; canys, "lle y mae maddeuant am (tynniad ymaith o) y rhai hyn, nid oes mwyach offrwm dros bechod."\* Megis y mae Dafydd hefyd yn datgan dedwyddwch y dyn y mae Duw yn cyfrif cyflawnnder iddo, gan ddywedyd, "Dedwydd yw y rhai αρσθησαν y tynnwyd ymaith eu hanwireddau, † a'r rhai y cuddiwyd eu pechodau; dedwyddyw y gwr nid yw yr Arglwydd yn cyfrif pechod iddo." Ac ysgrifenwyd drachefn, "Y derbyn pawb a gredo ynddo ef faddeuant (yn ol y Groeg, megis uchod, dynniad ymaith o'u) pechodau. ‡ A thrachefn, "Hwn yw fy ngwaed o'r testament newydd, yr hwn a dywelltir dros lawer, er maddeuant (er tynniad ymaith) pechodau."§

(3.) Y mae pechodau 'r credinwyr wedi eu dileu. Dileu, yw dadlythyru; dyweda Mr. Fuller, pa fodd bynag, mai effeithiau pechod yn unig a ellir ei ddadlythyru; efe a wada y dilewyd, neu y gellir dileu pechod ei hun. Ond beth a ddywed yr Ysgrythur? "Dileais dy gamweddau fel cymwl, a'th

\* Heb. x. 18. †Felly yn arwedd y gair Græg yn Rhuf. iv. &c hefyd yn Psalm xxii. 1. yn Hebraeg. ‡Act. x. 43. ¶ Matt. xxvi. 28.

bechodau fel niwl: dychwel attaf fi; canys myfi a'th waredaïs di." Ac, o achos bod hyn yn anmhosibl gyda dynion, ac yn briodol i'r Jehofah ei hun, ychwanegir, "Cenwch, nesoedd; canys yr Arglwydd a wnaeth hyn; bloeddiwch gwaelodion y ddaear; canys gwareddodd yr Arglwydd Jacob, ac yn Is-Israel yr ymogonedda efe."\* Yn gydweddol a hyn y gweddi-odd y Psalmwydd, "Cuddia dy wyneb oddiwrth fy mhechodaü, a dilea fy holl anwiredbau."† Ac ysgrifenwyd drachefn, "Edifarhewch gan hyny, a dychwelwch, fel y dilêer eich pechodaü."‡ Ni all un gyffelybiaeth osod allan ddilead llwyr o holl bechodau ac anwiredbau pobl Dduw yn fwy nerthol na hon. Megis ag y dileir dyled, yr hon a dalesid, allan o lyfrau y gofynwr, neu fel y gwasgara yr haul y cwmmwl tew yn dragwyddol, yr hwn yn y bore, a ymddengys yn yr awyr Ddwyreiniol, felly Jehofah a ddilea bechodau ei ddewisidigion, pan y cyflawnha efe hwynt trwy ei ras. "Myfi, myfi yw yr hwn a ddilea dy gamweddau, er fy mwyn fy hun, ac ni chofiasf dy bechodau. Dwg ar gof i mi, cyd-ymddadleuwn; adrodd di fel y'th gyflawnhaer."

(4.) Pechodau pobl yr Arglwydd a ddywedir eu symmud, neu eu tynnu ymaith oddiwrthynt, a hyny mewn cyfeiriad at yr euogrwydd o honynt. Dysgir hyn, fel pob bendith efengyl-airod arall, yn neddf Moses. Gorchymwynwyd i Aaron ddodi ei ddwylaw ar ben y bwch diangol, i gyffesu arno ef holl anwiredbau meibion Israel, gan eu gosod hwynt ar ben y bwch; a gorchymwynwyd iddo hebrwng y cwbl ymaith yn llaw gwr cymhwys, i'r anialwch. Yna, chwanegir, "A'r bwch a ddwg eu holl anwiredd hwynt arno, i dir neillduaeth; am hyny hebrynged efe y bwch i'r anialwch."§ Yr oedd hyn yn gysgod bywiog o "Oen Duw, yr hwn sydd yn tynnu ymaith bechodau y byd."|| Nid tynnu ymaith gospedigaeth pechod yn unig a wna efe, ond pechod ei hun: canys, "Cyn belled ag yw y dwyraint oddiwrth y gorllewin, y pellhaodd efe ein camweddau oddi wrthym."¶ Ac yn ddiamheu, mai mewn cyfeiriad at y Messiah, y Blaguryn, ac at ei farwolaeth, fel machniydd yr euog, y dywedodd y prophwyd, "A mi a symmudaf ymaith anwiredd y tir hwnnw mewn un diwrnod,"\* canys ni a wyddom, "ymddangos o hono ef, fel y dilea ein pechodau ni."† Pa fodd, ynte, y dichon un dyn ag sydd yn credu yr Ysgrythyr-au ddywedyd, "nad yw pechod a chyflawnader, ynddynt eu hunain, yn drosglwyddadwy?"

\*Esa. xliv. 22, 23. †Psalm li. 9. ‡Act. iii. 19. ¶Lef. xvi. 22. ||Ioan i. 29.  
||Psalm cii. 12. \*Zec iii. 9. †1 Ioan iii. 5.

(5.) Y mae effeithioldeb gwaed Crist y cyfryw, ag i ddifodi yr anwiredau a ddygodd efe, yr hyn a gynnwysa ddinistr pechod, yn ei euogrwydd, ei allu, a'i ganlyniadau ofnadwy. O hyn y mae iaith oruchel y prophwyd, pan yn rhagfynegi y torrid y Messiah ymaith, yn datgan, y byddai iddo " ddibennu camwedd, a selio pechodau,—a dwyn cyfiawnder tragywyddol i mewn ;" Dan. ix. 24. yr hyn a eglurir gan yr apostol fel hyn, " wedi puro ein pechodau ni trwyddo ef ei hun, a eisteddodd ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwchle oedd ;" neu mewn iaith debycach etto i hono o eiddo y prophwyd, " eithr yr awr hon, unwaith yn niwedd y byd, yr ymddangosodd efe, i ddileu pechod trwy ei aberthu ei hun."

Er croeshoclio y Messiah o wendid, etto darlunir ei farwolaeth bob anser megis buddugoliaeth orfoeddus ar ein pechodau, y rhai oedd ynt ei brif elynion. Pa sawl gwaith y dywedir y deuai cfo a dialedd, &c. Yn Esa. lxiii. ymddengys yn dychwelyd o diriogaeth y gelyn, mewn gwisgoedd wedi eu lliwo y'ngwaed ei elynion, yn datgan ar yr un pryd ei gyfiawnder a'i alluogrwydd i achub, wedi maeddu ein pechodau, a gorchfygu y hyd. Yn Micah vii. 19, buddugoliaethau y Messiah a adroddir mewn ymadroddion cyfeiriedig at ddinistr Pharaoh a'r llu Aiphtaidd yn y Mor Coch. " Efe a ddarostwng ein hanwiredau ; a thi a defli eu holl bechodau i ddyfn-deroedd y mor." Canys megis ag y distrywiwyd Pharaoh a'i lu yn y dyfnder, felly y rhag-fynegir y byddai i'r Messiah orchfygu ein pechodau, a'u difodi dros byth. Mewn crediniaeth o Iachawdwr buddugoliaethol, y llafarodd Zachariah sanct- aidd, gan ddywedyd, " Ar roddi i ni, gwedi ein rhyddhau o law ein gelynion, ei wasanaethu ef yn ddiofn, mewn sanct-eiddrwydd," &c. Ac yn y mwynhad o'r iachawdwriaeth fawr hon, y llefa yr Apostol allan, " Ac yr awr hon, wedi eich rhyddhau oddiwrth bechod, (hyny yw, oddiwrth euogrwydd, fel yn adnod 7.) a'ch gwneuthur yn weision i Dduw, y mae i chwi eich ffrwyth yn sancteiddrwydd, a'r diwedd yn fywyd tragywyddol."

Os yw credinwyr, ynte, wedi eu rhyddhau oddiwrth bechod ; os tynnwyd ymaith eu pechodau ; os dilewyd hwynt ; os symmudwyd hwynt oddiwrthynt hwy ; os dibenwyd hwynt ; os dadlythyrwyd hwynt ; os hebryngwyd hwynt ymaith ; mewn gair, os yw credinwyr wedi eu cyfiawnhau yn y fath fodd, fel na all na nesoedd, daear, nac ussefyn osod yn gyfiawn ddim yn eu herbyn—yna, y mae yr athrawiaeth hono yn gyfeiliornus, yr

hon a haera nad yw pechadur a chyflawnader yn drosglwyddadwy, ond yn unig yn eu heffeithiau.

2. Yr Ysgrythyrau a ddysgant yn eglur y *trosglwyddir* cyflawnader yr Arglwydd Grist i gredinwyr, yn cael ei *gyfranu* iddynt, a'i *dderbyn* ganddynt hwy. Hyn yn wir a ddatgenir mor eglur a diamheul yn y gair dwyfol, fel ag y mae yn syndod y ceir fod unrhyw Protestant yn ei wadu. Llawer o fawrygwyr Mr. Fuller a wrthodent gredu oddiar unrhyw dystiolaeth arall heblaw eu synwyrau eu hanain, yr haerai gwr mor ragorol a Mr. Fuller "nad yw cyflawnader ynddo ei hun yn drosglwyddadwy, ond yn unig yn ei effeithiau;" na dderbynia credinwyr, yn eu cyflawnhad, "ond yn unig y lleshad neu effeithiau cyflawnader Crist, ac mai hyn yn unig a gyfrenir, ac o ganlyniad, a dderbynir." Efe, yn wir, a addefodd bod ufudd-dod Crist yn gyfrifedig, ond ni a ddysgasom o'r blaen beth a ddealla ef wrth gyfrifiad o cyflawnader; ni feddylia ef ddim amgen wrtho, "na throsglwyddiad o'i effeithiau," neu ymddwyn tuag at y pechadur megis pe buasai gyflawn."\* Ond och! pa lygredigaeth o'r efengyl yw hyn! Pa engraift galanus o drin gair Duw yn dwyllodrus! Pa mor eglur y datgan yr Ysgrythur, "bod cyflawnader Duw i bawb ac ar bawb a gredant."† Yn hyn ni all fod yn wirionedd mewn unrhyw ystyr, onid yw y cyflawnader hwn yn drosglwyddedig iddynt hwy. Gyda pha fath ber-lewyg y mynega yr eglwys waredigol ei ffydd fuddugoliaethus yn y gwirioned goruchel hwn, pan floeddia hi allan, "Gan lawenychu y llawenychaf yn yr Arglwydd, fy enaid a orfoledda yn fy Nuw: canys gwisgoedd fi a gwisgoedd iachawdwriaeth, gwisgoedd fi a mantell cyflawnader." Yn yr Ysgrythur hon yr eglwys a amlyga sylfaen ei gorfoledd, yr hyn nid yw fod yr effeithiau a'r lleshad yn unig, ond cyflawnader Crist ei hun, wedi ei drosglwyddo a'i gyfranu iddi, mor wirioneddol ag y trosglwyddwyd y wisg oreu i'r mab afradlon, a'i derbyn ganddo ef. "A chaniattawyd iddi gael ei gwisgo a lliain main glan a disglaer."

Mor bell oddiwrth fod yn wirionedd yw bod Duw, yn nghyflawnhad pechadur, yn ymddwyn tuag atto "megis pe buasai gyflawn," a bod yr Ysgrythur yn datgan, mewn cynnifer o eiriau, y cyfansodda, neu iddo ef ei wneuthur ef yn gyflawn. A haeru na dderbynia credinwyr ond yn unig yr effeithiau neu leshad cyflawnader Crist, nid yw ddim lhai na gwrthddywediad geiriol o air Duw. Yr apostol, mewn traethawd

\*Memoirs, page 418. †Rhuf. iii. 22.

ysprydoledig ar gyfiawnhad, yn Rhuf. v. a eglura y pwnc yn helaeth. Efe a ddwg i mewn yr Adda cyntaf fel cyffelybiaeth neu gysgod o'r hwn oedd i ddyfod. Efe a gyferbynia drosedd y dyn cyntaf a'i helaethrwydd, a'r dawn cyfiawnder trwy yr ail Adda, a'i helaethrwydd yntau. Efe a ddatgan, fel mai yn un camwedd Adda, y mae ei holl hiliogaeth ef yn euog; felly yn un cyfiawnder Crist bod holl had y Messiah wedi eu cyfiawnhau. Ac er bod y camwedd wedi amlhau yn nheyrnasiad ofnadwy marwolaeth, etto rhad ras Duw yn nawn cyfiawnder a ragor-amlaodd, i fywyd tragicwyddol. Yma ni a ganfyddwn y cysenwir cyfiawnder Crist y dawn. a dawn trwy ras, a dawn cyfiawnder; ni a ddysgw yn hefyd iddo amlhau i laweroedd, bod y llaweroedd yn ei dderbyn, ac y daeth arnynt hwy. Yr ymadroddion hyn, os arwyddocant unrhyw beth, a arwyddocant bod cygawnder Crist wedi ei drosglwyddo er cyfiawnhad, a bod usudd-dod Crist wedi ei gyfranu i'r credadyn, ac wedi ei dderbyn ganddo ef, megis ag y cyfrenir gwisg gan y rhodwr, ac y derbynir hi gan yr hwn a'i gwisga. "Felly, gan hyny, megis trwy gamwedd un y daeth barn (hyny yw, y camwedd) ar bob dyn i gondemniad; felly hefyd trwy gyfiawnder un y daeth y dawn (hyny yw, cyfiawnder) ar bob dyn i gyfiawnhad bywyd. Oblegid megis trwy anufudd-dod un dyn y gwnaethpwyd, κατεσταθμον, neu y cyfansoddwyd llawer yn bechaduriaid; felly trwy usudd-dod un y gwneir, κατασταθμονται, y cyfansoddir llawer yn gyfiawn," Yn ol yr Ysgrythur, gan hyny, Duw yn gyntaf a gysansodda ei bobl yn gyfiawn, ac yna, a ymddyga tuag attynt fel y cyfryw; efe yn gyntaf a drosglwydda iddynt hwy gyfiawnder Crist, ac yna, yr effeithiau, o angenrheidrwydd, a ganlyna.

3. Yr Ysgrythyrau a lafarant yn helaeth am gyflwr gogoneiddus y credinwyr, hyd yn oed yn y fuchedd hon, yn cael eu hystyried fel personau cyfiawnedig yn Nghrist, yr hyn ni wnelement pe ni dderbyniasai credinwyr ond effeithiau cyfiawnder Crist yn unig. Llafarir am danynt yn fynych fel personau a feddiannant gyfiawnder, ac un perffaith; a'r cyfiawnder hwn yw yr achos o'u cyflwr gogoneiddus a'u cymmeriad goruchel. "Ni lwydda un offeryn a lunier i'th erbyn; a thi a wnei yn euog bob tafod a gyfodo i'th erbyn mewn barn. Dyma etifeddiaeth gweision yr Arglwydd, a'u cyfiawnder hwy sydd oddi wrthysf fi, medd yr Arglwydd." Mewn cyfeiriad at ei hundeb a'i Harglwydd Crist, a'i chyfranogiad o'i gyfiawnder gogoneiddus ef, y dywedir am Seion, "Cyfod, llewyrcha; canys

daeth dy oleuni, a chyfododd gogoniant yr *Arglwydd* arnat. Y gair **¶¶¶**, a berthyna i gyfodiad yr haul, ac oddi yma y dywedir yn y Datguddiad, bod yr eglwys “wedi ei gwisgo a'r haul,” i ddangos ei hundeb a'r *Arglwydd* ein cyflawnhader, a'i chyflawnhad ynddo ef; “canys arnat ti y cyfyd **¶¶¶** yr *Arglwydd*, a'i ogoniant a welir arnat.”

Y darluniad goruchel, yr hwn a ddyry Duw o'r credinwyr, sydd braidd yn fyr o gabledd y'ngolwg dyn anianol. Y'nghanol eu holl bechodau a'u gofidiau, ac amheuon ac ofnau, a gwendidau, a llithriadau, perffaith ydynt y'ngolwg y gyfraith; y maent yn lan; gwynach ydynt na'r eira. Crist a'u cyfenwa hwynt ei anwylyd, ei golomen, ei ddihalog, ac a ddyweda, “Ti oll ydwyt deg, fy anwylyd; nid oes ynot frycheuyn.” Hyd yn oed yn y bywyd hwn y mae ganddynt gyflawnhader ynddo ef, fel ag i ymddangos yn llys Duw heb frycheuyn. Efe a'u carodd hwynt, ac a'u golchodd hwynt oddiwrth eu pechodau yn ei waed ei hun, ac am hyny y cyfenwa efe hwynt ei “ddihalog.” Oddiyma y dyrchafwyd hwynt i fod yn offeiriad ac yn frenhinoedd, trwy waed yr Oen; ac a gathrant ar bechod, ac angau, a'r byd, a melldith y ddeddf; megis yr ysgrifennwyd, “yn dy gyflawnhader yr ymddyrrchafant.”

4. Yr Ysgrythyrau a arddangosant y credinwyr fel yn feddiannol ar *hawl* i fywyd tragediwyddol mewn canlyniad o'u cyflawnhad yn -nghyflawnhader Crist. Yn awr, ni allai hyn fod y peth, pe ni chyfansoddid hwynt yn gyflawn. Pe ymddygasai Duw tuag attynt yn unig megis pe buasent gyflawn, ni allasant feddiannu hawl-fraint i fywyd, ac ni allesid ei arddelwi ar sail cyflawnhader. Ioan xvii. 24. Etto ni a gawn fod yr *Arglwydd* Iesu yn arddelwi bywyd tragediwyddol i'w bobl, nid yn unig ar y sail o addewid ei Dad, ond ar y sail o'i gyflawnhader ei hun. Yn wir, dyma yw sylfaen ei holl eiriolaeth drostynt hwy. Rhuf. viii. 34. Efe a ymddengys yn y sanctaidd sancteiddiolaf, megis oen newydd ladd, a phob deisyfiad sylfaenedig ar ei gyflawnhader ef sydd anwrthwynebol. Y gallu a roddeis y Tad iddo ef, i roddi bywyd tragediwyddol i'w ddewisedigion, nid yw ddim amgen na gwobr ei gyflawnhader ef. “Mi a'th ogoneddais di ar y ddaear; mi a gwblheais y gwaith a roddais i mi i'w wneuthur.” Ac fel y mae ef, yr hwn sydd yn sancteiddio, a'r rhai a sancteiddir, ill dau yn un y'ngolwg y ddeddf, y mae ei hawl ef i fywyd tragediwyddol yn dyfod yn hawl iddynt hwythau hefyd. Yn ganlynol efe a ddefnyddia yr iath hyder, pan yn gofyn eu hiachawdwriaeth; “Y Tad, y rhai a roddais i mi, yr

wyf yn ewyllsio, lle yr wyf fi, fod o honyt hwythau hefyd gyd a myfi; fel y gwelont fy ngogoniant."

Un diben gan yr apostol, yn ei draethiad ar y pwnc hwn yn Rhuf. v. yw dangos, fel ag mai marwolaeth yw cyflog cam-wedd Adda, felly hefyd mai bywyd yw gwobrwy cyfiaunder Crist. Efe a briodola hyd yn oed fwy o effeithioldeb i'r olaf nag i'r cyntaf, ac a ddadleua, os teyrnasa marwolaeth arnynt hwy oll, i'r rhai y cyfrifir y camwedd, mai mwy o lawer y bydd i fywyd gydfyned a chyfrifiad o gyfiaunder. "Canys os trwy gamwedd un y teyrnasodd marwolaeth trwy un; mwy o lawer y caiff y rhai sydd yn derbyn lliosogrwydd o ras (hyny yw, y rhai ydynt wrthrychau trugaredd helaethlawn,) ac oddawn cyfiaunder, deyrnasu mewn bywyd tragicwyddol trwy un Iesu Grist." Yma sicrhau yr apostol i ni, y derbynia credinwyr gyfiaunder fel rhodd rad, yn dylifo o liosogrwydd gras, a bod ganddynt drwy y cyfiaunder hwn hawl gyfiau i fyw a theyrnasu yn dragwyddol gyda Christ; neu, fel y mynega ef mewn lle arall, "Fel, gwedi ein cyfiau hau trwy ei ras ef y'n gwneid yn etifeddion yn ol gobaith bywyd tragicwyddol. Oddyma y gelwir y gwynfyd nefol yn "obaith cyfiaunder;" ac a hyn y cyttuna geiriau Esaia, "A gwaith cyfiaunder fydd לְלִשָּׁה heddwch; ie, gweithred cyfiaunder fydd llonyddwch, a diogelwch hyd byth." Yn wir, bywyd tragicwyddol a arddangosir yn 'yr Ysgrythur, fel gwobr gyfiau cyfiaunder Crist, yn cael ei roddi a'i dderbyn yn rhad, yn ogymaint felly, ie, a mwy o lawer, nag yw teyrnasiad marwolaeth yn gyfiau wobr camwedd Adda; "lle yr amlaodd y pechod, y rhagor amlaodd gras; fel megis y teyrnasodd pechod i farwolaeth, felly hefyd y teyrnasai gras trwy gyfiauunder i fywyd tragicwyddol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd."

Os yw pechoda u credinwyr wedi eu dileu, eu dadlythyr, a'u tynnu ymaith; os trosglwyddwyd cyfiauunder Crist iddynt hwy, ac fel hyn yn rhoddi teitl iddynt deyrnasu mewn bywyd gydag ef; yna fe ganlyn bod y rhai a ymrwymant yn y gorchwyl, o'r naill ddydd yr Arglwydd i'r llall, o ddysgu "nad yw na phechod, nac ychwaith gyfiaunder, ynddynt eu hunain, yn drosglwyddadwy; na dderbynia credinwyr mewn cyfiau hau, ond yn unig leshad neu effeithiau cyfiauunder Crist," yn audystion i Dduw, ac yn rhwym yn y gwaith o lafaru celwydd yn enw yr Arglwydd. Ac ni ddylid byth anghofio er mai y Di-ddanydd nefol, yr Yspryd Glan, yw awdwr pob llarieidd-dra, ac yn cael ei gymharu yn ei ddylanwadau i golomen, etto, iddo

ysbrydoli ei weision, y prophwydi, i ysgrifenu y pethau mwyaf llymdost yn erbyn y rhai "a draethant amryfusedd yn erbyn yr Arglwydd, i ddiddymu enaid y newynog; ac efe a wna i ddiod y sychedig ballu." Ac er holl r agrithiadau y cyfryw ddynion tros gariad cyffredinol a haelder meddwl, efe a ddinoetha ddirgel anwiredd eu calonau, ac a'u geilw hwynt wrth enwau tra gwarthus. Efe a'u cyfenwa hwynt yn gelwyddwyr, yn gybyddion, a choeg-ddynion, ac yn weithredwyr anwiredd, o achos y dychymygant ddichellion i ddifwyno y trueiniaid trwy ymadroddion gau; pan draetho yr anghenus yn uniawn." Mewn perffaith gyd-gordiad a hyn yr oedd ymddygiad ein Harglwydd. Ei holl nodweddiaid a wnaed i fynu o larieiddra, addfwynder, a chariad; etto pa mor llymdost oedd ei geryddon yn erbyn yr adeiladwyr, yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid. Yn hyn hefyd efe a efelychwyd, mewn mesur, gan ei holl ddisgyblion ffyddlon, y rhai mor ddifrisol a rybuddiodd efe i "ochelyd gau-brophwydi, y rhai a 'ddeuent y'ngwisgoedd defaid." Canys yn yr un mesur ag y gwneir credinwyr yn os-tyngedig a datguddiedigaethau ysbrydol o'r gogoniant dwyfol y'ngwynnllun ardderchog yr iachawdwriaeth, yr ennynir eu sel sanctaidd yn erbyn pob llygredigaeth o'r efengyl, fel ag i beidio dioddef "y rhai drwg," nac hyd yn oed "eu derbyn i dy," na dywedyd "D uw yn rhwydd wrthynt."

Mi gaf ail-adrodd sylwedd yr hyn y pwyswyd arno uchod, ar y pwnc o gyflawnhad rhad, yn y rhesymau canlynol.

*Rheswm 1.* Os nid yw peched a chyflawnnder ynddynt eu hunain yn dros glwyddadwy, ond yn unig yn eu heffeithiau; os ni dderbynia credinwyr ond yn unig y lleshad o gyflawnnder Crist; ac os ni ellir dileu peched ei hun, yna, mae yn canlyn, nad oes y fath beth a chyflawnhad pechadur. Dichon fod maddeuant, ond ni all bod cyflawnhad; ac o ganlyniad, camsyniodd yr apostol yn gywilyddus pan draethodd ef y geiriau nodedig hyny, "Pwy a rydd ddim yn erbyn etholedigion Duw? Duw yw yr hwn sydd yn cyflawnhau."

*Rheswm 2.* Os Duw, y'nghyflawnhad pechadur, yn unig a'i cyfrif ef yn gyflawn, ac a ymddwyn tuag atto fel y cyfryw, pan mewn gwirionedd, nid yw efe felly, yna nid yw ei farn ef yn ol gwirionedd. Ond pell fyddo hyn oddiwrth ein Duw ni. Cyflawnnder a barn yw trigfa ei orsedd-saingc ef. Efe a hysbysodd, "y gosodai efe gyflawnnder wrth linyn, a barn wrth bwys." Ni chollfarna efe y diniwaid mewn barn, na chyflawnhau yr euog. Os yw ef, gan hyny, yn cyfrif neb o hil Adda

yn gyfawn, hynny sydd o achos iddo eu cysfansoddi hwynt felly yn gyntaf.

Gyda llawer o foddhad yr wyf yn difynu geiriau iawn-fyddio M. Hervey ar y pwnc hwn, yn ei lythyrau at Mr. John Wesley. Haerasai yr olaf bod "Dyw, trwy Grist, yn ein cyfrif yn gyntaf, ac yna yn ein gwneuthur yn gyfawn." I hyn yr atteba Mr. Hervey, "Pa fodd? A gyfrifa Duw ni yn gyfawn cyn iddo ein gwneuthur felly? Yna, nid yw ei farn ef yn ol gwirionedd. Yna efe a'n hystyria yn gyfawn, pan mewn gwirionedd yr ydym fel arall. Ai nid yw hyn yn hollol anghym-modadwy a'n meddylddrychau o'r Bod Goruchaf, ac yr un mor anghydwedol ag athrawiaethau yr Ysgrythyrau? Yno y dysgwn bod Duw yn cyfawnhau yr annuwiol. Sylwch ar y geiriau. Yr annuwiol yw gwrthrychau y cyfawnhad dwyfol. Ond a ddichon efe gyfrif yr annuwiol yn gyfawn? Mae hynny yn anmhosibl! Pa fodd ynte y gweithreda efe? Efe a'u gwna hwynt yn gyfawn. Yn mha fodd? Drwy gyfrif iddynt gyfiaunder ei anwyl Fab. Yna efe a'u cyhoedda hwynt yn gyfawn, a hyny yn yr ystyr mwyaf gwirioneddol. Efe a ymddwyn tuag attynt fel rhai cyfawn, a hyny yn yr ystyr mwyaf cyfawn. Yn fyr, ynte, efe a'u rhyddha hwynt oddiwrth euogrwydd; a'u mabwysiadu yn blant iddo, ac yn eu gwneuthur yn etifeddion ei deyrnas dragwyddol."\*

*Rheswm 3.* Os ymddyga Duw tuag at ei bobl yn unig megis pe byddent gyfawn pan y dyry efe fywyd tragedywyddol iddynt, yna dichon trugaredd yn wir gael ei harddangos, ond ni ellir boddloni cyfiaunder. Cyfiaunder a osyna yn gysartal bod i'r euog farw, a bod i'r cyfawn fyw. Os ni ellir dileu euogrwydd, "ond yr erys haediant y troseddwyr," yna cyfiaunder a gwirionedd a wahardd iddo fyw; ond os cyfansoddir y pechadur yn gyfawn, yna, fel y cyfryw, cyfiaunder a wahardda iddo farw. Mewn barn, cyfiaunder nid yn unig a ganiata yr effeithiau hyn, ond efe a'u harddelwa hwynt. Yn ganlynol, y credadyn "a aeth drwodd o farwolaeth i fywyd," mewn ystyr barnol neu gyfreithiol, o achos iddo dderbyn y fendith fawr hono, yr hon a elwir "cyfawnhad bywyd."

Yr arddangosiad rhyfeddol o gyfiaunder a thrugaredd a gyfansodda wir ogoniant yr efengyl, ac a'i gwna yn anfeidrol uwchlaw unrhyw beth a ddaeth i feddwl dyn erioed i'w amgyffred. Canys, "ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn, y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i

\*Letters to Wesley. Letter x.

carant es. Eithr Duw a'u heglurodd i ni trwy ei Yspryd." Yn nghynllun yr iachawdwriaeth, cyflawnder anfeidrol a thrugaredd anfeidrol, a gyd-gordiant yn hyfryd. Ni arddangosir trugaredd ar draul cyflawnder, ac ni arddangosir cyflawnder fel ag i gymmylu gogoniant trugaredd pen-arglwyddiaethol; ond yn nyfais ryseddol y prynedigaeth, cyflawnder a a allan yn ei holl ddisgleirdeh; a thrugaredd fel lamp yn llosgi. Hwynt-hwy a gyfeiliornant yn fawr, y rhai a ddychymygant wrth ddywedyd, os yw yr iachawdwriaeth yn fatter o gyflawnder, na adewir lle i weithrediad trugaredd rydd ac anhaeddiannol. Y cyfryw wrthddadlewyr a anghofiant, bod y rhai a dderbyniant ddawn cyflawnder yn ei dderbyn o liosogrwydd gras. Yn yr holl gynllun dirgeledig, gras a deyrnasa. Ond pa fod y teyrnasa? Trwy gyflawnder i fywyd tragicwyddol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

YN BEDWERYDD. Athrawiaeth arall a geir yn eglur yn ngair Duw, a'r hon yr anghyttuna golygiadau Mr. Fuller yn hollol, yw yr *undeb cyfammodol rhwng Crist a'i bobl*. Wrth undeb cyfammodol, yr wyf yn deall yr undeb cynnrychol-edigol hwnw, sy'n gorsefyll rhwng Crist a'i etholedigion, cyn iddynt gredu ynddo ef, a'r hwn yw sylfaen yr undeb bywiol ag ef. Y mae ystyr, yn yr hwn nad yw dewisedigion Duw yn Nghrist, neu mewn undeb a Christ, hyd oni adnewyddir hwynt trwy ras, Rhuf. xvi. 7; pan trwy ffydd a chariad y preswylia efe ynddynt hwy, a hwythau ynddo yntau; a hyn a gysenwid yn briodol yn undeb bywiol. Ond y mae math arall o undeb, yr hwn a orsefyllodd rhwng Crist a'i etholedigion y'mhob cam o'i waith cyfryngwriaethol, ac y'mhob gweithred o'i brynedigaeth gogoneddusaf; fel ag pan ufuddhaodd efe, hwythau a ufuddhasant ynddo ef, pan y bu efe farw, y buant hwythau feirw ynddo ef, a phan gyfododd efe, hwythau a gyfodasant ynddo ef. Yr undeb hwn yw sylfaen yn holl les-had y dderbyniodd, neu a dderbynia y credinwyr byth oddiwrth farwolaeth Crist a'r undeb hwn, wrth ba enw bynag arall y gellir ei gysenwi, yw yr hwn a feddyliaf fi wrth *undeb cyfam-modol*. Mae yn angenrheidiol i mi brofi yn gyntaf yr athrawiaeth ei hun; ac yna dangos pa fod y mae golygiadau Mr. Fuller yn wrthwynebol iddi, er na chaf ei fod ef yn ei "Ym-ddiddanion, &c." yn sylwi arni yn union-gyrchol.

Un diben gan yr apostol, yn ei gadwyn resymegyddol trwy y 5ed o'r Rhufeiniaid, yw sefydlu yr athrawiaeth bwysig hon. Efe a ddwg i mewn y ddau Adda, fel penau cyfammodol eu

hadau priodol. Efe a bwysa dros undeb yr Adda cyntaf a'i holl had ef, fel ag pan gwympodd efe y cwymasant hwythau oll ynddo ef; a phan gyflawnodd efe y camwedd, y daeth barn arnynt hwythau, o achos eu hundeb cyfammodol ag ef. Yn awr, yr oedd Adda yn gyffelybiaeth neu gysgod o hono ef yr hwn oedd i ddylod. Megis ag y safodd neu y syrthiodd Adda y'nghyd a'i had ef, felly y mae gyda yr Arglwydd Crist a'i had yntau. Canys megis pan droseddodd yr un pen cyfammodol, y daeth y camwedd ar bob dyn y rhai a gynnrychiolodd efe; felly, pan yr ufuddhaodd yr ail Adda, y daeth cyfiawnder ar yr holl ddynion y rhai a gynnrychiolodd yntau. "Oblegid megis trwy anufudd-dod un dyn y gwnaethpwyd llawer yn bechaduriaid; felly trwy ufudd-dod un y gwneir llawer yn gyfawn." Hyn oll a ddeillia oddiar y tyb-fwriad o undeb, ac o undeb cyfammodol; canys, os ni orsefyllodd undeb yn yr amser y cyflawnwyd camwedd Adda, cyfiawnder a waharddasai cyfrifiad o'r camwedd i bob dyn. Etto ni a wyddom y teyrnasa marwolaeth, hyd yn oed arnynt hwy y rhai ni phechasant yn ol cyffelybiaeth camwedd Adda; yn gymhwys felly, o achos yr undeb rhwng yr ail Adda a'i had ef pan yr ufuddhaodd, y cyfrifir cyfiawnder iddynt hwy oll, a hwy a deyrnasant mewn bywyd, er yn eu personau eu hunain, erioed ni ufuddhasant i'r ddeddf yn berffaith. Yn ganlynol, ni a gawn fod yr Ysgrythur yn dysgu yn eglur, bod Crist a'i bobl yn un; efe y pen, hwythau yr aelodau; a'u bod, y'ngolwg y gyfraith, yn un corph pan ufuddhaodd efe, ac y bu farw, ac y cyfododd. "Dy feirw a syddant byw, fel fy nghorff i yr adgyfodant." Yn yr Ysgrythur hon, fe 'n dysgir, bod y rhai ag y bu Crist farw drostynt yn "aelodau o'i gorff ef, o'i gnawd ef, ac o'i esgyrn ef;" iddynt yn gysammodol farw gydag ef, adfywhau gydag ef, a chyfodi gydag ef. Ac ymddengys hyn yn gyflawnach, os ystyriwn bod y geiriau *together with, y'nghyd a*, yn Saesneg, yn gyflawniad, *supplement* ac y gellir cyfieithu y testyn yn fwyllythyrenol fel hyn, "Dy ddynion meirw a fyddant byw, hyd yn oed fy nghorff marw i (yn Gymraeg, sel fy nghorff i) yr adgyfodant," meddwl yr hyn a eglurir gan yr apostol fel yma; "Eithr Duw, yr hwn sydd gyfoethog o drugaredd, o herwydd ei fawr gariad trwy yr hwn y carodd efe ni, ie, pan oeddym feirw mewn camweddau, a'n cyd-fywhaodd ni gyd a Christ, ac a'n cyd-gyfododd, ac a'n gosododd i gyd-eistedd yn y nefolion leoedd yn Nghrist Iesu." Bod hyn yn cyfeirio at undeb cyfammodol sydd eglur; canys ni ddyrchafwyd y credinwyr etto

yn eu personau eu hunain i eistedd yn y nefolion leoedd; ond a chanddynt hanfodaeth gynnyrchioledig yn Nghrist, hwy a eisteddasant yno gydag ef, pan aeth ef i mewn i'r sanctaidd sancteiddiolaf, ac eistedd ar ddeheulaw Duw yn y goruchafion. Ac mewn cyfeiriad at yr undeb cyfammodol hwn, dywedi groeshoelio y credinwyr gyda Christ iddynt farw gydag ef, eu claddu gydag ef, eu cyflawnhau ynddo ef, a'u cyfodi i fynu y'ngyd gydag ef. Canys yr undeb ysbrydol neu bywiol hwnw Christ, yr hwn a fwynha y credinwyr trwy ffydd, yw effaith yr undeb cyfammodol hwn, megis ag y dysga gair Duw yn helaeth. "Gan farnu o honom hyn, medd yr Apostol, os bu un farw dros bawb, yna meirw oedd pawb;" hyny yw, os bu un farw fel pen cyfammodol, neu gynnyrchiolwr pawb, yna bu feirw pawb yn yr un hwnw. Dyma yw undeb cyfammodol. "Ac efa fu farw dros bawb fel na byddai i'r rhai byw fyw mwyach iddynt eu hunain, ond i'r hwn a fu farw drostynt, ac a gysodwyd." Trwy yr hyn y dysga yr Apostol, mai o achos i Grist farw fel cynnyrchiolwr ei holl had cysammedol ef, bod yr Ysbryd yn peri iddynt hwy farw i bechod, trwy ei farwolaeth ef, ac i fyw iddo ef, trwy ei adgyfodiad. Ymddengys hyn yn eglurach etto, os ystyriwn ni weddi Paul dros yr Ephesiad crediniol, ar iddynt wybod dirgelwch gwaith yr Yspryd ar eu calonau, a deall pa fodd y cyfatteba ag adgyfodiad a dyrchafiad Crist. "Fel y gwypoch beth yw rhagorol sawredd ei nerth ef tuag attom ni, y rhai y'm yn credu *yn ol* gweithrediad nerth ei gadernid ef; yr hon a weithredodd efe yn Nghrist, pan y cyfododd ef o feirw, ac a'i gosododd i eistedd ar ei ddeheulaw ei hun yn y nefolion leoedd." Yma ni a welwn bod gwaith yr Yspryd Glan, y'nghalonau y saint, yr hwn a effeithia yr undeb ysbrydol a Christ yn ei farwolaeth a'i adgyfodiad, yn waith cyfattebol a'r gwaith a weithiwyd yn Nghrist ei hun, ac yn effaith angenrheidiol o hono. Dyma y dirgelwch a ddymunai yr apostol ei hun uchlaw pob peth ei amgyffred. "Fel yr adnabyddwyf ef, a *grym* ei adgyfodiad ef, a *chymdeithas* ei ddioddefiadau ef, gan fod wedi fy *nghyd-ffurfio* a'i forwolaeth ef."

Yr athrawiaeth o undeb cyfammodol, fel sylfaen undeb bywiol neu ysbrydol a Christ, a gydnabyddwyd gan y rhan amalaf o'r ysgrif'enwyr a ddalent etholedigaeth dragwyddol a phersonol;\* ond y mae yn fodhaol gwybod i bobl yr Arglwydd; y rhai ydynt fwyaf nodedig am eu hymlyniad wrth

\*Gwel Elisha Cole on God's Sovereignty—article, Election, sec. v. Dr. Goodwin's Sermon's on Eph. ii. 5, 6, and also Dr. Owen's Death of Death, page 240.

egwyddorion cyntaf yr efengyl, yn hytrach nag wrth yr athrawiaethau dyfnaf o honi, gael eu harwain i weled bod eu hiachawdwriaeth yn ymddibynu ar y peth hwn ei hun.

Mr. John Bunyan, yn yr hanes a ddyry ef o ymddygiadau Duw tuag atto ef, sydd wedi cof-nodi a symlwydd diddichell, sefydlogrwydd ei enaid yn y gwirionedd gogoneddus hwn. "Yn awr, gwelais, medd ef, edrych o Dduw ar yr Arglwydd Iesu, ac y dylid edrych arno genym ninau megis y person cyffredinol neu gynnwrchiol hwnw, yn yr hwn mae y cwbl o holl gorff ei etholedigion ef i'w hystyried a'u cyfrif bob amser; i ni gyflawni y gyfraith ynddo ef, marw ynddo, cyfodi oddiwrth y meirw ynddo ef, buddugoliaethu ar bechoda, angau, diafol, ac uffern drwyddo ef; pan y bu ef farw, y buom ninau farw, ac felly am ei adgyfodiad. 'Dy feirw a fyddant byw,' &c. meddefe. A thrachefen, 'Efe a'n bywha ni ar ol deuddydd, a'r trydydd dydd y cyfyd ni i fynu, a byddwn fyw ger ei fren ef;' yr hyn yn awr a gyflawnwyd, trwy eisteddiad Mab Duw ar ddeheulaw y Mawredd yn y nefoedd; yn ol y gair hwnw yn yr Ephesiaid, 'Efe a'n cyd-gyfododd, ac a'n gosododd i gyd-eistedd yn y nefolion leoedd yn Nghrist Iesu.' Oh! yr ystyriaethau a'r Ysgrythyrau bendigedig hyn, y'nghyd a llawer eraill o'r un natur, yn y dyddiau hynny a wneid i serenu yn fflygaid; fel ag y mae genyf achos i ddywedyd, 'Molwch yr Arglwydd yn ei sancteiddrwydd; molwch ef yn ffurfasen ei nerth; molwch ef am ei gadernid; molwch ef yn ol amlter ei fawredd.'<sup>\*\*</sup>

Ond och! yr ystyriaethau diddanus hyn i'r enaid, a gynnaliasant y saint gwywedig a thrallodedig y'mhob oes, nid ydynt wir, onid yw syniadau Mr. Fuller yn anwir. Ni allant sefyll, os gwir bod iawn Crist yn anmhennnodol, neu os bu Crist farw dros bechod yn y crynswth o hono. Eithr os dysga yr Ysgrythur yn y modd mwyaf eglur i Grist farw fel pen cyfammodol ei ddewisedigion, a bod eu hiachawdwriaeth hwy yn ymddibynu ar eu hundeb cysammodol ag ef pan y bu farw ac yr adgyfodd; yna y tyb gwrthun fwriadu iawn Crist dros rai dynion yn unig, ond ei fod yn ddigonol dros holl ddynolryw, a gwyp*i'r llawr.*

**YN BUMMED.** Yr ysgrythyrau a ddatguddiant yn eglur gyssylltiad angenrheidiol rhwng marwolaeth Crist a throedigaeth neu ffydd y rhai y bu ef farw drostynt; hynny yw, marwolaeth Crist a ddygodd ffydd, edifeirwch, a phob gras ysbryd-

\*Helaethrwydd o ras, &c.

ol, i'r rhai ag y mae iddynt ran ynnddi. Llawer o'n ysgrifennwyr Saesneg, yn enwedig yr henrai o honynt, a ddefnyddiasant y gair pwrcas, yn yr ystyr hwn; ac a ddywedasant yn fynych i Grist, trwy ei farwolaeth, bwrcasu ffydd, edifeirwch, a'r Yspryd i'w etholedigion. Yn awr, er bod rhesymau dros beidio defnyddio y gair pwrcas mewn cyfeiriad at y pethau hyn, etto yr hyn a feddyliai yr ysgrifennwyr hyny wrth y gair sydd athrawiaeth wedi ei chyflawn sefydlu y'ngair Duw.\* Heb gan hyny, ddal ar eiriau, yr athrawiaeth ysgrythyrol, y saif cyssylltiad angenrheidiol rhwng marwolaeth Crist a dychweliad ei waredigion a osodir o'r neilldu yn gysan-gwbl gan athrawiaeth Mr. Fuller. Rhaid yr ymddengys yn eglur i bob un a ystyrio y pwnc, mai os bu Crist farw felly dros bechod, fel ag i agor ffordd i ddylifiad trugaredd ddwyfol at filiynau o bechaduriaid, neu at onid un pechadur yn unig, yn ol ag yr arfaethai ewyllys pen-arglwyddiaethol Duw; yna y canlyna, mai pa gyssylltiad bynag a ddichon fod rhwng bwriad Duw a dychweliad miliynau, na all fod yr un rhwng marwolaeth Crist a'u dychweliad; canys, yn ol y ddyfais hon, dim ond un pechadur yn unig a allesid achub trwy farwolaeth Crist. Nid yw yn angenrheidiol, gan hyny, ond yn unig profi bod y fath gyssylltiad, a bod ffydd a dychweliad y prynedigion wedi ei sierhau yn y modd mwyaf anffaeledig, trwy waed y Gwaredrwr; ac yna y dyfais o iawn anmhennodol a ymddengys yn holol gyfeiliornus.

Profwyd yr hanfodai undeb cyfammodol rhwng Crist a'i etholedigion, pan y bu ef farw ac yr adgyfododd; ac hefyd, mai eu hundeb bywiol, neu ysbrydol ag ef, yw yr effaith o'i farw a'i adgyfodi ef drostynt hwy. Pan ddyweda yr Apostol bod y rhagorol fawredd nerth a weithredir yn y credinwyr yn ol gweithrediad nerth cadernid Crist, efe a arwydda, nid yn unig bod cyffelybrwydd rhwng y ddwy engrafft hyn o nerth yr Hollalluog, ond hefyd bod cyssylltiad; ac mai ffydd yw yr effaith angenrheidiol o adgyfodiad Crist. Nerth yr Yspryd tuag attynt hwy ag sydd yn credu, a'i gyssylltiad a gwaith Crist a eglurir fel hyn gan ysgrifenydd rhagorol. "Wedi yr unr Cristionogion a Christ, a'u gwneuthur yn ddirgelaidd yn asgwrn o'i asgwrn, a chnawd o'i gnawd ef, Crist u weithreda ynddynt hwy yn effeithiol trwy ei Yspryd Sanctaidd, a'i weithrediadau ef yn benaf ydynt dair ffordd. Yn gyntaf, mae yn peri

\*Dyweda Dr. Gill, na chyfarfyddodd ef a neb amgen na'n duwinyddion Seisneg yn defnyddio y gair pwrcas yn yr ystyr hwn, ac a ddyry resymau iachusol pa hama y byddai gwell ei anarfer. See his Notes on Dr. Crisp, vol. I. 304.

i'w farwolaeth ei hun weithredu yn effeithiol farwolaeth pob pechod, a lladd awdurdod y cnawd. Yn ail, ei gladdedigaeth ef a achosa gladdedigaeth pechod, megis mewn beddrod. Yn drydydd, ei adgyfodiad sy'n anfon gallu bywiocaol iddynt hwy, ac yn gwasanaethu at wneuthur iddynt gyfodi allan o'u pechod yn yr hwn yr oeddynt yn feirw ac wedi eu claddu, i weithredu cysiaunder, ac i fyw bywyd o sancteiddrwydd.\* Eithr ni weithreda yr Yspryd fel hyn ar neb ond y rhai a fuant feirw ac a gyfodasant yn gyfammodol gyda Christ, pe amgen, cyd-gordiad y Tri Sanctaidd, y'ngyflawniad yr iachawdwriaeth, a ddistrwywid, ac ail-enedigaeth y credodyn ni chyfattebai yn hwy ag adgyfodiad Crist. Ond, y gweithreda efe fel hyn ar bawb y bu Crist farw drostynt, ac o achos iddo farw trostynt hwy, sydd eglur oddiwrth yr ystyriaethau canlynol.

1. Yr enedigaeth newydd, a sancteiddiad pechadur, a briodolir yn amlwg i hyn, fel yr achos cyrhaeddadwy o honyn, sef farw o Grist dros y pechadur hwnnw. Fel hyn Crist "a'i rhoddes ei hun dros ei eglwys, fel y sancteiddiai efe hi, a'i glanhau a'r olchfa ddwfr, trwy y gair."† A thrachefn yr apostol a ddywed, "Yr hwn a'i rhoddes ei hun drosom, i'n prynu ni oddiwrth bob anwiredd, ac i'n puro ni iddo ei hun yn bobl briodol."‡ Yma fe'n dysgir, nid yn unig fod cyssylltiad rhwng marwolaeth Crist ag adgenhedliad y rhai y bu ef farw drostynt, ond hefyd mai ei farwolaeth ef yw yr achos haeddiannol o hono.

2. Gwaredigaeth pobl Dduw oddiwrth gaethiwed pechod a satan, a ddywedir yn bendant ei gael iddynt trwy farwolaeth Crist: "efe a aeth unwaith i mewn i'r cyssegr, gan gael i ni dragywyddol rhydhau."|| Y prenedigaeth hwn, a ddywedir ei gael, a gynnwys waredigaeth gyflawn o bob caethiwed, y'nghyd a'r rhodd o'r Yspryd. Felly y mae gallu haeddiannol yn marwolaeth Crist i sierhau y bendithion hyn i bawb ag y bu ef farw drostynt.

3. Ffydd, ac yn ganlynol bendithion ysbrydol eraill, a gyfrenir yn rhad ar ran Crist, neu er mwyn ei farwolaeth ef; yr hyn a ddengys yn eglur y cyssylltiad angenheidol rhyyngddynt. "I chwi y rhoddwydd er Crist gredu ynddo ef."§ Yn ganlynol, ni gawn i'r Iachawdwr dyrchafedig dderbyn gan y Tad allu i roddi bendithion ysbrydol i'w waredigion. Ps. Ixviii. 18. Cymharwch Act. ii. 33. Ac y mae ymresymiad yr apostol mewn lle arall ar y pwngc hwn, yn dra argyhoedd.

\*Perkins's Estate of a Christian, sec. 23. †Eph. v. 26. §Titus ii. 14.  
¶Heb. ix. 12. ¶Phil. 1. 29.

iadol ; "Yr hwn nid arbedodd ei briod Fab, ond a'i traddododd of trosom ni oll, pa wedd gydag ef hefyd na ddyry efe i ni bob peth?"\* Yma ni a ddysgwn bod pob bendith ysprydol—ffydd, edifeirwch, sancteiddbau, &c. yn gynnwysedig yn y rhoddiad o Grist, a'u cyfranu er ei fywn ef ; mai tros y rhai y traddodai Duw Grist, llawer mwy y cyfrana efe y pethau hyn iddynt hwy. Yn awr, os rhoddodd Duw ei Fab dros holl ddynolryw, efe gydag ef hefyd a ddyry yn rhad (nid yn unig cynnyg, ond rhoi yn rhad) i holl ddynolryw ffydd, edifeirwch, a phob bendith ysprydol ; ond hyn, ni a wyddom ni wna efe. Etto os rhoddodd Duw ei Fab dros ei holl etholedigion, efe a ddyry gydag ef hefyd bob bendith lai o werth iddynt hwy—ffydd, edifeirwch, &c. : a hyn ni a wyddom a wna efe. Ond os traddododd Duw ei Fab i farw dros bechod yn anmhennodol, nid oes un rheswm, yn cyfodi oddiwrth farwolaeth Crist, pa ham y byddai i Dduw gyfranu bendithion ysprydol i neb o'r hil ddynol.

4. Mae yr Ysgrythur yn eglur sicrhau dychweliad llawer o droseddwyr, ac yn pennodi hyn fel rheswm, sef, i Grist ddwyn anwireddau llawer. "Fy ngwas cyfawn a gyfawnha llawer trwy ei wybodaeth ; canys efe a ddwg eu hanwireddau hwynt."† Os gofynwn, gan hyny, pa ham y cyfawnheir neb o feibion dynion trwy ffydd, neu trwy adnabyddiaeth o Grist, yr ateb yw, o achos dwyn o hono ef eu hanwireddau hwynt. Mae yn anmhosibl mai un pechadur yn unig a allesid achub trwy iawn Crist, os dygodd efe bechodau llaweroedd ; ac y mae yr un mor annichonadwy y gallid achub yr holl fyf trwy ei farwolaeth, os ni ddygodd efe bechodau pob dyn ; o achos, bod cyssylltiad angenrheidiol rhwng Crist yn dwyn pechodau y troseddwr, a chyfawnhad y troseddwr hwnw trwy ffydd. Yn y golygiad hwn, y mae cydgordiad gogoneiddus yn nghynllun yr iachawdwriaeth trwyddi oll, a phen-arglwyddiaeth dwyfol a ddisgleiria yn mhrynedigaeth Crist yn ei holl ogoniant ardderchog. Pell oddiwrth fod yn wir yw, mai un pechadur yn unig a allesid achub trwy iawn Crist, canys "Duw a ranna i'w Fab ran gyda llawer, ac efe a ranna yr yspail gyd a'r cedyrn." Y rheswm yw, efe a ddygodd bechodau llaweroedd ; efe a fu farw tros laweroedd ; ac a eiriolodd tros laweroedd ; a'r cyfryw yw haeddiant ei farwolaeth, fel ag y dyry Duw yn sicr iddo ef y llaweroedd tros y rhai y bu efe farw.

5. Yr Ysgrythur a ddysga y dychwelir dynion, neu y dygir

\*Rhuf. viii. 32. †Esa. liii 11, 12.

hwynt i Seion, mewn canlyniad o'u prynedigaeth. Eu prynedigaeth trwy waed, a sicrha eu hiachawdwriaeth trwy nerth : ac o achos i Grist eu prynu hwynt trwy ei waed, efe a'u harddelwa hwynt, *ipso facto*, trwy y weithred noeth hono, fel ei iddo ei hun. Am hyny y gelwir hwynt yn "waredigion yr Arglwydd." "O herwydd yr Arglwydd a waredodd Jacob, ac a'i hachubodd ef o law yr hwn oedd drech nag ef. Am hyny y deuant ac y canant yn uchelder Sion."\* A gwareligion yr Arglwydd a ddychwelant, ac a ddeuant i Sion â chaniadau."† "O lafur ei enaid y gwel, ac y diwellir."‡

Fel hyn, ymddengys bod cyssylltiad angenreidiol rhwng marwolaeth fachniol Crist, a throedigaeth y rhai y bu efe farw drostynt, yr hyn ni allai fod pe anmhennodol fyddai yr iawn.

**YN CHWECHFED.** Y cyfeiliornad olaf y cyhuddaf fi egwyddorion Mr. Fuller o hono yw, yr un na addefir mono yn amlwg yn ei ysgrifeneddau, ond a ganlyna megis casgliad oddiwrth ei syniadau cyffredinol ; sef, mai "nid ufudd-dod Crist, ond y weithred o gredu, a gyfrifir i ni yn gyflawnder." Nid yw hyn, yn fyr, na mwy na llai nag adfywiad o'r cyfeiliornad Neonomaidd, yr hwn a gynnwysir yn benaf yn yr athrawiaeth ganlynol, sef, "Ddarfod i Grist, wedi boddloni anghydfod yr hen ddeddf gweithredoedd, gael a rhoddi deddf newydd, sef cyfraith ddiwygiedig, yr hon yw yr efengyl yn cynnwys gorchiymynion, addewidion, a bygythion, ac yn dywedyd *Gwna a byw fyddi*, mewn rhyw ystyr tirionach na'r cysaimmod cyntaf. Mai ffydd yn Nghrist yw y rhan benaf o'r ufudd-dod hwnw a osynir gan y gyfraith newydd, ac y derbynir hwn yn gyflawnder, yn lle yr ufudd-dod perffaith, dibaid hwnw, a osyna cyfraith y deng air deddf."§ Dyma yw mŵr yr hyn a elwid Neonomaeth ; yr hon athrawiaeth, o ran sylwedd, a ddysgir yn ysgrifeneddau Mr. Baxter, a'r Arminiaid, a'r dysgedicaf o'r Pabyddion. Mae yn aros i'w profi, pa fodd bynag, y dysgir hyn yn sylweddol yn ysgrifeneddau Mr. Fuller ; ac i'r diben yma, yr wyt yn cymniell y rhesymau canlynol.

1. Yr holl effeithioldeb i gyflawnhad,|| a ganiata Mr. Fuller i ufudd-dod a marwolaeth Crist yw, i'r Gwaedwr haeddu y fendith fawr hon i ni, ar yr ammod i ni gredu yr efengyl ; neu, mewn geiriau araill, i waed Crist deiliyngu iachaw-

\*Jer. xxxi. 11, 12. †Esa. xxxv. 10. ‡Ibid, lili. 11. ¶Gwel Ragymadrodd Beart's Eternal Law, &c

|| Pan yr wyt yn dywedyd y caniata Mr. Fuller, gyflawnhad, wrth reswm, meddylias yn unig, yn yr ystyr yr egluria efe ef ei hun, yr hyn a brofaus nad yw wrt gyflawnhad, namyn maddeuant yn unig.

dwriaeth i ni, ar ammodau esmwythach na'r rhai a ofynid gan y gyfraith gweithredoedd. Dysga Mr. Fuller yn bendant "bod y fath lawnder yn marwolaeth Crist, ag sydd ddigonol er iachawdwriaeth yr holl fyd, pe credai yr holl fyd ynddo ef." Yn awr, nisicrh a y "llawnder" hwn iachawdwriaeth yr holl fyd yn hollos, ond yn unig ar delerau neillduol; yn ol hyny y mae yn canlyn, mai nid ufudd-dod Crist ei hun yw defnydd ein cyflawnhad, ond ein cyflawniad ni o'r ammod; canys ni theil-yngodd Crist ond yn unig ein cyflawnhau ni ar yr ammod o'n husudd-dod ni i'r efengyl.

2. Proswyd nad yw, yn ol golygiadau Mr. Fuller, marwolaeth Crist yn fachniol, ac os nid yw ei farwolaeth, felly hefyd nid yw ei ufudd-dod ef i'r gyfraith yn fachniol. Os ni bu Crist farw yn lle ei etholedigion, ond yn unig gwneuthur iawn an-mhennadol tros bechod, fe ganlyna nad oedd ei ufudd-dod ef i'r gyfraith trostynt hwy, neu yn eu lle hwynt, ddim mwy nag oedd ei farwolaeth felly. Ac addef hyn, fe ganlyna y'mhell-ach, na ddichon ufudd-dod Crist fod y gwir beth hwnnw ag sy'n cyflawnhau pechadur, o achos angenrheidiol oedd i Grist fod wedi ei gyfansoddi yn ben cysfammodol ei holl bobl, a gweithredu fel eu cynnyrchiolwr hwynt, cyn y gellid cyfrif ei ufudd-dod ef yn gyflawnader iddynt hwy. Rhuf. v. 14, 19. Ond gan y gwedir hyn, rhaid y canlyna, mai nid ufudd-dod Crist, ond ein credu ni a gyfrifir yn gyflawnader i ni.

3. Gwelsom o'r blaen bod Mr. Fuller yn gwadu tros-glwyddiad o ufudd-dod y Gwareddwr i'r pechadur fel peth anmhosibl;\* ac os felly, rhaid y canlyna yn naturiol na all bod yr ufudd-dod hwn y gwir beth ag a gyflawnha y pechadur. Mr. Fuller, yn wir, a lafara am "ufudd-dod Crist yn gyfrifedig," ond wrth yr ymadrodd hwn efe a feddylia yn unig y cyfrenir effeithiau ufudd-dod Crist yn ammodol, a'r hyn yw dywed-yd dim mwy nag i ufudd-dod y Gwareddwr haeddu ein maddeuant, ar yr ammod i ni gredu: a mwy na hyn ni chwennycha un Arminiad neu Neonomiad deallus.

4. Y digonolrwydd ammodol i gyflawnhau yr holl fyd, yr hyn a briodola Mr. Fuller i waith Crist, a esyd yr holl eff-eithioldeb o hono yn y weithred o gredu. Y mae yn ddigonol i'r holl fyd, os credant hwy; nid yn ddigonol, os ni credant; fel nad yw holl weithrediadau goruchel cyfryngol Crist, fel y perthyna i'n hiachawdwriaeth ni, ddim amgen na chynnifer o wag-nodau (*cyphers,*) a'n credu ni yw y rhif-nod blaenddedol a

wna y cysfan i fod o werth ! Beth yw hyn, ond priodoli ein cyf-iawnhad i ffydd, fel yr hyn a'n cyfansodda ni yn gyfiawn, ar ammodau esmwythach nag ufudd-dod perffaith y gyfraith ?

Mewn gwrthwynebiad i'r athrawiaeth hon, yr holl Brots-taniaid iawn-ffyddiog a ddaliasant y cyfawnheir etholedigion Duw yn unig trwy ufudd-dod yr Arglwydd Crist, ac mai, hyn yw yr unig beth a gyfansodda bechadur yn gyfiawn y'ngolwg yr Arglwydd. Hwy a ddaliasant yn wastad ddarfod i Iesu Grist, fel cynnrychiolydd a machniydd ei ddewisedigion, foddloni cyfawnder dwyfol, ac ufudd-hau i'r ddeddf sanctaidd drostynt hwy, ac yn eu lle ; ac mai nid eu credu hwy, ond ei gyfawnder gogoneddusaf ef yn gyfrifedig a throsglwyddedig iddynt hwy, yw y gwir beth a'u cyfansodda hwynt yn gyfiawn. Hwy a ddaliasant hefyd y cyfawnheir pobl Dduw trwy ffydd, nid fel yr achos caffaeledigol o gyfawnder, ond yn unig fel yr offeryn trwy yr hwn y derbynir cyfawnder Crist ; fel mae nid y weithred o gredu, ond y peth a gredir, a gyfrifir yn gyfawnder i'r ffyddloniaid. Bod y rhai hyn yn eiriau iawnffyddiog ac iachus, a ymddengys oddiwrth yr ystyriaethau canlynol.

1. Ni foddlonir deddf sanctaidd Duw a dim yn fyr o ufudd-dod perffaith, a hyn raid gael, naill ai yn ein personau ni ein hunain, neu yn Mherson y Meichiau mawr, os byth y cyfawnheir ni. Yn awr, pe cyfrifid ffydd ei hun i ni yn gyfawnder, ufudd-dod diffuanta dderbynid yn lle ufudd-dod perffaith ; ac fel hyn y gyfraith sanctaidd, yn lle cael ei chyflawni, a ddistrywid. Yr hwn, gan hyny, sy'n dysgu y cyfrifir ein ffydd ni yn gyfawnder, a geisia sefydlu Antinomiaeth o'r natur fwyaf peryglus. Ni ddaeth Crist i ddistrywio y gyfraith, nac i'w hamddifadu o'i gofyniadau cyfawn, ond i'w chyflawni, fel cynnrychiolwr ei ddewisedigion : ac yn iachawdwriaeth ei holl waredigion, y gyfraith y'mhob ystyr a anrhymeddwyd, ei gofyniadau a foddlonwyd yn llwyr, ac yn helaethrwydd mwyaf ei heangder hi a gyflawnwyd.

2. Yr Arglwydd Crist, trwy ei ufudd-dod a'i waed, naill ai efe a foddlonodd y gyfraith tros ei bobl, ai ni wnaeth. Os gwnaeth, yna, rhaid y canlyn o angenrheirwydd, mai ei ufudd-dod ef yn unig yw defnydd eu cyfawnhad ; neu, mewn geiriau eraill, y gwir beth yw ag e'u gwna hwynt yn gyfiawn. Os ni wnaeth, yna, ni ddichon eu hufudd-dod hwy eu hunain i'r efengyl, neu eu credu, byth eu gwneuthur yn gyfiawn, o acho'r arddelwa y gyfraith ufudd-dod holol berffaith a dibechod o hyd, ac nis gellir ei boddoni nes cael hyn.

3. Tystia yr Ysgrythur yn eglur, mai cyflawnder y credad-yn yw yr Arglwydd Iesu ei hun. "A hyn fydd ei enw, ar yr hwn y gelwir ef, *Yr Arglwydd ein cyflawnder.*"\* Yr awr, os Grist ei hun yw ein cyflawnder ni yn bennodol, ni ddichon bod y weithred o gredu yn gyflawnder.

4. Pe y weithred o gredu fyddai ein cyflawnder, yna gwir natur ffydd a ddistrywid. Gorchwyl ffydd yw edrych am gyflawnder, nid ynddi ei hun, ond mewn un arall; ac y mae yn gynnwysedig mewn derbyniad noeth o'r Arglwydd Crist. "Fy ngwas cyflawn a gyflawnhau lawer trwy ei wybodaeth; canys efe a ddwg eu hanwiredau hwynt."

5. Mae gair Duw yn gwahaniaethu yn eglur rhwng y cyflawnder trwy yr hwn y cyflawnheir y pechadur, a'r ffydd trwy yr hon y derbynir y cyflawnder hwnnw. "Canys nid oes arnas gywilydd o esengyl Crist, canys ynddi hi y datguddir cyflawnder Duw o ffydd i ffydd."† "A pha ham, ebai ysgrifenydd dysgedig a doeth, y gelwir ef yn gyflawnder Duw? O achos bod cyflawnder dyn yn annigonnol. A pha ham yn gyflawnder datgaddiedig, onid o achos ei fod yn eiddo arall? Canys yr eiddom ni sydd hysbys wrth natur, ac ni ddywedir byth ei ddatguddio. Ond y mae y cyflawnder nefol hyn uwchlawsynwyr a rheswm; ac am hynny, os nis datguddir ef, dadleua dynion bob amser yn ei erbyn. A pha ham wedi ei ddatguddio i ffydd, o un gradd o ffydd i radd arall? Nid amgen o achos mai nid ffydd ei hun, nac un weithred arall pa bynag, yw yr hyn sydd yn cyflawnhau; ac nis gall un peth arall ychwaith ei dderbyn i mewn, nac ymgysylltu ag ef, ond ffydd."‡ Fel hyn, ymddengys mai nid y gwir beth ag sy'n cysfansoddi y credadyn yn gyflawn, yw unrhyw sancteiddrwydd tufewnol, o'r hwn y mae ef yn ddeiliad, nac unrhyw weithredoedd o'i eiddo ei hun, naill a'i deddfod ai esengylaidd, pa un bynag ai wedi eu cyflawni trwy gynnorthwy gras dwfol, neu yn ei nerth ei hun; ond yr hyn a wna bechadur yn gyflawn, yw gwaith Crist ar ei ben ei hun, gorhenedig ar y groes, cyfrifedig i bawb tros y rhai y cyflawnwyd ef, a derbyniedig trwy ffydd yn unig. Dyma erthygl fawr Cristionogaeth, gogoniant yr esengyl, a sylfaen Seion ei hun.§ Ac ymadawiad oddiwrth hyn, yw y gwrthgiliad arbenig y dywedir am dan o mor synych yn y Testament Newydd, o'r lle y cyfoda holl ffieidd-draoedd Pabyddiaeth; a'r eglwys hono, o ba enwad

\*Jer. xxxiii. 6.    †Rhuf. i. 17.    § Beart's Eternal Law, &c. part 1, chap. v.  
  ¶ Esa. liv. 14.

bynag b'o, a ymadawo oddiwrth yr egwyddor sylfaenol hon sydd anghristaidd y'ngolwg Duw.

Mi osodais yn awr ger eich bron yr hyn sydd genyf i'w ddwyn y'mlaen yn brawf o'r cyhuddiadau trymion a osodais yn erbyn egwyddorion Mr. Fuller, yn nechreu y llythyr hwn; sef eu bod yn ddinystriol agos o'r holl athrawiaethau mawrion cyssylltiedig a phrynedigaeth trwy waed Iesu. Er gwyneb-degwch a golygusrwydd ei syniadau, maent yn agored i ddadym-chweliad hawdd a buddugoliaethus, o achos eu gwrthwynebiad nodedig i air Duw. Hwy a gynnwysant yr hyn oll ag sydd wenwynig mewn prynedigaeth gyffredinol, heb yr unrhyw ymddangosiad ynhaliaeth o'r Yscgrythyrau; ac nid anhawdd a syddai dangos eu cyd-darawiad nodedig ag athrawiaeth yr Eglwys Gatholig Rufeinaidd ar y pyngciau o gyfawnhad, gras, a'r iawn. Yn wir, y mae i'w ofni yn fawr bod gwir enaid pabyddiaeth, yn y rhanau mwyaf coethiedig a thwylodrus o honi, yn blodeuo yn ein plith, fel ag nad oes achos yn hwy i ni ryfeddu at yr adfeiliad mawr o dduwioldeb bywiol ag a ffyna y'mhob lle, at y golled o ffydd, a chariad, nag at y cyfrwysdra cnawdol, y bydol-frydigrwydd, y broffes farw, ag sydd ry weledig yn yr eglwysi. Y'mha le bynag y rhoddir i fynu yr athrawiaeth o gyfiawnder cyfrifol, neu y delir i fynu yn unig mewn enw, yno Crist a berchir yn ysgafn, a theilyngdod dynol a saif yn ddyrchafedig; yno proffes fyddol a lwydda, ac yno yr ymddengys egwyddorion ac ymarferiadau anghistaidd. A pha beth yw pabyddiaeth, onid proffes a Gristionogrwydd wedi ei haddasu at helynt y byd hwn?

Yn fy llythyr nesaf mi a ddilynaf y pwnc hwn yn fwy cyflawn, yn yr hwn yr ymdrechaf olrhain gweithrediad syniadau Mr. Fuller, a dangos eu heffeithiau fel yr eglurir trwy siampl galarus o adfeiliad gwir sancteiddrwydd yn oin henwad ni. Gyda'r llythyr hwnnw gorphenaf yr hyn oll sydd genyf i'w osod at eich ystyriaeth yn y ddadl dra phwysig hon.

## LLYTHYR IV.

GWIRIONEDD dwyfol, pan ei derbynir yn galonog, bob amser a ddyga effeithiau cyfattebol i'w natur ei hun. Nid oes un dyn a welodd y gogoniant dwyfol, yn disgleirio yn iawn Crist, ac a gafodd iachawdwriaeth ynddo, a dichon, mewn un modd, yn ei gymmeriad ei hun, a'i ymddygiad arferol, ddangos arglywyddiaeth egwyddorion ag ydynt holol groes i'r esengyl a dderbyniodd. Mae yn anmhosibl i wir gredadyn fod yn anghyfawn, o achos gweled o hono y'nghroes Crist, y cyfryw arddangosiad o gyfiawnder dwyfol, ag a gyfnewidiodd ei feddwl i'r unrhyw ddelw. Ni ddichon y cyfryw un fod yn ddyn annhrugarog, neu anghymmodlon, o achos iddo weled yn yr iawn, arddangosiad mwyaf o dosturi dwyfol tuag at ei enaid euog; ac yn gyfattebol ag y llywodraethir ef a'r datguddiad hwn, y bydd ef yn addfwyn, ac a galon dyner tuag at eraill, yn barod i faddeu tramgyddiadau; fel ag y maddeuodd Duw er mwyn Crist iddo yntau. Ni ddichon y gwir Gristion fod yn ddyn twyllodrus, neu gelwyddog, o achos yr effeithiwyd yn ddwfn ar ei feddwl gan gymmeriad y Jehovah, fel yr ymddengys yn nghynllun mawr yr iachawdwriaeth; efe a ddysgwyd i fawrygu gwirionedd a ffyddlondeb Duw, ei waredwr, ac mewn rhyw fesur efe a ddengys allan yr unrhyw gymmeriad, yn gydweddol a'r cyngor apostolaidd, "Byddwch ddilynwyr (neu efelychwyr) Duw, fel plant anwyl." Mewn gair, ni ddichon credadyn yn Nghrist, fyw dan arglywyddiaeth, pechod, canys megis ag y gwna y sel ei hargraphiad ei hun ar y cwyr toddedig, felly y gwna y gwirionedd dwyfol, yn llaw yr Yspryd, ar feddwl y pechadur, pryd y meddalir ei galon a thoddiadau gras dwyfol: "eithr chwi a ufuddhasoch o'r galon i'r ffurf o athrawiaeth, εἰς οὐ παρεδοθμέτε, i'r hon y traddodwyd chwi."\*

O bob pechod rhysygus y gellir cyhuddo pobl grefyddol o honi, yn y dydd gwenfflam hwn o broffesu, nid oes un mwy arswydus na'u cyhuddiad o athrawiaeth gras a thuedd ynddi i

benrhuddid. Haeru bod y gwirioneddau o etholediaeth dragwyddol, cyfawnhad rhad, cyfawnder cyfrifol, prynedig-aeth, effeithiol, gras anorchfygol, mewn adgenhedliad, yn tywys i esgeulusdra a buchedd annuwiol, ydyw pechu a llaw uchel iawn yn wir. Pa mor ddiffaith bynag y dichon fod egwyddorion llibyn y Saduceaid, neu ymarfeiaadau ffiadd publicanod a phutteiniaid, rhagorir ar anwired y rhai hyn y'mhell gan ddrygioni ysbrydol personau hunan-gyfawn, y rhai a amlygant elyniaeth eu calonau yn erbyn gras pen-arglwyddiaethol, mewn cyffelyb fodd i'r rhai y cyfeiria yr apostol attynt, yn Rhuf. iii. 8.; "Fe'n ceblier ni, a dywed rhai ein bod yn dywedyd, Gwnawn ddrwg, fel y del daioni; y rhai y mae eu damnedigaeth yn gyfawn." Y cabledd anghyfawn hwn ar wirioneddau neillduol yr efengyl, ni chyfyngir i'r gwrthwynebwyr cyhoedd o honynt. Mae llawer ag a broffesant ymlyniad wrth athriliaethau gras pen-arglwyddiaethol, na feiddiant eu gosod allan yn gyflawn ac ar gyhoedd, rhag i ganlyniadau niweidol gymmeryd lle. Os haerant hwynt oll, y mae mewn modd mor wagelog ag sy'n bradychu eu drwg-dybriaeth dirgelaidd bod y cyfryw athrawiaethau yn niweidiol yn eu tueddrwydd, Ond os y gwyr doethion hyn, ag ydynt mor ochelgar yn gwarchawd yr efengyl, a gredant mewn gwirionedd bod cyhoeddiad amlwg o athrawiaethau yr efengyl yn beryglus, pa ham y profesarant hwy ymlyniad wrthynt? Pa ham na ymwrthodant a hwynt? Yn ddiau yr athrawiaethau ag sydd ofynol eu gwarchawd fel hyn, ydynt ynddynt eu hunain yn ddrygionus, ae yn annichon eu bod o Dduw!

Ni ymddygodd yr apostolion, pa fod bynag, fel hyn ag efengyl Crist, na gweithredu mor dwyllodrus. Wedi derbyn trugaredd, hwy a ymwrthodasant a chuddiedig bethau cywillydd, a thrwy eglurhad o'r gwirionedd canmolasant eu hunain wrth bob cydwybod dyn. Hwy a arddangosent wirioneddau Duw bob amser yn sanctaidd yn eu natur, ac yn sanctaidd yn eu heffeithiau. Yr holl wirioneddau hyn, y nghyfrif yr apostolion, a osodant allan ogoiant Iesu, ac o ganlyniad a gynnysgaeddant ddadl dros sancteiddrwydd cyffredinol. "Eithr nyni oll ag wyneb agored, yn edrych ar ogoiant yr Arglwydd megis mewn drych, a newidir i'r unrhyw ddelw."\*

Ond megis ag y dwg y gwirionedd bob amser effeithiau cyfattebol i'w natur ei hun, felly hefyd y gwna cyfeiliornad: ac megis mai ffrwyth y cyntaf **yw** sancteiddrwydd, effaith yr

\*2 Cor. iii. 18.

olaf yw anghyfiawnder. Oddiyma y cyferbynia yr apostol y gwirionedd, nid yn unig a chyfeiliornad, ond ag anghyfiawnder; "Nid yw cariad lawen am anghyfiawnder, ond cyd-lawenhau y mae a'r gwirionedd :"<sup>\*</sup> canys y mae gwyro oddiwrth y gwirionedd, ynddo ei hun, yn anghyfiawnder. Llywodraeth dinystriol cyfeiliornad ar ymddygiad ei bleidwyr a ymddengys yn amgylchiad y Phariseaid gynt, y rhai a osodir allan fel siampl o'r gwrthwynebiad chwerw hwnw a amliga yr hunaingyfiawn y'mbob oes yn erbyn rhad a phen-arglwyddiaethol ras Duw. Ymddengys hefyd yn nodweddiad yr athrawon deddfol a aflonyddasant y prif eglwysi; ac yn ganlynol, yn yr effeithiau a gynnyrchiwyd drwy y gwrthgiliad mawr hwnw, a rag-fynegwyd mor fynych yn y Testament Newydd, yr hyn a ddechreuodd mewn ymadawiaid oddiwrth y ffydd. 1. Tim. iv. 1. Ond megis y cynnyrchia egwyddorion cyfeiliornus ffrwythau ansanctaidd lle bynag y ffynant, felly dylanwad y gau-athrawiaeth y sylwyd arni yn y llythyrau blaenorol a ellir ganfod yn eglur yn eglwysi y Bedyddwyr y dydd hwn. Ni all fod un peth yn fwy cymhwysiadol at ein cyflwr ni na geiriau y rhagorol Dr. Owen, pan yn galaru dros adfeiliad sancteiddiad esengylaidd yn ei amser ef. Gan gyfeirio yn ddiamheu at ddylanwad syniadau Mr. Baxter, efe a ddywed, "Ychydig a feddyliais i y cawsن byth fyw yn y byd hwn i weled meddyliau proffeswyr wedi tyfu i fynu yn gyfangwbl ddifatter am etholedigaeth dragwyddol Duw, effeithioldeb pen-arglwyddiaeth gras y'nchweliad pechaduriaid, cyfiawnhad drwy gyfrifiad o gyfiawnder Crist; ond y mae llawer, o ran y pethau hyn, wedi tyfu i fynu i'r fath glaiarineb, fel na wyddant a ydynt hwy felly ai peidio. Yr wyf yn bendithio Duw y gwn rywbeth am y genhedlaeth flaenorol, pan na synai proffeswyr glywed am y pethau hyn ond gyda'r ffieiddiad mwyaf: ac yn awr proffeswyr enwog a ddechreuant fod yn flaenoriaid ynddo, ac y mae yn ormodol y'mhlith y goreu o honom. Nid ydym yn gofalu cymaint dros y gwirionedd a'n hynafiaid: dymunwn allu dywedyd ein bod mor sanctaidd." Fel hyn y galara y sant godidog hwn dros yr adfeiliad ysprydol a ddechreuodd ymdangos y'mhlith eglwysi Bedyddwyr Babanod yn ei amser ef; ond pe buasai fyw y dydd hwn, a phe bwriadasaï gyferbynu y rhai presennol ag eglwysi blaenorol y Bedyddwyr, ni allasai ddefnyddio iaith mwy priodol nag a wnaeth, yn yr annogaeth ganlynol; "Bydded i ni yn ofalus adgofio ffydd y rhai a aeth-

\* 1 Cor. xiii. 6.

ant o'n blaen yn y deyrnas hon, yn mhroffes yr oes ddiweddaf. Ac, attolwg, o ba ffydd yr oeddynt hwy? A oeddynt hwy yn hanner Arminaidd ac yn hanner Sosinaidd? A oeddynt hwy yn hanner Pabaidd ac yn hanner na wn i pa beth? Cofiwch mor selog oeddynt hwy dros y gwirionedd; pa mor leied y cyd-ddygasai eu heneidiau sanctaidd hwy a'r gwrthgiliadau cyhoeddus hyny oddiwrth y gwirionedd, y rhai a welwn ac nid ydym yn galaru drostynt, ond a wnaeon o ddim pwys yn y dyddiau yr y'm ni yn byw ynddynt. Yr oedd Duw gyda hwynt, ac yr oeddynt hwy yn byw i'w ogoniant ef, ac a fuant farw mewn heddwch, ffydd y rhai dilynwch, a siAMPL y rhai gwnewch ar ei hol, a chofiwch y ffydd y buant hwy bwy a marw ynddi. Edrychwrh o amgylch ogylch, a gwelwrh pa un a gynnyrchiodd neb o'r credau newyddion sancteiddrwydd newydd yn rhagori ar yr eiddynt hwy."\*

Y canlyniadau dinystriol o'r fath ymadawiad oddiwrth y gwirionedd ag y cyhuddir eglwysi y Bedyddwyr yn gyffredin o hono, a ellir ganfod yn yr amgylchiadau canlynol:

**YN GYNTAF.** Math o anghywirdeb a rhagrith neil duol sy'n cydfyned, yn gyffredin a derbyniad a phregethiad o esengyl wyrdraws. Symlrwydd yw nod y gwirionedd, cyfrwysdra ac ymddirwyn torchog a wasanaethant ar anwiredd. Megis mewn pethau naturiol, yr hwn fyddo euog o un anwiredd, rhaid iddo ddyfeisio llawer o gelwyddau i guddio yr un hwnw; felly mewn pethau ysbrydol, ymadawiad oddiwrth y symlrwydd sydd yn Nghrist, sydd wedi ei nodi ag ysdod o ddichell a thwyll. Sicrhaein Harglwydd i ni mai lefain, hyny yw athrawiaeth y Pharisaeid, yw *rhagrith*.† a'i apostolion ffyddlon a gyfenwant yr athrawon deddfol yn gau-apostolian, gweithwyr twyllodrus.‡ Rhagrith ac awdurdod anghyfiawn yw gwir gynhaliaeth cyfeiliornad ac anghrist, fel ag y gosodir allan allu a gras yr Iesu yn ngwaredigaeth eneidiad ei saint "oddiwrth dwyll a thrawsder."§

Ond yr ysbryd rhagrithiol hwn a ymddangosodd yn weladwy yn ymddygiad llawer, y gallesid disgwyl gwell pethau oddiwrthynt. Tuedd i guddio eu gwir syniadau, yn enwedig ar y cyfrwy amserau ag nad yw yn gwasnaethu eu diben hwy i'w dwyn y'mlaen, a proffes o ymlyniad wrth athrawiaethau nadderbyniant monynt yn galonog a ellir sylwi arno mewn am-

\*Dr. Owen's Sermons, fol. 1721. Perilous times, p. 114, 115. Y Bregeth hon ar 2 Tim. iii. 1. sydd draethawd o'r difrifolaf a mwyaf manwl, ac yn llwyk deillwng o ystyriaeth dwys y darllenyydd.

†Luc. xi. 1. ‡Cor. xi. 13. §Psalms lxxii. 4.

ryw o'r rhai a lyngcasant syniadau Mr. Fuller. Hwy a broffesant ddal yn ddihalog yr athrawiaethau o etholedigaeth dragwyddol a phersonol, cyfiawnhad rhad, a gras effeithiol mewn adgenhedliad ; etto, yn eu traethiadau cyhoeddus, anfynych iawn y dygir y'mlaen y pyngciahau pwysfawr hyn, neu os crybwylir hwynt yn achlysurol, er mewn cymmeriad unaiwn-gred, hyny a wneir yn y fath fodd ag a ddengys nad yw y pregethwr yn derbyn y gwirioneddau hyn yn wresog, nac yn eu cymmeradwyo hwynt yn galonog. Y cyfryw bersonau a a wyddant yn dda pa ffordd y rhed y ffrwd o gymmeradwyaeth poblogaidd ; a thra y dygant gasineb gwreiddiedig tuag at dyst gonest dros yr athrawiaethau a addefant hwy eu hunain, medrant gefnogi yn gyhoeddus elynion proffesedig gras pen-arglwyddiaethol etholedigol. Tynnodd y rhagorol a'r doeth Mr. Brine ddarlun mor fywiog a ffyddlon o'r cyfryw bersonau, fel y teimlaf agos yn ddyleswydd arnaf ddifynu ei eiriau.

" Mae gelynion dirgeledig y gwirionedd Dwyfol yn lliosog, oddiwrth y rhai y cyfyd llawer o brofedigaethau. Anfynych iawn y mae dynion o'r cymmeriad yma yn agored a rhydd i ddatgan eu syniadau. Dewisant orwedd yn guddiedig mewn perthynas i'w tybiadau eu hunain, hyd y cyfryw amser ag y byddont hwy wedi ymlusgo eu hunain i mewn i dyb dda y rhai y maent hwy yn bwriadu eu dwyn dosodd i'w syniadau eu hunain. A phur wyliadwrrus ydynt am bob cyfleusdra a mantaïs a gynnygia, ag fyddo ffafriol i'w hamcan hwy, ac ni phallant ychwaith wellhau y cyfleusdra hyd yr eithaf. Fe allai bod rhai yn eu cynnulleidfa oedd yn credu yn gadarn yr athrawiaethau nad oes ganddynt hwy un blas arnynt, ac am hyny, ni feiddiant ar unwaith, ac mewn modd eglur, eu gwadu ; ond drwy hir ddistawrwydd yn eu cylch, ac yn awr ac eilwaith ddwyn y'mlaen egwyddorion anghyson a hwy, hwynthwy yn ddiarwybod a'u defnynant i mewn i feddyliau eu gwrandawyr, ac a'u tynnant ymaith oddiwrth y parch ag a dalasant unwaith i'r egwyddorion eraill hyny. Mae yn dra galarus meddwl pa ddylanwad a gofodd y cyfryw ymddygiad, ac a ga etto mewn llawer lle, agos i mi ddywedyd, er dadymchweliad hollol o Gristionogaeth. Ac mewn manau eraill, y fath ymddygiad a hwn sydd bur debygol o ddwyn yr un effeithiau dychrynllyd. Bydded i'r Arglwydd daionus gymmeryd trugaredd ar ei eg-lwysi, a'u cadw rhag eu hudo gan y dynion hyn, sy'n cynllwyn i dwyllo. Os ni chynhyrfir Cristionogion i wyliadwriaeth yn eu herbyn, drwy eu gweniethiad a'u deheurwydd, o'r hyn y

maent yn feistriaid perffaith, hwy a fyddant mewn preygl mawr o gael eu tynnu o'r neilldu. Canys y mae y dynion hyn wedi eu haddasu *yn ddigonol* i'r cyfryw *angwasanaeth* a hwnw i eglwys Dduw, i'r hyn beth y maent wedi cyssegru eu hunain, ac at yr hyn y cefeiriant eu holl fyfyrddodau.

“ Y fath hyn o bersonau a areithiant lawer yn fynych yn erbyn dadlyddiaeth grefyddol, ac yn erbyn dal ar bynigcau dadleuedig, o achos, fel y gwelant hwy yn dda ddywedyd, y tuenda hyny lenwi penau dynion a manyliadau, a thybiadau meddyliadol, nad oes nemmawr o ddylanwad ynddynt ar eu bucheddau i'w gwneuthur yn well ; ac mai gwell yn ddiamheu yw ymddiddan ar byngciau eglur ymarferol, y rhai a ystyrir yn dwyn y'mlaen sancteiddrwydd. Drwy y moddion hyn dygant eu gwrandawwyd i ymfoddloni bod heb draethiadau ar wirioneddau pwysfawr yr efengyl, y rhai ydynt oll yn byngciau dadleuedig, nes o'r diwedd y deuant yn ddiofal yn eu cylch, ac wedi eu rhagfarnu yn fawr yn eu herblyn.

“ Yna, wedi dyfod yr amser cyfaddas iddynt hwy fod yn *amlwg* ac yn *rhydd*, taflant ymaith yr hug, a gallant feiddio myned ar areith-fwrdd y ddadl, ac a dyrnodiau diymarbed gwrthwynebant yr athrawiaethau ni credasent erioed, ond hyd yn awr oedd ynt osgoilyd i hyny fod yn adnabyddus. Yn awr deuant yn amddiffynwyr selog o'r egwyddorion, y rhai cyn hyn yn unig a hustyngent yn ddistaw y'nghlustiau rhyw rai o'u cyfeillion ffyddlon. Yn eu llwyddiant hwn yr ymogoneddant, megis pe buasai yn orchestwaith anrhyydeddus. Disgwylent am eu gwobr oddiwrtho ef, gweision yr hwn y cymmerant arnynt fod.”\*

YN AIL. Tueddrwydd union-gyrchol efengyl “ ie a nage ” yw cynnyrchio proffes iydol o Gristionogrwydd. Pob cynnygiad at wneuthur yr efengyl yn fwy derbynol gan ddynion, drwy ystwytho i lawr unrhyw o'i hathrawiaethau tramgwyddedig, sydd ynddo ei hun weithred o gyd-ymffurfiad a'r byd yn y ffurf gwaethaf oll. Gorchymyn Duw ydyw, “ dychwelant hwy attat ti, ond na ddychwel di attynt hwy.”† Tramgwydd y groes ni all beidio byth yn y byd hwn, ond trwy lygredigaeth yr athrawiaethau o honi ; a lle bynag yr hanfoda y cyfryw lygredigaeth, cyd-ymffurfiad a'r byd mewn pethau eraill a ffyna yn gyfattebol. “ Gwir Gristionogrwydd, fel y sylwodd un ysgrifenydd deallgar, sydd dramgwydd ar archwaeth y cyffredin ; ie, y rhan fwyaf cymmeradwy o'r cyffredin, a hyny yn y

\* Treatise on various subjects, 8vo. 1756, p. 324. † Jas. xxv. 19.

pethau pwysicaf. Hyn, mae yn eglur, raid fod yr amgylchiad bob amser, cyhyd ag y byddo yr hyn a berchir yn uchel gyda dynion yn ffieidd-dra y'ngolwg Duw.”\* Tra cadwo eglwys Crist air ei amynedd ef, a dal allan yn ffyddlon athrawiaethau y groes, cyferfydd a gwaradwydd digonol oddiwrth y byd i egluro y geiriau diddanus hyn, “Os ydym yn cyd-ddioddef gydag ef, fel y'n cyd-ogonedder hefyd.”†

Eithr os gwir yw, yr erlidir pawb a'r sydd yn ewyllsisio byw yn dduwiol yn Nghrist Iesu, beth rhaid i ni feddwl o gab-ledd Mr. Fuller ar eglwysi hynaf a Bedyddwyr, gan eu cymharu i dommen ddrewedig mewn cymdeithas? Cerydd fel hyn a fydd o bwys gyda y rhai hyn yn unig na adwaenant natur teyrnas yr Iesu. Y cyfryw gabl, mewn gwirionedd, canmoliaeth yw: hi a fwriadwyd, mae'n wir, i fod yn ffeilidh, ond Duw a'i troes yn ffeilidh. Os oedd yr hen eglwysi yn ddirmygedig, hwy a gawsant gymdeithas a'u Harglwydd yn ei ddioddefiadau; a'r gobaith gorfoleddus o deyrnasu gydag ef yn y diwedd, a'u cymmeithodd hwynt i ymwrthod gydag at-gasrwydd yr unig ffordd o ddiangc tramwydd y groes, sef gadael heibio amdiffyn y gwirionedd. Ni phrawf yr ychydig bachigyn gwaradwydd cyd-fynedol a'n proffes ni yn awr, bod y byd yn fwy tueddol at Grist nag oedd, ond yn hytrach bod ein proffes ni yn ddifywyd, a'n bod wedi cyd-ymffurfio a'r byd. Ped ymddangosai apostol ysprydoledig oddiwrth y meirw yn ein plith, efe a floeddiai allan yn erbyn rhai o'u gweinidegion mwyaf poblogaidd, a'n heglwysi mwyaf parchedig; “Chwi odinobwyr a godineb-wragedd, oni wyddoch chwi fod cyfeillach y byd yn elyniaeth i Dduw?”

Ond megis ag mewn darfodedigaeth corphorol y boddha y dioddefydd ei hun yn fynych a disgwyliadau gweniethiol, heb fod yn deimladwy o'i wir berygl, felly y mae mewn adfeiliad ysbrydol. Ymdaenodd penllwydni yma ac aew arnom, etto ni's gwyddom, ac ni chredwn hyn. Mae yn arwydd sicr o gyflwr Laodiceaidd pan y siaradwn fwy am yr hwn a wnaethom ni dros Dduw, nag am yr hyn a wnaeth Duw drosom ni; a phan berchenegir ein meddyliau yn hytrach a'n hymdreichiadau ardderchog ein hunain i ledanu teyrnas Crist, nag a'i Berson a'i waith gogoneddusaf ef. Nyni a freuddwydiwn ein bod yn gyfoethog ac wedi cynnyddu mewn meddiannau, ond ni's gwyddom ein bod yn dlawd ac yn druenus. Y'mha gynnifer o amgylchiadau yr ymfalchiwn o'n parchedigrwydd,

\*Letters on Theron and Aspasio, preface to 2nd edition. †Rhuf. viii. 17.

ein cyfoeth, ein llywodraeth, ac o'r pethau mawrion a gyflawnasom dros yr Arglwydd mewn ymdrechiadau cennadwriaethol? Pa mor fynych y datgenir oddiar yr areith-fwrdd, neu o'r pwlpud, mai cysgu yr oedd ein hynafiaid; a bod eu sel gennadwriaethol hwynt yn ddirmygedig mewn cymhariaeth i'r eiddom ni; ac na bu erioed y fath ddydd o weithrediadau rhyfeddol a'r dydd presennol? Ond pwy yn gwybod beth yw prif Gristionogrwydd, ni all ganfod adfeiliad dychrynllyd o ysbrydolrwydd yn ein plith? Pwy wedi ei ddysgu gan Dduw, ni wel fod ein sel fflamllyd yn cydweddu yn perflaith a. gwrthwynebiad i gyflawnader Duw, a phen-arglwyddiaeth ei ras?

Os ymofnir y'mha beth y cynnwysir y broffes fyadol hono, o Gristionogrwydd a ledanodd ffyniant egwyddorion Mr. Fuller yn ein plith, rhoddir attebiad yn y gwireddau canlynol.

1. Gwirioneddau gwerthfawr yr efengyl, un waith gogoniant ein heglwys, a'r rhai a wnant y proffeswyr o honynt yn ogored bob amser i waradwydd, yn bur anfynych a glywir yn ein plith. Ymrwymiadau cysfammodol, addewidion gwerthfawr, etholedigaeth dragwyddol, cariad anghyfnewidiol, maddeuant rhad, a chyflawnhad cyflawn, ydynt byngciau yn anaml y sefir drostynt. Yr ydym o hyd yn proffesu y pethau hyn yn ein llythyrau cylchynol, ond pregethiad cyhoeddus o honynt ni fernir mewn un modd yn angenrheidiol, ac fel y tybir, ni all ateb un diben arall heblaw anghefnogi crefydd ymarferol, a'n dwyn ninau i anfri. Yn lle y gwirioneddau gogoneddus hyny y rhoes yr apostol Paul i ni gofres o honynt, yn yr Ephesiaid, y bennod i. a'r ii., fel yn cyfansoddi sylwedd ei pregethiad ei hun; -duwioldeb dynol, teilygdod dynol, mawredd dynol, a llywodraeth ddynol a saif yn ddyrchafedig, fel ag y tywyllir gogoniant Crist yn ein plith. Mae'n brawf nid bychan i ni ymadael a'n cariad cyntaf, pan y cynnyddwn mewn oerfelgarwch at athrawiaethau gras, a phan feddianna rhagoriaeth dynol le mor uchel yn ein cyfrifiad. Ac y mae yn nodedig bod ein tan cennadwriaethol ei hun o'r fath natur ag i'w ddiffoddi, yn hytrach na'i gynnyddu, drwy gyhoeddiad rhydd o'r gwirioneddau anfarwol hyny, ag ydynt gyssylltiadig ag anrheddedd Duw, ac yn gosod allan ogoiant yr Iesu.

2. Gydag ymadawiad mor gyffredinol oddiwrth y gwirionedd, nid rhyfedd bod achos i alaru o herwydd prinder gweinidogaeth chwiliadol a ffyddlon yn ein plith, a gofisio oblegid ffyniant gweinidogaeth gysaddasol, didramgwydd i'r byd ac i'r meddwl cnawdol. Mae cyflwr llawer o'n heglwys yn wir

druenus ; yn lle eu porti o bryd i bryd ag iawn-ffyddio ac iachus eiriau, yn cael eu hannog i wrando traethiadau egwan, di-eneiniad, di-archwaeth. Rhai o'n pregethwyr, gan ddirmygu symlrwyddd mawreddog yr Yrgrythur, a efelychant iaith philosophyddiaeth fyddol. Eraill a draddodant areithiau ychydig well na thraethodau moesol. Rhai o'r rhywogaeth mwyaf poblogaidd, gyda llawer o stwr a baldrodd, a osodant allan eu galluoedd fel pe byddent ar chwareu-lofft, ac a chwyddedig-eiriau gorwagedd, pregethant eu hunain, ac nid Crist Iesu yr Arglwydd. Eraill ydynt mor wagelog a dichellgar, ac mor ofalus rhag rhoddi tramgwydd, fel ag y mae yn anhawdd dywedyd beth yw eu gwir syniadau. Ond ychydig, mewn cymhariaeth, o'r dynion ffyddlon hynny sydd i'w cael yn awr, unig amcan y rhai yw dyrchafu Crist, a gosod y pechadur yn isel ; y rhai a arswydant gyssylltu eu lleshad bydol eu hunain ag achos Crist ; a rhai a dioddefent yn hytrach golli pob manteision tymmorol, na chadw yn ol wirioneddau dirmygedig yr efengyl. Bydolrwydd yspryd yw ein gwir ddistryw. Casineb at ddwyn y groes, penderfyniad i ochelyd cystuddiau yr efengyl, yw un prif achos o'r llygredigaethau athrawiaethol, ag sydd wedi llwyddo yn ein plith ;\* a Duw a ymwebdd a'r pechad hwn arnom, drwy ein rhoddi i fynu i fyw o gydymffurfriad bydol ac i ychwaneg o anwiredd, fel ag y mae genym bob rheswm i ofni y symmudir ein canwyllbren yn fuan yn holol, onid edifarhawn.

3. Ymddengys y broffes ddifywyd hon, y'mhellach, yn nghyfansoddiad ein eglwysi. Ni ddodwn y pwys a ddylem ar *adgenhedliad*, fel yn anhebgorol angenreidiol i gymmundeby saint. Personau o *dueddiad disrifol*, a'u cymmeriad moesol yn dda, yn enwedig os bydd ef yn selog yn yr achos cenadwriaethol, ac yn meddu tyb uchel am eu gweinidog, a fernir yn ddeiliaid pur addas i'r gymdeithas ; heb nemawr o ymosyniad pa un a ydynt hwy yn farw i'r ddeddf, ac yn feddianol ar ffydd fywiog yn yr Iesu, neu pa un a ddygwyd hwynt erioed fel pechaduriaid colledig, trwy yr Yspryd Glan, at waed y tanelliad. Yn y dull yma yr arweinir personau cnawdol i mewn i eglwys Dduw, ac yn y ffordd hon yr attebir dyfais Satan o gyssylltu yr eglwys a'r byd a'u gilydd. Yna y cyflawnir amcanion y gwrthwynebwr mawr, pan gymmellir personau cnawdol, adnewyddol, i broffesu Cristionogrwydd, a

Cymharweh Gal. v. 11. a vi. 12. lle caiff y darllenydd weithrediad o'r unrhyw egwyddor yn y brif eglwys.

phan y llygrir y gwirionedd i'w gyfaddasu at eu golygiadau cnawdol hwy.

Yr un diystyrwch o'r Ysgrythur a ymddengys mewn cyfeiriad at bechoda'u. Ni a farnwn y rhai hyn, nid gymaint yn ol gair Duw, ag wrth rēol parchedigrwydd y'mhlith dynion. O hyn y sylwir ar bechoda'u cableddus ac anfoesoldeb cyhoeddus, a'r troseddwyr weithiau a ddiarddelir, o achos y gwarthrutta pechoda'u o'r darluniad yma y gymdeithas yn ngolwg y byd. Ond trachwantau y meddwl, y rhai sydd yr un mor ffiaidd gan Dduw, a esgeulusir agos yn holol. Cybydd-dod, balchder, hunain-gyfiawnder, a chariad at y byd presennol, ydynt gwbl gydweddol a chymmeriad proffeswr godidog. Gall personau fod yn amlwg o dan arglywyddiaeth y fath drachwantau a'r rhai hyn, eto os hwy a gadwant dduw-ioldeb allanol, a chyfranu yn hael at yr achos cennadwriaethol, hwy o glodforir yn oruchel. A chyda hyn oll, ni a floeddiwn allan yn erbyn Antinomiaeth, ac a ofynwn, oni *warcheidwir* athrawiaethau gras yn dda, yr arweiniant i benrhuddid!

4. Y cyflwr marw a bydol y mae y broffes Gristionogol ynddo yn ein plith ni, a ymddengys yn amlwg wrth y golyg-iadau cnawdol am deyrnas Crist ag sydd wedi ffynu dros ryw amser. Ymddengys bod yr eglwysi wedi anghofio nad yw teyrnas y Gwareddwr o'r byd hwn. Ni allant amgyffred pa fodd y gall eglwys Crist fod mewn cyflwr blodeuog, oni wna hi ymddangosiad *parchedig* mewn cymdeithas. Nid ystyriant mae presennoldeb neillduol Crist gyda ei bobl a gyfansodda unig sylfaen ei rhagoroldeb a'i gogoniant; nac ychwaith yr ystyriant hwy bod llwyddiant yr eglwys yn gynnwysedig, nid mewn pethau allanol, ond yn mhethau yr Yspryd yn unig: ac ni wyddant hwy y dichon cymdeithas o gredinwyr fod yn wir ogoneddus, er na feddant un *boneddig parchedig* i'w cadw rhag cywilyddio, na proffeswyr cyfoethog i' gynnal yr achos. O hyny mae gwangc llawer i gydio gallu dynol o du yr eglwys. Oddiyma y telir anrhydedd i'r cyfoethogion: ac o hyn y tardda callineb cnawdol, ag sydd mewn llawer o amgylchiadau, yn cyfarwyddo helyntion crefyadol. Yn gyfattebol i'r gradd ag y ffyna yr yspwyd hwn, y bydd yn gywilyddus gan proffeswyr yr ymddangosiad dirmygedig hwnw a wnaeth Crist, ag a raid i'w ganlynwyr bob amser wneuthur yn y byd; fel mai nid rhyfedd yw yr edrycha y cyfryw broffeswyr ar yr eglwysi hyny ac sy'n dioddef dros eu hymlyniad wrth wirioneddau gwaradwyddedig er efengyl, "megis tommen ddrewedig mewn cymdeithas."

Mae y syniadau cnawdol hyn wedi effeithio y dylanwadau mwyaf dinystriol ar ein proffes ni. Ychydig yn awr sydd o'r undeb a'r symlrwydd hwnw, y gymdeithas efengylaidd hono a fwynhaodd yr eglwysi boreuol. Credinwyr gynt a gaseid gan y byd, ac wedi ymneillduo oddiwrtho, a gaent ddiddanwch y'nghyfcellach Seion: ond yn awr nyni a gyd-ymffurfiasom a'r byd, ac fe oera cariad llawer. Ni a gawn ryw ddydd mai taledigaeth tlawd yw ein llwyddiant ymddangosiadol yn lle gair y ffydd, diddanwch yr Yspryd Glan, a chymmundeb y saint. Rhaid i bwy bynag sydd yn fyw at bethau Duw gydnabod bod yr Yspryd wedi ymadael mewn modd nodedig, ychydig a fwynheir o gysuron dwyfol, ac y mae Cristionog-rwydd boreuol, mewn cymhariaeth, yn adnabyddus. Nid yw yr achwynaadau hyn yn gymhwysiadol at ein henwad ni yn unig. Mae yr Anymddibyniaid mor wahanol i'r peth oedd ynt unwaith, ag ydym ninau; hwy a gymmerant hyd yn oed y flaenoriaeth arnom mewn *parchedigrwydd*. Mae gradd o war-adwydd etto yn lynedig wrthym ni, o achos bedydd y crediniol, a'r llyffethair hon wrth ein traed a'i gwna yn anhawdd i ni gadw i fynu a'r rhai a ymarferant fedydd babanod. Ond y mae rhai o'n heglwysi a'n gweinidogion wedi dyfeisio rhyddhau eu hunain oddiwrth y rhwystr hwn, drwy yr ymarfer o gymmundeb cymmysg, fel ag i ddyfod agos mor barchedig a'u brodyr Bedyddwyr Babanod. Och! och! ychydig achos sydd o'r holl ddirmyg a daflwyd ar yr eglwysi blaenorol. Y gymhariaeth o'r hyn ydym a'r hyn oeddym, sydd wir alarus. Ni a allwn yn gyflawn fabwysiadu attebiad ffaethlym yr enwog Thomas Aquinas i'r Pab Innocent IV. Y cyntaf, ar ei ymweliad a'r olaf, a'i cafodd yn amgylchynedig a phentyrau o aur. "Wele! Thomas, ebai ei Sancteiddrwydd, ni ddichon yr eglwys ddywedyd yn awr, fel cynt, arian ac aur nid oes genyf." "Na all, ebai y Doctor sarug, ac ni ddichon ddywedyd ychwaith wrth y cloff, "eyfod a rhodia!"

5. Mae bydolrwydd ysbryd wedi ffynu mor bell, ag agos a diffoddi cariad brawdol yn ein plith. Adfeiliad o'r gras hwn sydd gyfattebol i ddyylanwad eilunaddoliaeth yr Hen Destament. Chwennychiad i fod yn gyffelyb i'r cenhedloedd cymydogaethol, oedd pechod mawr Israel yr Hen Destament, a ffynonell eu holl ymadawiadau eilun-addoliaethol oddiwrth Dduw. Cariad at y byd yw eilun-addoliaeth dan y Testament Newydd, ac nid oes un peth yn tueddu mor effeithiol a hwn i ddistrywio undeb y saint, a chariad brawdol. Yr anmhariad o

gafu eu gilydd sydd brawf diddadl o adfeiliad ysbrydol, yn gymhwys fel y mae ffyniant o hono yn arwydd o lwyddiant. "Wrth hyn y gwyhydd pawb mai disgylion i mi ydych, os bydd gennych gariad i'ch gilydd."\*

Ond pwy ag sydd yn ysbrydol a ddichon amheu llesgrwydd y gras hwn yn yr eglwysi? Mor lleied yw mewn ymarferiad, fel na ddichon llawer ddywedyd y'mha beth y mae yn gynuwysedig; ac nid oes ganddynt ychwaith un meddylddrych eglur pa beth yw yr hyn a'u deil hwynt y'nghyd fel eglwys. Ymdangosant heb fod ganddynt un syniad o gariad ysbrydol, y'mhellach na'r teimlad cyfeillgar hwnw ag sy'n bod y'mhlith aelodau cymdeithas ddaearol. Arweinir rhai y'nghyd o achos y rhaid yddynt fyned i le o addoliad, a chyd-ymgynnnullant lle yr arferent hwy a'u tadau gyfarfod. Eraill a ymunant oddiar ysbryd pleidgarwch; wedi i gweryl, o ryw achos dibwys, eu didoli hwy oddiwrth eu perthynasau crefyddol o'r blaen. Ymdengys fod eraill wedi ymuno oddiar y tyb daionus a ffurfiant yn unfrydol am eu gweinidog; cyttunant mewn addoliad dall o'u gweinidog hoff, fel pan fyddo efe farw dyna ddiwedd i'w hundeb hwy. Darostyngedigaeth o'r fath yma, sydd o'r un natur a'r μιαν γνωμην, yr un meddwl hwnw, ag sydd gan y breniniaethau anghristaidd am Esgob Rhufain, Dat. xvii. 13. Ond am fod y gwirionedd ei hun wedi cwympo yn ein heol, am hyn y palla cariad y brodyr er mwyn y gwirionedd hefyd.

Y mae, pa foddy bynag, math o gariad ffynedig yn ein plith, cariad basarddaidd, yr hwn ni chyd-lawenha a'r gwirionedd. Tybir yn awr mai arwydd o ysbryd rhagsarnllyd yw ymdrechu yn ddifrifol dros athrawiaethau neillduol gras; ac ystyrir yn nod o dymmer hynaws cyd-ddwyn ag athrawiaethau gwrthwynebol i'r gwirionedd, ac i orchuddio y cyfryw wrthwynebiad a mantell cariad a chyd-ddioddefgarwch. Ond pa mor fynych y damweinia nad oes gan y personau caruaidd hyn, a fedrant yn hawdd gyd-ddwyn pan na fydd ond anrhyydedd Duw a go-goniant Crist i ofalu am dano, ond ychydig bach o gyd-ddioddefgarwch pan archollir eu hurddas hwy eu hunain, neu y siomir eu balchder. O pa mor ddiglon ydynt hwy pan eu tramgwyddir yn bersonol! pa mor ddigofus, pa mor anghymmodlon! Pwy a feddyliai y gallai y creaduriaid hawddgar hyn, ag ydynt mor gariadus pan archollir anrhyydedd Crist, ymarfer cyn lleied o ddioddefgarwch pan y tramgwyddir yr anwyliaid hwy eu hunain?

6. Ein cyd-ymffurfiaid a'r byd a ymddengys yn y moesau a'r sefydliadau anghristaidd a ddygwydd i mewn i'n plith. O'r rhai hyn ni chymmeraf sylw ond mewn dwy engraifft yn unig.

(1.) Y gwahaniaeth Pabaidd o wŷr llêñ a gwŷr llîg a adfywiwyd yn ddiweddar yn fawr iawn yn yr eglwysi, er y bu amser pryd y gosodid y gwahaniaeth hwn heibio yn gyffredin y'mlith credinwyr bedyddiedig, fel yn cyfansoddi un o golofnau anghrist.

I ben mawr yr eglwys yn drugarog bennodi bugeiliaid ac athrawon, er adeiladaeth ei bobl, sydd tu hwynt i bob amheuaeth; ond ni chyfenwir y rhai hyn byth yn *offeiriad* neu lêen-yddion, yn y Testament Newydd, mewn gwahaniaeth oddiwrth eu brodyr; nac ychwaith y gelwir byth y brodyr crediniol y *bobl* neu leygion, mewn trefn i'w gwahaniaethu oddiwrth eu bugeiliaid. O dan yr Hen Destament, yn wir, yr oedd gwŷr llêñ, neu offeiradaeth, neillduedig oddiwrth y gweddill o Israel; ac fel yr oedd y pennodiad hwn drwy orchymyn neillduol Duw ni allasai neb o'r bobl gyffredin, yn gyfreithlon, ruthro i'r swydd sanctaidd. Ond marwolaeth Crist a ddyrchafoedd holl gorphy saint i'r urddas offeiriadol. Yr Iesu "a'n golchodd ni oddiwrth ein pechodau yn ei waed ei hun; ac a'n gwnaeth ni yn frehinoedd ac yn offeiriad i Dduw a'i Dad ef." Canys fel hyn y dywed y prophwyd Esaia, pan y rhag-fynegod ef am ogoniant saint y Testament Newydd, "Chwithau a elwir yn Offeiriad i'r Arglwydd; Gweinidogion ein Duw ni, meddir wrthyd." Oddiyma pobl Dduw a elwir yn gyffredin, "yn offeiriadaeth sanctaidd, i offrymu aberthau ysprydol." O hyn y gelwir hwynt yn "rhywogaeth etholedig, brehinol offeiriadaeth," wedi eu cyfansoddi felly drwy gyflawnder gwerthfawr Mab Duw. Dyma yr offeiriadaeth a ordeiniodd Duw, a phob un arall, anghristaidd yw.

Ond nid cynt y cyll eglwysi Cristionogol olwg ar ogoniant cyflawnder cyfrifol nag eu dygir i gaethiwed. Yna deuant yn ysglyfaeth hawdd i au-athrawon; a pho mwyaf anwybodus o'r ysgrythyrau y b'o personau crefyddol, mwyaf llwyr y maent hwy dan arglyddiaeth eu gwŷr llêñ. Mor lygad-dynnog yw y twyll, fel ag y meglir pobl Dduw eu hunain weithiau ag ef. Eglwys Corinth a ddirmygodd yr apostol, o achos na ormesodd efe arglyddiaeth arnynt, ond pregethu yr efengyl iddynt yn rhad, a chynnal ei hun drwy ei lafur ei hun. Ond pan ddaeth gau-athrawon i'w plith hwynt, gan pregethu efengyl

wyrdraws, ac fel hyn dyrchafu eu hunain, y rhai hyn a dderbyniasant hwy yn llawen. "Canys yr ydych yn goddef, eba'i Paul sanctaidd, os bydd un i'ch caethiwo, os bydd un i'ch llwyr-fwyta, os bydd un yn cymmeryd gennych, os bydd un yn ymddyrrchafu, os bydd un yn eich taro chwi ar eich wyneb."\* Yn y modd yma y dechreuodd dirgelwch yr anwiredd weithio mor foreu; ond ar ol hyny efe a ddaeth wedi ei ddi-noethi yn gyflawn yn nyfodiad y dyn pechod. A phwy ni wel, os yw gwrthwynebiad i gyfiaunder Crist yn hanfodol i babbodiaeth, nad yw arglyddiaeth y lléenyddion yn llai felly?

Y mae'n wir alarus, pa fodd bynag, olrhain gweithrediad yr ysbryd hwn yn ein eglwysi ni ein hunain. Nyni a ymadawsom oddiwrth symlwydd y ffydd, ac ydym yn chwannog i wneuthur ystum parchedig yn y byd. Yn ganlynol, ni a ddechreusom siarad am ein lléenyddion a'n lleygion. Nid yw yr eiddom ni yn wir ond efelychiad truenus o'r cynllun gwreiddiol, ond etto y mae yn ddynwarediad. Yn Eglwys Rhufain, arglyddiaeth yr offeiriadaeth anghristaidd a ymddengys yn ei holl rwysg-fawredd, ond ni fedd yr eiddom ni nac hynafiaeth na disglaerdéb i'w chynnal i fynu. "Yr eiddyd hwy, medd Robinson ddoeth, yw natur yn chwareufa y brif-ddinas, ninau ydym grwydriaid, yn adrodd baldordd, mewn hen heirdd-wisgoedd wedi eu bwrw heibio, yn mwthyn pen ffair."†

O na ymlynai gweinidogion Crist wrth symlwydd yr efengyl! Pa bryd y peidian hwy ag efelychu iaith a moesau atgas anghrist? Eu gwir ddoethineb fyddai sefyll yn sicr yn y symlwydd sydd yn Nghrist Iesu; canys fel nad oes ganddynt nac awdurdod nac hynafiaeth i bleidio dros eu honniadau ar urddas lëenyddol, hwy a ddirmygir bob amser gan y lléenyddion cyntefig, yn gymhwys fel yr oedd Israel gynt, wedi ymado o honynnt a Duw, yn ddirmygedig gan yr unrhyw genhedloedd hyny ag y benthygiasant hwy eu heilunaddoliaeth oddiwrthynt.

Gweinidogion Iesu a wnaent yn dda ystyried pa mor ffiaidd yn ei olwg ef yw yr holl ystrywiau bychain hyny, drwy y rhai y mae y gau-athrawon yn cynnal i fynu eu harglwyddiaeth hwy ar y bobl. Efe a gasa y pethau hyn o achos eu bod o bob peth arall y mwyaf gwrthwynebol i'w deyrnas, ac yn cefnogi y dirmyg uchelaf ar ei gyfiaunder ef. Pa beth ond hunan-gyfiaunder a duedda bregethwr i ddychymgu y perthyna efe i urdd gwahanol oddiwrth yr eglwys yn gyffredin; a pha beth ond balchder o'r rhywogaeth gwaethaf a'i harweiniodd

\* 2 Cor. xi. 20.    † Sermon on John xviii. 36.

i ddisgwyl i'w frodyr ei gysenwi ef y "Parchedig?" Yr yspryd hwn o hunan-gyfiawnder a balchder yn yr ysgrifenyddion gynt, a alwodd am y ceryddon llymdostaf oddiwrth yr amyneddgar a'r hawddgar Iesu. Y mae yn sylwi hyd yn oed ar eu hymstumiau a'u gwisgoedd. "Ymogelwch rhag yr ysgrifenyddion, y rhai a chwennychant rodio mewn gwisgoedd llaesian." Nid fod eu gwisgiad ynddo ei hun o un pwysigrwydd; ond am ei fod yn ddangosiadol o ysbryd hunan-gyfiawnder llényddol, yr oedd yn cyffroi llygaid ei ogoniant ef. Hwy a garent fyned mewn gwisgoedd llaesion; hwy a garent y pris-eisteddleoedd; hwy a garent eu galw Rabbi, Rabbi. Gan hyny, ar gyfrif balchder ysbrydol eu calonau y cyhoeddodd ein Harglwydd ei arbenig "Wae yn erbyn yr ysgrifenyddion." Mae'n gweddu yn dda i ddynion grynu, pan glywant hwy gyhoeddi gwae o enau cariad ymgawnawdoledig! Nid yw "gwae" yr Iesu yn disgyn ar ddynion yn y bywyd hwn, ond yn y byd a ddaw. Mae llawer, ag ydynt ry gyfawn yn eu golwg eu hunain i ddychymygu eu bod o dan ei wae ef, yn byw yn barchus, a'u marwolaeth yn anrhyydeddus a gobeithiol yngolwg y byd. Ein Hiachawdwr ei hun a roddodd i ni engraift sobr o hyn.\* Rhyw wr cyfoethog, ond proffeswr cnawdol, mab i Abraham mewn enw, oedd o radd uchel, ac yn mwynhau yn helaeth o frasder y ddaear. Mae lle i gredu y safai ei gymmeriad crefyddol yn uchel, ac y taflai o'i heilaethrwydd i'r drysorfa. Mae'n sicr iddo gyfranu at angenrheidiau un sant tlawd, er nid o egwyddor iawn. Daeth oddi-amgylch, pa fodd bynag, y bu efe farw, ac y claddwyd ef. Mae yn bur debygol y cofnodwyd ei weithredoedd duwiol a haelionus a maeth o folawd angladdol, allan o enau rhyw arch-offeiriad, a'i ddyrchafu ef i'r drydedd nef. Ond efe a fu farw dan wae Duw, a'r hanes nesaf a gawn ni am dano yw, mai yn usfern yr agorodd ef ei lygaid, ac efe mewn poenau!

(2.) Y pwys ag a ddodir yn awr ar addysg athrofaol, fel cymmwysder angenrheidiol i'r weinidogaeth Gristionogol, sydd brawf arall o ffyniant egwyddorion anghristaidd. Ni ddysgir un gwirionedd eglurach yn y Testament Newydd na hwn, sef, mai rhagorfaint yr Yspryd Glan ei hun, drwy ei roddion ei hun, a thrwyddyt hwy yn unig, yw rhoddi bugeiliaid i Seion, a'u gwneuthur yn weinidogion abl o'r Testament Newydd. Ni pherthyna y ddadl i werth dysgeidiaeth ddynol yn ei le ei hun. Nid y ddadl yw, pa un ai dymunol yw i weinidogion

\* Luc xvi. 19—31.

Cristionogol syfyrio yr Ysgrythyrau yn Hebraeg a Groeg. Diamheu mai dymunol yw nid yn unig bod gweinidogion y gair, ond hefyd pawb o pobl yr Arglwydd, os oes ganddynt amser a chyfleusdra, yn myfyrio yr Ysgrythyrau yn yr ieithoedd gwreiddiol; a da pe byddai rhai a wnant honniadau mawrion o ddysgeidiaeth, ac a'i hystyriant yn hanfodol i'r weinidogaeth, a'u hadnabyddiaeth yn helaethach ac yn fwy beirniadol mewn dysgeidiaeth sanctaidd nag ydynt mewn gwirionedd. Ond y ddadl a berthyna i'r gallu, a'r hwn y cynnysgaeddir gweinidogion yr Iesu i'w gwaith mawr hwy. Yn awr, nid oes dim yn fwy sicr na bod y gallu hwn yn tarddu yn union-gyrchol oddiwrth ben dyrchafedig yr eglwys. "Pan ddyrchafodd i'r uchelder, efe a gaethiwodd gaethiwed, ac a roddes roddion i ddynion. *Ac efe a roddes rai yn apostolion, a rhai yn brophwydi, a rhai yn esengylwyr, a rhai yn fugeiliaid ac yn athrawon.*"\* Yr un gallu, gan hyny, ag sy'n gwneuthur rhai yn apostolion, a gyfaddasa eraill i fod yn fugeiliaid ac yn athrawon; a hyn a wyddom oedd gallu yr Yspryd ei hun, Act. i. 8., canys yr oedd llawer o'r apostolion yn ymddfifad o ddysgeidiaeth ddyngol, hyd yn oed ar ol dydd y Pentecost, Act. iv. 13. Yr apostolion a'r bugeiliaid cyntaf a gyfaddaswyd i'w gwaith, nid trwy addysgiad Gamaliel, neu unrhyw ddysgawdwr duwinyddol arall, ond trwy gyfranogiad o'r Yspryd Glan yn unig. "Eithr ein digonedd ni sydd o Dduw; yr hwn hefyd a'n gwnaeth ni yn weinidogion cymmwys y Testament Newydd."† Pa mot leied a wyddyant hwy am weinidogaeth yr esengyl, ac am deyrnas yr Iesu, y rhai a ddychymygant fod addysg athrofaol yn ddigonol iddynt hwy ag y mae eu harfau "yn nerthol trwy Dduw i fwrw cestyll i'r llawr;"‡ y rhai ydynt "i Dduw yn ber-arogl Crist yn y rhai cadwedig, ac yn y rhai colledig. I'r naill yn arogl marwolaeth i farwolaeth; ac a'r lleill yn arogal bywyd i fywyd?" Da yr ychwanegodd yr apostol sanctaidd, "Pwy sydd ddigonol i'r pethau hyn?"§

Yr addewid o'r Yspryd a roddwyd, nid yn unig er mwyn yr apostolion, ond hefyd i gynnysgaeddu bugeiliaid cyffredin ac athrawon, hyd ddiwedd amser, a gallu at eu gwaith, Mat. xxviii. 19, 20. Yn ganlynol, henuriaid neu esgobion eglwys Ephesus a addaswyd i'w swydd gan yr Yspryd byth-fendigedig. "Edrychwch gan hyny arnoch eich hunain, ac ar yr holl braidd, ar yr hwn y gosododd yr Yspryd Glan chwi yn olygwyr, i fugeilio eglwys Dduw."|| Mae yr Yspryd sanc-

\*Eph. iv. 11.    †2 Cor. iii. 5, 6.    ‡Ib. x. 4.    ¶Ib. ii. 16.    ||Act. xx. 20.

taidd yn treiddio drwy holl gorff Crist, a thrwy gyflawnder o'i roddion grasol ef, yn gwbl ddigonol at bob swydd yn yr eglwys. Fel ag yr oedd ysbryd y peth byw, yn bywhau y Cherubim a'r olwynion, ac yn cyfarwyddo eu holl ymsymmediadau, felly y bywha yr Yspryd Glan holl aelodau Crist, ac y cyfarwyddda holl oruchwyliaethau y weinidogaeth Gristionogol. "I'r lle y byddai yr yspryd i fyned, yr aent, yno yr oedd eu hyspryd ar fyned; a'r olwynion a ymgodent ar eu cyfer hwynt: canys y peth byw oedd yn yr olwynion." Y cyfranogiad hwn o'r Yspryd yw sylfaen pob bendith ysprydol yn eglwys Crist, yn gystaf a'i fod ynddo ei hun yn ddigonol i holl ddibenion y weinidogaeth Gristionogol. "Eithr eglurhad yr Yspryd a roddir i bob un er llesad. Canys i un, trwy yr Yspryd, y rhoddir ymadrodd doethineb; ac i arall ymadrodd gwybodaeth, trwy yr un Yspryd," &c. "O herwydd trwy un Yspryd y bedyddiwyd ni oll yn un corph, pa un bynag ai Iuddewon a'i Groegwyr, ai caethion ai rhyddion; ac ni a ddiodwyd oll i un Yspryd."\* "A chan fod i ni amryw ddoniau, yn ol y gras a roddwyd i ni, pa un bynag ai prophwydoliaeth, prophwydwun un ol cysondeb y ffydd; a'i gweinidogaeth," &c.† O hyn y cydmerir yr Yspryd Glan, yn ei gymmeriad swyddol, ac mewn cyfeiriad at y cyflawnder a'r perffeithrwydd o'i roddion Ef, i "saith o lampau tân yn llosgi ger bron yr orseddfaingc;" ac nid yn unig y mae yr Ysyryd bendigedig yn ddigonol i gyfaddasu ei weinidogion at eu gwaith, y rhai am y rheswm hwn a gyfenwir yn weinidogion yr Yspryd, ond hefyd y mae holl weithrediadau y weinidogaeth Gristionogol dan ei lywodraeth pen-arglwyddiaethol ef yn hollol. Y mae efe yn agoryd, ac nid yw neb yn cau; ac yn cau, ac nid yw neb yn agoryd. Efe a ddienfyn ei weinidogion i rai gwledydd, ac ni oddefa iddynt fyned i rai eraill. Fel hyn Paul a'i gyd-ymdeithwyr, "a waharddwyd iddynt gan yr Yspryd Glan bregethu y gair yn Asia." Ac wedi hynny, "hwy a geisiasant fyned i Bithynia: ond ni oddefodd yr Yspryd iddynt."‡ O dan ei ddyylanwad Hollalluog ef yr efengyl a lwyddodd yn yr amseroedd boreuol. Ni chyfododd y Cristionogion cyntaf unrhwy beirian-waith dynol tuag at ledanu yr efengyl. Ni cheisiasant hwy erioed gynnorthwy y mawrion a'r cyfoethogion; nac ychwaith fyth gwyno herwydd tlodi moddion ariannol, na sibrwd y gwnelai trysorseydd cyfattebol eu galluogi i ddychwelyd y byd!

\* 1 Cor. xii. 7, 8, 13.

† Rhuf. xii. 6, 7.

‡ Act. xvi. 6, 7.

Ond wedi hyny, pan lygrwyd Cristionogrwydd, troedigae-thau mewn enw a gymmerth le adgenhedliad, a theyrnas y lléenyddion a ddechreuodd gyfodi. Nid oedd gan y brenin-iaethau a broffesent Gristionogaeth un cariad at y gwirionedd; ac am yr Yspryd, nid adwaenent ef. Yr efengyl syml a gyf-newidiwyd am dduwinyddiaeth ysgoleigaidd, wedi ei sylfaenu ar philosophyddiaeth, y byd hwn, a doethineb Aristotle. Yna sefydlwydd, fel drwyddyd hwy, y cymmwysid dynion i'r weini-dogaeth Gristionogol. Y rhai a suant fammaethod y lléenyddion y'mhob oes, yn chwydu allan dduwinyddiaeth anghristaidd fel mwg y pwll diwaelod, o'r hwn y deilliodd offeiriadaeth gnawdol, fel locustiaid, yn gorchuddio y ddaear. Ysgolion dysgeidiaeth sydd dda, a'u hystyried yn unig fel moddion gwy-bodaeth; ond pan y grosodir hwynt ar waith i dorri ar draws rhagorfraint, Iesu Grist, pan y sefydlir hwynt i gyflawni yr hyn ni ddichon dim effeithio ond yr Yspryd, hwy a ddeuant i fod yn beiriant Satan, ac y maent yn ffieidd-dra i Dduw.

Yn yr ystyr hwn hefyd, Eglwysi y Bedyddwyr a ddech-reuasant efelychu y gwrthgiliad anghristaid.\* Fel ag y mae genym ein lléenyddion a'n lleygion, felly hefyd y mae genym ein colegau tuag at barotoi a chyfaddasu dynion ieuaiangc duwiol i'r weini-dogaeth Gristionogol. Iachawdwr dyrchafe-dig! a yw dy bobl etto i ddysgu mai dy Yspryd di, ac Efe yn unig, sydd ddigonol i hyn? Ai ni wyddant mai tydi sydd yn

\* Haerwyd yn synych, er bod genym ein colegau a'n hathrofaau, nad yw y rhai hyn i'r diben o wneuthur gweinidogion, ond i gynnysgaed dynion ieuaiangc a'r manteision dysgeidiaeth hynny, na allent mor hawdd gyrhaedd yd mewn unrhyw ffordd arall. Ond nid yw hyn ond engraifft arall o'r twyll hwnnw cydfynedol bob amser ag ymadawiad oddiwrth symlrwydd y gwrionedd: Oni anfonir gwyr ieuainyc i stepney neu i Bristol, i'r diben o'u cymmwys o'r weini-dogaeth? Oni ystyr hwynt, tra yno, mewn ystod o hyfforddiad at y weini-dogaeth? Mae yn wir na sefydlwyd ein althroseydd i wneuthur dynion yn dduwiol, ond y mae yn anwadadwy, y bwriadwyd hwynt i wneuthur dynion ieuaiangc duwiol yn weini-dogion. Mr. Robert Hall, yn ei ragymadrodd i'w bregeth ar "Anghesnogaethau, &c. y Gweini-dog Cristionogol," a ddywed, "I Athrofa Bristol, yr unig un hyd yn ddiweddar a feddant hwy (y Bedyddwyr,) teimlant y rhwymedigaethau uchelaf, am eu cyflenwi a diliniad olynol o fugeiliaid abl a ffyddion, y rhai a anrhyydeddasant yr eglwysi." Yn awr, pa ham y byddai arnom ni y fath ddyled o ddiolchgarwch i Athrofa Bristol am ein diwallu a bugiliaid, oni wnaethai yr Athrofa hono y bugiliaid hyn y peth ydnynt? Os ydynt hwy mor gymmwys ac mor ffyddion, diolchiadau fyddo i Athrofa Bristol, yr hon a'u cyflenwodd hwynt!

Yn Adroddiad Athrofa Bradford am 1830, yr ysgrifennydd a ddywedd, t. d. 4, "Ni ellir gwybod yn rhy dda, yr ymwrthodwn ni a phob meddylddrych o wneuthur gweini-dogion." Etto yn yr un t. d. efe a ddywed, "Ymddengys y meddylia y rhani am-laf o'n heglwys, y dylai y gwyr ieuaiangc a alwant hwy i'r weini-dogaeth, leshau eu hunain a'r manteision goreu a ellir gael, tuag at eu parotoi hwynt i, a'u cynnorthwyo yn, y gwaith pwysig a gymmerant arnynt." Yn awr, beth ddichon yr ysgrifennydd arwyddo wrth ymwrthod a phob meddylddrych o wneuthur gweini-dogion, ac ar yr un pryd yn cyfaddef fod yr Athrofa yn parotoi dynion ieuaiangc i'r weini-dogaeth? Os arwydda y geiriau olaf unrhyw beth, arwyddant y cynnysgaedda yr Athrofa bersonau ieuaiangc a'r rhwymogaeth hwnnw o ddyseidiaeth, heb yr hwn ni chym-mawysid neu ni pharotoid hwy i'r weini-dogaeth; ac nid yw hyn yn unig ond dy-wydd, mewngeiriau eraill, y gwna y Gymdeithas hwynt yn weini-dogion.

dal y saith seren yn dy law ddehau? Yn sier ni ellir dysgu y gwir dduwinyddiaeth Cristionogol megis y dysgir y celfyddydau dynol? Pa fodd y dichon dysgawdwr Duwinyddol gyfranu i'w gymmydog y wybodaeth hono ag sydd angenrheidiol i'r weinidogaeth Gristionogol? Pa fodd y gall efe ddysgu iddo ddeal dirgelwch duwioldeb, fel yr amlygir yn mherson rhyfeddol Cris, yn holl gerddediad ei ddarostynigiad, ei ddiodefiadau, a'i farwolaeth, ac yn rhyfeddodau annharethadwy ei waed a'i gyflawnder? Ow! ni all yr hyfforddwr ddysgu ei hun y pethau hyn; etto gwybodaeth o'r pethau hyn, yn gystal ag ymadrodd i'w gwneuthur yn hyspys, sydd gwbl angenrheidiol i'r weinidogaeth Gristionogol, ac a gyfrenir gan yr Yspryd, drwy offerynoldeb ei ordinhadau ef ei hun. "Fy holl dduwinyddiaeth i, dywedai Luther, a gynnwysir yn hyn, fy mod yn credu mai Crist ei hun yw yr Arglwydd, am yr hwn y llafarai yr Ysgrythyrau; ac nid fy ieithyddiaeth na'r iaith Hebraeg ychwaith a ddysgodd hyn i mi, ond Yspryd daionus y Duw byw." Mae geiriau y diwgiwr gonest mewn cyd-gordiad a'r Ysgrythur, ac a natur teyrnas ysbrydol y Gwareddwr: felly-hefyd y syniadau canlynol gan hen ysgrifenydd Saesneg; Crist o dan y Testament Newydd a sefydlodd ac a gyfansoddodd weinidogaeth newydd, nid drwy unrhwy ordeiniad eglwysig, ond yn unig drwy eneiniad ei Yspryd, heb unrhwy olygiad oll at alwad allanol dyn, neu sefyllfa yn y byd; ond pa un a fyddo dyn yn ysgolhaig, neu wr ll&en, neu wr boneddig, neu fasnachwr, os galwa Crist ef, a thywallt ei Yspryd arno, hyny, a hyny yn unig a'i gwna yn wir weinidog o'r Testament Newydd."\* Mor gryfion yw geiriau uniondeb, ond mor lleied y dyellir ac y percher hwynt!

Gwybodaeth, yn ei helaethrwydd mwaf annherfynol, yn cynnwys dysgeidiaeth gyffredinol, syddi ynddi ei hun, yn daionus, a'r caffaeliad o honi yn ddymunol. Os, pa fodd bynag, y byddai bosibl gosod cyrhaeddiad dysgeidiaeth iawn-ffyddiog yn erbyn symddydd yr efengyl, ac mewn canlyniad bod yn niweidiol, ni byddai ein henwad ni, yn y dydd presennol, mewn perygl enbyd oddiwrth yr achos hwnw. Pe byddai caffaeliad dysgeidiaeth yn bechod, ni byddai ein euogrwydd yn echryslon iawn. Ond pechod yr eglwysi sydd gynnwysedig yn hyn; y pentyrant iddynt eu hunain athrawon; yn lle disgwyl wrth yr Ar-lwydd am gyflawniad ei addewid, o roddi bugeiliaid i Seion. Ei-

\* Dell's Stumbling Stone. Gwnelai'r dallenyydd yn dda ystryried cymmwystrerau. Ysgrythyrol bugail neu esgob, yn I Tim. iii. 1—7. Ile ni chaff eis un gair am ddysgeidiaeth, cyssegredig na chenhedlig.

ddo'r Arglwydd yw i'r gwaith yn hollol; ond yn lle edrych arno Ef, yn ffordd ei ordinhhadau ei hun, dychymygant yn ofer y medrant barotoi iddynt eu hunain weinidogion, drwy ordinhhadau ni sefylodd efe, ond sydd o'u gosodiad hwy eu hunain, mewn efelychiad o athrofeydd anghrist. Fel hyn y dirmyga yr eglwysi yr addewid o'r Yspryd. Yn y modd hwn yr ymddiriedant mewn braich o gnawd mewn perthynas i'r weinidogaeth, a pheidio ymddiried yn yr Arglwydd; ac fel hyn y tristânt hwy y Diddanydd addoladwy, drwy yr hwn y selir y saint hyd ddyddy prynedigaeth.

YN DRYDYDD. Efengyl wyrdraws a duedda yn uniongyrchol i wasgaru pobl Dduw, drwy ddisstrywio rhwymyn yr undeb. Yr Arglwydd Iesu Grist, a'r hwn y mae'r holl saint mewn undeb, yw unig sylfaen a rhwymyn undeb ysbrydol. Yr holl deulu a gyferfydd ac a orphwys ynddo ef. Yr hyn a'u huna hwynt yw ei berson â'i waith gogoneiddus; a'r hyn a arddelwa eu hufudd-dod yw ei lais ef. "Fy nefaid i a wrandawant fy llais i, a mi a'u hadwaen hwynt, a hwy a'm canlynant i." Y llais hwn a glywant hwy yw gwirionedd yr efengyl, yr hwn a dilerbyniant hwy ac a garant, a'r hwn a gynnrychiafrawdgarwch yn eu plith, er mwyn y gwirionedd. Yn yr ymardiad o'r gras hwn, y mae iddynt gymdeithas a'u gilydd; hwy a ddirmygir gan y byd, ac y maent yn reillduedig oddiwrtho. "Wele! bobl yn preswylio eu hun, ac heb eu cyfrif y'nghyd a'r cenhedloedd."

Os, gan hynny, yr unrir pobl Dduw yn rhwymyn y gwirionedd, mae'n eglur nad oes dim mor effeithiol i'w gwasgaru, ag yw dylanwad athrawiaeth gyfeiliornus, yn enwedig yr hyn a gymmyla gyflawnnder Crist, yr hwn yw sylfaen eu hundeb, eu heddwch, a'u gobaith. O hyn y mae sel yr apostol yn erbyn athrawiaethau deddfol a gau-athrawon. Oddiyma y mae'r cyssylltiad ag sydd rhwng athrawiaethau afiach ac anghydfyddiaethau yn yr eglwys. "Yr wyf yn attolwg i chwi, frod yr graffu ar y rhai sy'n peri anghydsod a rhwystraù yn erbyn yr athrawiaeth a ddysgasoch chwi; a chilwch oddiwrthynt."\* Megis ag y'msg breniniaethau y byd hwn y cospir terfysg a bradwriaeth yn fwy llymdost na throseddiadau personol, o achos bod y cyntaf yn torri ar wahan wir rwymau cymdeithas ei hun, ac yn drygu, nid un person, ond yr holl wladwriaeth; felly yn nheyrnas Crist, dygiad y'mlaen athrawiaethau a gymmylant ogoiant cyflawnnder cyfrifol, a dyrchafu teilyngdod dynol, sydd

\*Rhuf. xvi. 17, 18.

bechod o'r rhywogaeth mwyaf gwenwynllyd, o achos y tuuedda yn uniongyrchol i iselu yr Arglwydd Iesu, ac i ddistrifywio un-deb a brawdgarwch y'mhlith ei bobl ef. Obliged y rheswm yma y mae bod cymaint o ddywedyd yn yr Ysgrythur yn erbyn dysgawdwyr y cyfryw athrawiaethau. "Gwae y bu-geiliaid sydd yn difetha ac yn gwasgaru defaid fy mhorsfa! medd yr Arglwydd."\* Mor ddigllon oedd Paul sanctaidd yn eu herbyn, fel y bloeddiodd allan, "Mi a fynnwn, ie, pe torrid ymaith y rhai sydd yn afflonyddu arnoch."†

Effaith gweinidogaeth ddeddfol sydd, nid yn unig i gyn-nyrchu anghydfodau a thramgyddiadau y'mhlith pobl Dduw ond hesyd i ddyrchasfu y pregethwr. Yr apostol a os-tyngodd ei hun, fel y dyrchefid y brodyr, 2 Cor. xi. 7; ond y gau-athrawon a ddyrchasent eu hunain, ac a gaethiwent y saint, ad. 20. Hunan-ddyrchafiad sydd nod ag sydd bob amser yn gwahaniaethu pregethwyr efengyl wyrdraws. Tra y tuuedda eu hathrawiaeth yn union-gyrchol i gymmylu gogoniant Crist, gwasanaetha i fawrhau eu hunain; a'u dall-bleidwyr, yn lle gwrando ar lais Crist, a ddygir dan warogaeth i'r gweinidog, ac y mae efe yn dysfol yn rhwymyn yr undeb yn eu plith. "Ac o honoch chwi eich hunain y cyfyd gwyr yn llesaru pethau gwyrdraws, i dynnu disgyblion ar eu hol."‡ Yr ysbryd hwn, a ddechreuodd weithio yn nyddiau yr apostolion, yw sylfaen yr holl arglwyddiaeth lênenyddol hwnw sy'n gwneuthur i fynu wir rym anghrist, a chynhaliaeth ei deyrnas felldigedig ef. Ond yr ydym ni yn camsynied meddwl yr Yspryd yn ddirfawr yn yr Ysgrythyrau, os dychymygwn nad yw nodau gau-eglwys i'w cael yn unlle heblaw o fewn rhaglawiaeth y Pab. Nid yw yr Arglwydd yn barnu dynion yn ol yr enwau a ddygant, ond yn ol y ffrwythau a ddygant allan. Y'mha le bynag y derbynir athrawiaethau anghristaidd, yno ffrwythau anghristaidd a ym-ddangosant. Canys megis y dechreuodd dirgelwch yr anwir-edd weithio cyn datguddiad y dyn pechod, sell y ceir ef yn gweithio mewn eglwysi, y rhai nid ydynt mewn enw o dan ei arglwyddiaeth. "A'r holl eglwysi a gant wybod mai myfi yw yr hwn sydd yn chwilio yr arenau a'r calonnau; ac mi a roddaf i bob un o honoch yn ol eich gweithredoedd."

Dylai gan hyny, fod yn achos o ymosyniad dwys, pa un ai nid yw nodau anghrist yn eglur weladwy ar lawer o'n heg-lwysi a'n gweinidogion. Profwyd yn ystod y llythyrau hyn, bod yr athrawiaeth ffynedig yn awr yn ein plith ni mewn per-

\*Jerem. xxiii. 1.

†Gal. v. 12.

‡Act. xx. 30.

thynas i iawn a chyflawnder gogoneddas Crist, yn beth hollok gwahanol i'r hyn a draddodwyd i lawr i ni yn yr Ysgrythyrau ; a dangoswyd hefyd bod y fath athrawiaeth yn cymhell cydymffurfiad bydol a phroffes farw. Gellid casglu, han hyny, *a priori*, mai tueddrwydd naturiol y cyfryw egwyddorion yw gwasgaru pobl Dduw, a distrywio undeb yr Yspryd. Canys pa le bynag y cedwir yn ol athrawiaethau gwerthfawr gras yn ngweinidogaeth gyhoeddus y gair, yno, er y boddheir professwyr cnawdol, diffuddir y saint o'r darpariaeth cyfoethog hwnw a osododd Duw iddynt ; hwy a adfeiliant yn yr ymarferiad o ffydd a chariad, a chymundeb y saint a ddirywir i addoliad ffurfiol. Mai hyn yw cyflwr galarus llawer o blant Seion y dydd hwn, sydd tu hwnt i amheuaeth. Llawer ag a eisteddant o dan weinidogaeth ddeddfol, ddisglas, ydynt mewn cyflwr cul a newynog o esiau y gair pur, ac ordinhadau yr Arglwydd, ac a waeddant allan mewn cyfyngder enaid, "Gwae fi! canys ydwyf fel casgliadydd firwythydd haf, fel lloffion grawnwin y cynhauaf gwin ; nid oes swp o rawn i'w bwytta."\*

**YN BEDWERYDD.** Yr athrawiaeth o iawn anmhennodol sydd dra dinystriol i gysuron a gorfoleddau y credinwyr.

1. Y tyb bod marwolaeth Crist yn ddigonol ammodol dros holl ddynolryw, hyny yw, pe credai holl ddynolryw ynddo, a arweinia y pechudur ar unwaith i gyflawni rhyw ddyledswydd a ddychymga efe a rydd effaith i farwolaeth Crist, a'i gwneuthur yn llesol iddo ef. Drwy y moddion hyn efe a arweinir i dynnu cysur oddiwrth ei ddyledswyddau, yn lle iachawdwriaeth orphenol Crist. Y cyfeiliornad hwn yw yr achos firwythlon o ofnau aflowyddus a chaethiwed deddfol llawer o broffeswyr. Y maent yn wastadol mewn ofn rhag na chyflawnasant yr ammod angenrheidiol, ac wedi llawer o ymboeni, mae eu hysbrydoedd anesmwyth mor bell ag erioed oddiwrth orphwysdra, a thraethant drachesn yr hen achwyniad, "Beth sydd yn eisiau i mi etto ?" Nid oes ganddynt unrhyw dyb bod gwaith Crist ei hun, wedi ei amlygu i'r galon drwy yr Yspryd Glan, yn ddigonol i roddi llawenydd annhraethadwy, heb gyflawniad o ryw ddyledswydd o'u tu hwy ; ac am hyny y maent mewn cyfynggyngor gwastadol rhag na chyflawnesid y ddyledswydd bwysfawr hon. "Yr wyf yn cael, ebai Mr. Owen Stockton, er fy mod yn fy marn a'm profess yn cydnabod mai Crist yw fy nghyflawnder a'm tangnafedd, fy mod yn ddirgelaidd yn myned oddi amgylch i osod i senu fy nghyflawnder fy hun, a thynnue

\*Micah. vii. 1.

fy niddanwch a'm tangnafedd oddiwrth fy ngweithrediadau fy hun. Canys pan yr anesmwythid fi gan weithrediadau pechod, nid Duw yn llefaru heddwch drwy waed Crist, ond seibiant oddiwrth brofedigaeth, ac attaliaeth o'r pechodau hyny, a'm hadferai i'm tangnafedd blaenorol. Pan y'm trallodid i oblegid sefyllfa ddrwg fy nghalon, nid cyflawnnder Crist, ond fy rheimlad o dymmer gwell, fyddai fy niddanwch. Mi a weddais yn erbyn, ac a benderfynais yn erbyn pechod, ymdrechu a phechod, ac ymochelyd achlysuron pechod; hyn oll all dyn wrth natur wneuthur. Ond pa fodd i gyrchu nerth o farwolaeth Crist, pa fodd i gredu yn Nuw er darostwng pechod, a pha fodd i wneuthur hyny drwy yr Yspryd, a suant i mi yn ddirgel-edigaethau."

Cedwir llawer o eneidau gwerthfrwr yn y cyflwr hwn o gaethiwed, o achos na allant weled cyflawn berfffeithrwydd gwaith Crist. Caniatant i Grist wneuthur llawer iawn dros bechaduriaid, ond dychymygant y rhaid cyflawnni rhywbeth o'n tu ninau i wneuthur ei waed yn llesol; a'r *rhywbeth* hwnnw heb fod yn alluog i foddloni cyflawnnder dwyfol, ac yn rhy wan i buro eu cydwybodau euog, y maent yn anesmwyth. Ond pan yrir yr enaid oddiwrth bob noddfa arall, i ymddiried yn Nghrist yn unig, yna mae'n cael gorwysdra. Ni ymosyna mwyach, "Beth sydd yn eisiaiu i mi etto?" gan wybod fawrhau y gyfraith, boddloni cyflawnnder, a Duw'r Tad wedi ei lwyr foddloni yn ei anwyl Fab; "canys yr ydym ni, y rhai a gredasom, yn myned i mewn i'r orphwysfa."\* "Cysurwch, cysurwch fy mhobl, medd eich Duw. Dywedwch wrth fodd calon Jerusalem, llefwch wrthi hi, gyflawnni ei milwriaeth, ddileu eu han-wiredd."†

2. Y wybodaeth ag a fodd credinwyr farw o Grist yn eu llê, a rhoddi ei hun yn neillduol drostynt hwy, sydd gyflawn o'r diddanwch melusaf i'w hysbrydoedd gwaredigol. Pwy all ddarlunio y tangnafedd tufewnol a amgaerodd feddwl y Psalm-ydd, pan y traethodd ef y geiriau hygof hyny, "Fy ngwesau a fyddant hyfryd pan ganwyf i ti; a'm henaid, yr hwn a waredaist."‡ Neu pwy a ddichon adrodd y diddanwch a dy-welltir i galon sant trallodus, pan ddyga yr Yspryd Glan yn nerthol i'w feddwl gyffelyb addewid werthfawr a hon? "Ond yr awr hon fel hyn y dywed yr Arglwydd dy Greawdwr di, Jacob, a'th luniwr di Israel, Nac ofna; canys gwaredais di; eiddof fi ydwyt."§ Nid rhan fechan o'r diddanwch cynnwys-

\*Heb. iv. 2. †Esa. xl. 1, 2. ‡Ps. lxxi. 23. §Esa. xlivi. 1.

wedig yn y cyfryw addewidion a gyfyd oddiwrth gariad gwahaniaethol a phrynedigaeth neillduol. Ond os bu Crist farw dros bechod yn y crynswth, ni bu efe farw dros un dun mwy na'u gilydd, a'r cysurtarddedig oddiwrth brynedigaethneillduol ofer yw.

3. Argyhoeddiad ysbrydol o undeb ag Iesu, yn ei farwolaeth, ei adgyfodiad, a'i ddyrchaifiad, sydd hanfodol i orfoledd y credadyn. Diddanwch sant yw, ei fod ef yn farw mewn ystyr farnol gyda Christ. Llawenha yn hyn, fod Iesu yn fyw oddiwrth y meirw, nid i farw mwyach, wedi dibenu pechod; ac fel na cheir pechodau ei bobl arno ef mwyach; nid arglyddiaetha marwolaeth arno ef, eithr byw y mae yn dragwydd i Dduw. Yn awr, y mae yr Yspryd yn sierhau calon y credadyn am dano ei hun a Christ, mai un ydynt. Cyfrifa sant ei hun drwy yr Yspryd "yn farw yn wir i bechod; eithr yn fyw i Dduw yn Nghrist Iesu ein Harglywydd." Efe a groeshoeliwyd gyda Christ, a fu farw gyda Christ, ac a gyfodwyd gyda Christ, ac a ddyrchafwyd i eistedd yn y nesfolion leoedd yn Nghrist, a hyn ell yw ffynonell ei orfoledd. "Ni ddyrchefir ac ni chyfodir eich ysbrydoedd byth, medd un Walter Cradock sanctaidd, i fyw bywyd Paul, wrth edrych ar unrhyw beth yn och eich hunain yn bersonol yn eich meddiant; ond yr hyn ydych drwy berthynas a phriodas a Christ. Cyfrifwch eich hunain yn feirw gyda Christ; ac felly amgyffred, fy mod yn ddyn cyflawn; yr oeddwn i unwaith yn rhwym wrth gyfraith Duw, deddf ofnadwy; ac y mae miloedd yn usfern yn talu y ddyled ac heb ei thalu; ac etto myfi a delais bob ffyring, ac ni ddichon y gyfraith osyn i mi ychwaneg. Mi a offrymais gyflawnnder perffaith i Dduw; ac yr wyf yn awr yn eistedd ar deheulaw Duw yn y nefoedd, drwy fy undeb ag Iesu Grist."\* Un arall o feibion gwerthfawr Seion a amlyga ei ffydd mewn Prynwr byw, ac a ymarfer ymddiried ei ysbryd gwaredigol fel hyn. Gan gyfeirio at groes Crist, efe a ddywed,

\*W. Cradock's work, p. 25. Y diweddar odiog Mr. Charles, o'r Bala, yn nghyd a Mr. Oliver, o Gaerleon, a wnaethant wasanaeth pwysig i Eglwys Dduw, drwy adgraffu traethiadau gwerthfawr Mr. Cradock. Y deg pregeth ar Rhuf. viii. 5, a gynnwysa un o'r arddangosiadau eglaraf, cyflawnaf, a chyfoethocaf o'r athrawiaeth fawr o gyflawnnder cyfrifol a welais i erioed. Y traethiadau hyn ydynt addas ryfeddol i gyflyrau enediau trallededig, drwy gyfeirio at y wir ffordd o dderbyniad gyda Duw. Mr. Cradock oedd wr sanctaidd godidog, a gweinidog o'r mwyaf llafurus. Efe a lafuriodd yn benaf yn Nghymru, tua chanol y 17eg ganrif, ynghyd a'r gwr ymroddgar hwnnw i Dduw, Mr. Vavasor Powel. Yr oedd gallu a llwyddiant anarferol yn cyd-fyned a'i lafur-waith ef.

“ Fy nhâl-gollyngdod llawn,  
 A phin o hairan dwfn â gwaed,  
 Yn argraphedig gwel  
 Yn ystlys Crist, ei ddwylo a'i draed;  
 Diogel wys, O ddeddf,  
 O angau glas, a phechyd blin,  
 Fi'n euog byth ni chewch,  
 Croesheliwyd Iesu Grist ei hun.” CENNICK.

Yn y modd yma y gorfoledda credinwyr yn Nuw, trwy ein Harglwydd Iesu Grist, trwy yr hwn y derbyniasant y cymmod. Eithr hyn oll a ddeillia oddiar y tyb o undeb a Christ Iesu, pan y bu efe farw, ac y cyfododd drachefn; ond ni hanfododd y cyfryw undeb rhwng Crist a neb o hil Adda, os gwir yw y ddyfais anmhennodol.

4. Y cyfranogaeth cyfammodol a sedd Duw yn ei bobl, ag a feddant hwythau ynddo ef, sydd ffynonell ffrwythlon o ddiddanwch i'r saint. Cyfansodda addewid ardderchog y cyfammod newydd: “ Mi a fyddaf yddynt hwy yn Dduw, a hwythau a fyddant yn bobl i mi;” ac gwrthglawdd eu diogelwch yw. “ Nac ofna; canys yr ydwyt fi gyda thi; na lwsrha; canys myfi yw dy Dduw.” Sant tralledig a feddianna y tangnefedd sydd uwchlaw pob deall, pan alluogir ef gan yr Yspryd Glan i ddywedyd, “ Yr Arglwydd yw fy Nuw.” Hyn a sych ei ddagrau, a lewyrcha ei wynebpryd, ac a lonna ei galon alarus. Mae'n cynnwys yr hyn oll a all efe chwennych mewn amser ac i dragywyddoldeb. “ Hwy a alwant ar fy enw, a minau a'u gwrandawaf: יְהוָה dywedais, Fy mhobl yw efe; ac yntau a ddywed, Jehovah, yr Arglwydd yw fy Nuw.”\*

Eithr ymddengys nad addefa pleidwyr prynedigaeth anmhennodola chyffredinol, yr undeb cyfammodol hwn. Credant hwy fod gan Dduw barch neillduol at bobl dduwiol, ond am y berthynas briodasol gyfammodol hono, a ddylifa oddiwrth gariad arfaethol a chymmwynasgarwch tragicwyddol, ni wyddant hwy ddim oll oddiwrtho. Y berthynas gyfammodol hon a gyfyd allan o gariad didoledigaethol, ac sydd gyson yn unig a phrynedigaeth neillduol, o achos bod holl fendithion y cyfammod tragicwyddol wedi eu sicrhau trwy y gwaed hwnw a dywalltwyd tros lawer.

YN BUMMED. Ni fydd i mi ond ychwanegu yn y lle olaf, bod prynedigaeth anmhennodol yn rhy wan i gynnal y meddwl

\*Zech. xiii. 9:

yn awr sobr yr ymddattodiad. Nid dim llai na chymhwysiad personol o waed cymmodol a ddichon ddistrywio osn marwolaeth. Tuag at farw yn orfoleddus, rhaid i ni feddiannu sicrwydd i Crist ein caru ni, a rhoddi ei hun drosom ni: ond y sicrwydd hwn ni's gallwn gael, os tros bechod yn unig y bu Crist farw, ac nid tros bersonau neillduol. Ni ymddibyna ein diogelwch, mae yn wir, ar y sicrwydd hwn, ond ein gorfoledd a ymddibyna arno.

Y modd mwyaf nodedig i gadarnhau yr ymresymiad hwn ydyw, trwy ddwyn y'mlaen engreifftiau o farwolaeth brofiadol y saint. Llawer engraifft ar gof sydd yn nhystiolaeth proffeswyr, a ddalient syniadau deddfol trwy eu bywyd, y bu lawen ganddynt ymwrthod a hwynt pan ddaethent i farw.\* Ond ni chlywais i ac ni ddarllenais erioed am un person, yr hwn a arweiniesid i mewn i ogoneddau gras pen-arglwyddiaethol, na chydai yn yr un gwirionedd, fel ei unig gefnogaeth yn awr marwolaeth. Ni chlywais erioed i neb o'r cyfryw, pan ddeuent i farw, ofidio iddynt garrio athrawiaeth gras yn rhy bell, neu ddyrchasu Crist yn ormodol. Ni wybum erioed am engraifft o'r cyfryw un yn ymadael a'i egwyddorion, ac yn cymmeryd noddfa mewn Arminiaeth, neu brynedigaeth anmhennodol; canys nid oes neb, "wedi iddo yfed gwin hen, a chwennych y newydd yn y fan: canys efe a ddywed, Gwell yw yr hen."

Ymlyniad ystyfnig wrth unrhyw syniadau neillduol, yn wir, nid yw brawf bod y syniadau hyny yn union; etto hyder y credadyn wrth farw a ddyry reswm cryf dros wirionedd yr egwyddorion hyny, a'i galluoga fel hyn i ymfuddugoliaethu. Tystiolaethau pobl yr Arglwydd yn angau, ydynt dra hyfryd ynddynt eu hunain, yn ddiddanus i'r brodyr, ac yn anrhydeddus i Dduw. "Gwerthfawr y'ngolwg yr Arglwydd yw marwolaeth ei saint ef." Pob tystiolaeth ag y galluogir gwir gredinwyr i'w rhoddi dros wirioneddau yr esengyl, a ffyddlondeb Duw, ydynt werthfawr y'ngolwg yr Arglwydd; ond eu tystiolaethau yn angau ydynt neillduol felly, gan y cydfynedant yn gyffredin a chyfranogiad cyfoethocach o'r Yspryd.

Rhaid cyfaddef, pa fodd bynag, bod ymddygiadau yr Arglwydd tuag at ei bobl yn bur dywyll, ac yn anolrheinadwy. Nid bob amser mewn cywair ysbryd gorfoleddus y rhaid iddynt

\*Mr. Richard Baxter, pan ar ei wely angau, ymwelodd cyfall ag ef, yr hwn a'i hadgofiodd o'r gogoniant yr oedd efe yn myned iddo, ac y canlynai ei weithredoedd da liosg ef i sefyllfa well. Yr hen wr boneddig, gan godi ei law farwol i synu, a'i chyhwfanu, a atebodd, "Nac ynganwch wrthyf fi am weithredoedd da; Ow! mi a ymdriniaisiai ormod ynddynt hwy yn barod."—*Toplady's works*, vol. iv. p. 172.

fod yn dystion i'r gwirionedd. Rhai gweithiau yr Arglwydd a dynna yn ol lewyrch ei wyneb oddiwrthynt, ac a rydd ar ddeall iddynt y gwna efe hyny mewn anfoddlonrwydd tadol, o achos iddynt dristau ei Yspryd Sanctaidd. Hyn yn neillduol yw yr amgylchiad, os bu iddynt ymdrin yn dwyllodrus o berthynas i'r gwirionedd. Toplady, y gwr grymus hwnw i Dduw, a adrodd yr engreifftiau hygofus canlynol o anfoddlonrwydd tadol yr Arglwydd, y'nghyd a'i ffyddlondeb cyfammodol. "Yr oeddwn i gynt, medd ef, yn bur gydnabyddus a dau wr teilwng yn y weinidogaeth, y rhai oeddynt yn nodedig dduwiol, ac yn helaeth eu defnyddioldeb. Bu un o honynt farw yn 1759, a'r llall yn 1761. Yr oeddwn i yn meddwl os oedd unrhyw ddynion yn y byd yn ffyddlon i'r goleuni a roddasai Duw iddynt, eu bod hwy felly. Ac etto, yn eu clefydau olaf, hwy a gawsant y fath olwg ar eu hanffyddlondeb blaenorol, ag a'u darostyngodd hwynt agos, dros amser, i anobeithio am eu hiachawdwriaeth. Y cyntaf o honynt a ddywedai, y chwennychai syw yn unig fel y buasai iddo gael y cyfleo o bregethu yr efengyl mewn modd mwy cyflawn nag y'gwnaethai efe erioed o'r blaen. Yr olaf a waeddai allan, mewn gwasgfa o gyfyngder, 'Mae Duw yn cuddio llewyrch ei wyneb oddiwrth fy enaid i, ac yn fyngosod yn fy ngwely yn y tywyllwch, o achos i mi, drwy gyd-syniad llwfr a rhai o'm gwrandawwyr, beidio dal yn ddigonol ar athrawiaethau gras, yn ystod fy ngweinyddiadau cyhoeddus; yn enwedig yr athrawiaeth o etholedigaeth, yn yr hon athrawiaeth y gwelaf yn awr y fath ogoiant, ar na welais erioed o'r blaen.' Etto pob un o'r ddau oeddynt ddynion da, ac a ymadawsant yn gysurus yn y diwedd; er hyny nid hyd onid arweiniwyd hwynt drwy anialwch blin ac erchyll o edifeirwch awchlym, ac ymdrechiadau cyfyng."\*

Gwir yw, nas gallwn bob amser ddeongli ymdriniaethau yr Arglwydd ag eraill, ac y dylem am hyny "beidio barnu;" etto deongla Duw ei ffyrdd ei hun, yn sych i'w bobl ei hun, ac a ddysga ei blant anufudd yr anrhydedda ef y sawl a'i hanrheddant yntau.

Ond y'mha foddy bynag yr ymarfer efe feddyliau ei saint yn y diwedd, pa un ai athrist ai llawen fyddant, dygir hwynt i dystiolaethu mwy neu lai tros y gwirionedd. Yn hyn yma y cynnwysir nid rhan fechan o werthfawrogrwydd eu marwolaeth. Canys yn hyn yma y gogoneddir Duw, ac y mawrygir ei air, pan yr ymddangosa yr efengyl yn holl-ddigonol i gynnal yr

\*Works, vol. iii. p. 133, note.

enaid mewn bywyd ac yn angau. Yr engreifftiau canlynol a wasanaethant i egluro y pwngc.

DOCTOR THOMAS GOODWIN, fel mae yn hyspys ddigon, oedd un o'r ysgrifenwyr galluocaf mewn amddiffyniad o ethol-edigaeth dragwyddol, a phrynedigaeth neillduol, ac a gynnyrchiodd y wlad hon erioed. Yn ysbaid rhan fawr o'i fywyd hir, efe a ddaliodd yn gadarn yr athrawiaethau hyn gyda chysondeb unweddol, ac a fu farw mewn cyflawn sicrwydd o'u gwirionedd. Yn hanes ei fywyd a'i farwolaeth, blaenddodol i'r 5ed gyfrol o'i weithydd, ni a gawn y pethau neillduol canlynol yn ei ymadawiad buddugoliaethus. "Yn Chwefror, 1679, cymmerodd twymyn ef, yr hon, mewn ychydig ddyddiau, a derfynodd ei fywyd. Yn nghanol ei holl angerdd, efe a ymddiddanodd gyda'r fath rym o ffydd, a sicrwyd o gariad Crist, gyda'r fath fawrygrwydd o rad ras, gyda'r fath lawenydd gan gredu, a'r fath ddiolchiadau a chanmoliaethau, ag a gyffrodd ac a effeithiodd yn ddifawr bawb ar ei clywsant. Efe a orfoleddodd yn y meddyliau ei fod yn marw, ac yn myned i gael cymmundeblawn a dirwystr a Duw. 'Yr wyf fi yn myned, medd efe, at y Tri Pherson y cefais gymmundeblawn a hwynt; hwy a'm cymmerasant i, ni chymmerais i hwynt. Myfi a gyfnewidir ar darawiad amrant; rhyddheir fi oddiwrth fy holl drachwantau a'm llygredigaethau, y rhai ni chawswn ymwared o honynt yma; y llyffaent crawciedig hyn a gwymrant ymaith mewn moment. Ni allaswn ddychymygu y cawswn byth y fath fesur ffydd yn yr awr hon; na, ni allaswn byth ei ddychymygu. Fy mwa a arhoa yn gryf. A ranwyd Crist? Na ddo y mae genyf ei gyflawnnder oll; cafwyd fi ynddo ef, nid yn fy nghyflawnnder fy hun, yr hwn sydd o'r gyfraith, ond yn y cyflawnnder sydd o Dduw, yr hwn sydd trwy ffydd Iesu Grist, yr hwn a'm carodd i, ac a'i rhoddes ei hun droswyf fi. Ni ddichod Crist fy ngharu i yn well nag y mae; yr wyf yn meddwl na allaf finau garu Crist yn well nag yr ydwyf; yr wyf wedi fy llyngcu i fynu yn Nuw.' Gyda'r sicrwydd hwn o ffydd, a chyflawnnder o orfoedd, ymadawodd a'r byd hwn, yn yr 80fed flwyddyn o'i oedran."

DOCTOR TOBIAS CRISP, fel llawer eraill o bobl yr Arglwydd, yn ei flynyddoedd boreuol, oedd Arminiad selog, ac yn ddyfal iawn yn ei ddyledswyddau gweinidogaethol. Ond gwelodd Duw yn dda, amryw flynyddau cyn ei farwolaeth, arwain ei feddwl i uchelderau a gorddyfnaderau rhad ras a chariad tragicwyddol, a sefydlu ei enaid mewn modd anghyffredinol,

yn y ffydd o gyfiawnder cyfrifol. Hyn yn fuan a gasodd iddo y cyfenwad o Antinomian, er bod pawb a'i hadwaenai, yn brofiesedig a halogedig, yn dystion o'i ymroddiad anghyffredin i Dduw, ac o sancteiddrwydd ei fywyd. Wedi treulio ei nerth yn fawr, trwy bregethu, gweddio, &c. gwastadol a llasurus, yn sýn ychydig nosweithiau cyfain, er dinystr i'w iechyd, efe a fu farw yn 1642. Ond yr un gwirioneddau ag a fuont e igynhaliaeth mewn bywyd, oedd ei fuddugoliaeth yn angau. “Efe a amlygodd, medd Mr. Lancaster, y fath ffydd, y fath orfoledd, y fath gydwbybod esmwyth a thangneseddus, y fath fuddugoliaeth ar angau ac usfern, ac a wnaeth i'r rhai a safent gerllaw synnu. Ac ar yr un pryd nis anghofiodd broffesu y'ngwydd pawb presennol, ddianwadalwch ei ffydd i'r ystyr yma; ‘mai megis ag y bu efe byw ar rad ras Duw trwy Grist, felly yr oedd ef yn rhoddi i fynu, mewn ymddiried a llawenydd mawr, hyd yn oed cyn belled ag yr oedd ei gyflwr presennol yn alluog, ei einioes a'i enaid i ddwylaw ei anwylaf Dad.’ Ei fab, Mr. S. Crisp, a'n hyspysa, iddo ddywedyd i'w gyfeillion wrth ochr ei wely ychydig funudau cyn ei ymadawiad o'r byd hwn, ‘Pa le mae yr holl rai a ddadleuant yn erbyn rhad ras Duw, a'r hyn a ddysgais i o hono? Yr wyf yn awr yn barod i'w hatteb hwynt oll;’ ac felly efe a hunodd.”

DR. THOMAS COLE oedd weinidog o'r enwad Anymddiniol yn Llundain, ac awdwr gwaith rhagorol ar “Adgenhedliad, Ffydd, &c.” Efe a amddiffynodd yn alluog yr athrawiaethau o ras pen-arglwyddiaethol, ac yn neillduol cyfiawnder cyfrifol, ac a wrthwynebodd y cyfeiliornad Neonomaidd yn selog. Am hanes ei glefyd diweddaf a'i farwolaeth, a gymmerodd le yn 1697, yr wyf yn ddyledus i Hanesyddiaeth Mr. Wilson o'r Eglwysi Ymneillduedig. Hyspysir i ni, “yn y rhag-olwg o'i ddiwedd dynesol, bod ei feddwl yr un mwyaf dedwyd a ellid ddychymygu; ac efe a ymddiddanodd ag amryw bersonau, mewn modd ag a rodd foddlonrwydd mawr i'r thai o'i amgylch. Mr. Traile, yr hwn oedd bresennol, a ddywedodd wrtho, ‘Syr, chwi a wyddoch pa wrthwynebiadau a wnaethpwyd yn erbyn gwirioneddau yr efengyl, a pha ymryson a fu, &c. Ond a feddiennwch chwi un math o edifeirwch am i chwi roddi achlysur i'r amrasael hwn.’ Mr. Cole a attebodd, ‘Edifarhau, nac ydwyf; yr wyf yn edifarhau na bum yn fwy egniol a gweithgar yn amddiffyn y gwirioneddau hynny, mewn ymddiried o'r thai yr wyf yn marw; ac os oes genyf unrhyw ddymuniad i fyw, hynny sydd fel y byddai i mi fod yn fwy

gwasanaethgar i Grist, yn amddiffyn ei enw o'r areithfa. Ond efe a ddichon amddiffyn ei wirionedd ei hun, pan syddo ei greaduriaid a'i weinidogion tlodion a ymdrechasant drostynt (gystal ag y medrent) wedi eu gosod yn y llwch.' Dywedodd Mr. Traile, 'Ni a chwennychem wybod y tangnefedd a'r diddanwch sydd genych oddiwrth y gwirioneddau hyn, mewn perthynas i'ch cyflwr tragedywyddol?' Efe a attebodd, 'Unig sylfaen fy ngysur yw, pe amgen byddai angau yn ofnadwy. Ni's meiddiwn edrych angau yn ei wyneb, oni buasai y sicrwydd diddanol a ddyry ffydd i mi o fywyd tragedywyddol yn Nghrist. Nid yr hyn a ddygaf fi at Grist, ond yr hyn sy'n deillio oddiwrtho ef, wedi derbyn rhyw ddechreuadau o hono, yw yr hyn a welaf yn tarddu i fynu i fywyd tragedywyddol. Nid adwaenant hwy allucymmeliadol cariad Crist, y rhai a fedrant fod yn ddrygionus ac yn benrydd dan y fath athrawiaeth gysurus. Ni theimla neb ei hawdurdod ond y rhai a alluoga Duw i gredu, a hi a anmherchir gan bawb a'i hanghredo.' Yr ymadroddion canlynol yw rhai o'i ddywediadau achlysuol, ar wahanol amserau, ar ei wely angau. 'Yr wyf yn disgwyl am ymadawiad heddychol, yr wyf yn hiraethu am weled ei iachadwriaeth ef; cyn hir mi fyddaf lle fy rhyddheir oddiwrth bob poen. Y mae'r Yspryd a'r Briodas-ferch yn dywedyd, Tyred, O tyred! Arglwydd Iesu, ar frys.' Wrth un a ddaethai i ymweled ag ef, efe a ddywedodd, 'Duw a'm gwnaeth i yn wrtynnen; ond mi a fynwn i'r holl fyd wybod, y gallaf fi farw yn gysurus yn yr athrawiaeth a bregethais.' Dywedodd un cyfaill wrtho, 'Chwi a fuoch yn un o'r rhai sydd yn poeni y rhai sydd yn trigo ar y ddaear, fel y crybwyllywd ar weddi heddyw.' Efe a attebodd, 'Yr efengyl a'u poena hwynt fwy fwy. Bydd gan Dduw ei dystion, nifer digonol, y'mhob oes. Bendigedig fyddo Duw, efe a'm galwodd i i'w deyrnas nefol. Yr wyf yn hiraethu am fod gyda Christ. Peth dymunol yw marw; yr wyf yn disgwyl am dy iachadwriaeth.' Wrth Dr. Chauncey, yr hwn oedd bresennol, efe a ddywedodd, 'Er na adawent i mi bregethu yr athrawiaeth o rad ras yn heddychol, etto Duw a edy i mi farw yn y diddanwch o honi.' Yn y modd ymddarystyngedig a dedwydd yma, Mr. Cole a ymadawodd i fydd yr ysbrydoedd, Medi 16, 1697, yn y 70ain flwyddyn o'i oedran.'

MR. JOSEPH HUSSEY, yr hwn a adwaenir oreu wrth ei weithyddiaethau, a elwir, "God's operations of grace but no offers of grace, Gweithrediadau gras Duw, ond nid cynnygiad-

au o ras," ac "Glory of Christ unveiled, Gogoniant Crist wedi ei ddilennu," oedd, yn y rhan olaf o'i fywyd yn wrthwŷn nebwr selog iawn i Arminiaeth yn ei holl ganghenau. Yn ei funudau olaf, er mewn poen dirfawr, efe a anrhyydeddwyd i ddwyr rhai tystiolaethau gwerthfawr dros wirioneddau gras neillduol, y rhai canlynol yw ychedig o honynnt. Uu o'r eglwys wrth ofyn iddo pa fodd yr ymarferid ei ffydd mewn perthynas i'r athrawiaethau hyny a arferai efe bregethu? Efe a attebodd 'Yr wyf fi mewn diysgog a chyflawn sicrwydd o'r holl wirioneddau hyny a bregethais, ac yn marw mewn crediniaeth ddiymod o honyn oll.' Fel ag yr oedd llawer o'r eglwys yn ei ystafell, efe yn fynych a ddefnynai ryw nodiadau ysbrydol, y rhai a amlygant deimladau ei feddwl ar yr achlysur. Un person yn gofyn iddo pa fodd yr oedd efe? 'Yr wyf fi, meddai ef, yn disgwyl am fy nghyfnwediad dedwydd, i ymddattod, a bod gyda Christ.' 'Pa beth yr ydych chwi yn ei gymmeryd, Syr?' 'Nid oes genyf flas at unrhyw beth yma, ond y mae fy archwaeth ysbrydol mor dda ag erioed i flasio athrawiaethau yr efengyl.' Pan ofynwyd iddo pa fodd y teimlai yn ei enaid mewn perthynas i'r athrawiaethau a draddodasai? Efe a attebodd, 'O, gwych! Hwy ydynt fy nghynnaliaethau penaf dan fy mhrofedidgaethau a'm poenau. Mi a welaf yn awr wirionedd yr hyn a bregethais. Nid fy nhŷbiadau neu fy mympwy i ydynt, ond gallu Crist yn fy enaid.' Wrth heppian ar amserau, pan ddeffroai, efe a ddefnynai y cyfryw eiriau a ganlyn. 'Mi a genais foliant yr Arglwydd yn fynych yn yr iseldiroedd, ond Oh! pa hyd y bydd cyn y deuaf i ychelder Seion, i ganu i Dduw, ac i'r Oen ar yr orsedd-faingc. Oh fendigedig angau, peth hyfryd yw marw, canys yna bydd Crist oll yn oll. O Arglwydd, casgl dy etholedigion allan o'r byd pechadurus hwn attat dy hun.' Torrai allan yn achlysurol mewn llawer o ymadroddion byrion, megis y rhai hyn; 'Bendith, gogoniant, anrhyydedd a mawl fyddo i Dduw ac i'r Oen, byth bythoedd. Mae pechod yn ofnadwy, ond y mae gras yn buddugoliaethu trwy Iesu Grist. Arglwydd, bydd gyda mi yn fy ymdrech olaf, ac na âd fi. O gad i mi fynedfa helaeth i mewn i ogoniant, i ganu dy fawl.' Fel hyn y parhaodd yn tystiolaethu am Iesu Grist, a'i foliannu ef, hyd ddydd Mawrth, Tachwedd 15, 1726, pryd yr hunodd efe yn yr Arglwydd, yn y 67fed flwydd yn o'i oedran.'\*

\*Yr hyn sydd uchod a dalfyrwyd o hanes Mr. Hussey, yn "Hanesyddiaeth Mr. Wilson, &c."

**MR. A. M. TOPLADY.** Os erioed y gorphenodd credadyn o'r amseroedd diweddar ei yrfa mewn llawenydd, a'i anrhydeddus a dwyn ei dystiolaeth dros wirioneddau yr efengyl, yr enwog Mr. Toplady oedd efe. Dros yn agos ddwy flynedd, cyn y cymmerodd yr Arglwydd ei was tra ffafredig etto ei hun, efe a welodd yn dda ei lenwi yn dra mawr a'r Yspryd Sanctaidd, a rhoddi iddo ragbrofiadau anghyffredinol o'i ogoniant. Efe a ryddhawyd o'i holl amheuon a'i ofnau, ac a feddianodd y sicrwydd llawnaf o'i iachawdwriaeth dragwyddol yn Nghrist. Yn ei weinyddiadau cyhoeddus efe a ddygwyd weithiau tu hwynt iddo ei hun, ac ymddangosai agos mewn llesmair tra yn traethu ar gariad tragywyddol, prynedigaeth Iwyr, rhad ras, a iachawdwriaeth orphenol. Y cysuron dwyfol a'r rhai y ffafriwyd ef, a gynnyddasant fel yr oedd yn agoshau at ei ddiwedd dynesol. Y'nghylch mis cyn ei drangcedigaeth, mewn canlyniad o chwedi ddrygionus iddo newid ei syniadau, a gylchdaenwyd gan ddilynwyr Mr. John Wesley, efe a gyhoeddodd ei gyffes ddiweddaf o'r gwirioneddau gwerthfawr hyny, y rhai a amddiffynasai efe mor selog a galluog. Yn y gyffes hon, efe a ddyweda, "Os cymmerir unrhw sylw gelynnaethol o'r papuryn hwn, nid wyf yn bwriadu gwneuthur unrhyw wrthattebiad iddo. Yr wyf bob dydd y'ngolwg fy ymddattodiad. Ac yn y sicrwydd llawnaf o'm hiachawdwriaeth dragwyddol, yr wyf yn disgwyl, yn edrych, ac yn hiraethu am ddyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist."\*

Mewn cyd-ymddiddan a bonnedig o'r cŵr meddygol, nid y'mhell cyn ei farwolaeth, efe a ymrthododd yn fynych gydag atgasrwydd yr ymddibyniad lleiaf ar ei gyflawnder ei hun, fel unrhyw achos o'i gyflawnhad ger bron Duw, ac a ddywedodd, y gorfoleddai yn unig yn iachawdwriaeth rad, gyflawn, a thragwyddol etholedigion Duw, trwy Iesu Grist, trwy sancteiddiad yr Yspryd Glan. Yr un boneddig meddygol a adroddodd y pethau neillduol canlynol o'u cyd-ymddiddaniad. Wedi sylwi yr ymddangosai eiddigedd nodedig yn ei holl ymddygiad, rhag ofn derbyn unrhyw ran o'r anhydedd perthynol i Grist yn unig, ychwanega, "Ei deimladau oedd ynt mor fywiog ar y pwnc hwn, fel y darfu i mi unwaith yn anfwriadol ei daflu agos i wasgfa, wrth sylwi ar y golled fawr a gai eglwys Crist drwy ei farwolaeth, yn y cysswllt presennol. Yr oedd y cyfyngder mwyaf yn weladwy yn ddiattreg yn ei wynebpryd,

\* Gwel Memoirs of Mr. Toplady, yn rhagddol i'r gyfrol gyntaf o'i weithydd ef, Svo. 1794.

ac efe a ddolefodd i'r ystyr yma. ‘Pa beth, drwy fy marwol-aeth i? Na chaiff! Drwy fy marw i? Na chaiff! Mae Iesu Grist yn abl, ac a amddiffyna, drwy offerynau cymmwys, ei wirioneddau ei hun. Ac mewn perthynas i'r ychydig y gall-uogwyd fi gyflawni yn y ffordd hon; nid i mi, nid i mi, ond i'w enw ei hun, ac i'w enw ef yn unig, y byddo y gogoniant.’

“Wrth ymddiddan ar y pwnc o otholodigaeth, efe a ddy-wedodd; ‘Bod cariad tragedywyddol Duw tuag at ei bobl dde-wisedig, ei etholiad tragedywyddol, neillduol, cwbl rad, a'i dde-wisiad anghyfnnewidiol o honynt yn NngchristIesu, heb y golygiad lleiaf at unrhyw wasanaeth, neu weithredoedd cyfiawnder a gyflawnwyd, i'w gyflawni, neu a gyflawnid byth ynddynt neu ganddynt hwy; ganys ni ymddibyna etholedigaeth Duw ar ein sancteiddhad ni, ond ein sancteiddiad ni a ymddibyna ar etholiad ac appwytiad Duw o honom ni i fywyd tragedywyddol.’ Ar amser arall, effeithiwyd arno gymaint a theimlad o gariad tragedywyddol Duw at ei enaid, fel na allai ymattal oddiwrth dywallt dagrau.

“Ychydig amser o flaen ei farwolaeth, wrth ei ddymuniad, teimlais guriad ei galon; a chwennychodd wybod beth oedd fy meddwl am dano. Dywedais wrtho, y curai ei galon a'r rhedweliau yn eglur yn wânach wânach. Attebodd yn ddiat-treg, gyda'r wen hyfrydaf ar ei wynebpryd, ‘Neud, arwydd da yw hyny y dynesa fy marwolaeth yn brysur; a bendigedig fyddo Duw, gallaf chwanegu, y cura fy nghalon bob dydd yn gryfach gryfach am ogoniant.’

“Wrth gyfaill arall, yr hwn, mewn cyd-ymddiddan ag ef yn nghylch ei egwyddorion, a ofynasai iddo pa un a oedd unrhyw amheuaeth yn aros ar ei feddwl mewn perthynas i'r gwirionedd o honynt, attebodd, ‘Amheuaeth! Syr, amheuaeth! Attolwg nac arferwch y gair hwnnw tra yn ymddiddan a mi. Ni allaf ddioddef y gair; o leiaf tra parhao Duw i lewyrchu ar fy enaid yn y modd grasusol ag y gwna yn awr. Nid nad wyf yn deimladwy, tra yn y corph, pe'm gadewid ganddo ef, fy mod yn agored, drwy rym profedigaeth, i amheu pob gwirionedd o'r esengyl. Ond may hyny mor bell oddiwrth fod yr amgylchiad, a bod cysuron ac amlygiadau ei gariad mor ehelaeth, fel ag i wneuthur fy sefyllfa a fy nghyflwr y mwyaf dynunol yn y byd. Ac, mewn perthynas i fy egwyddorion, y gwirioneddau bendigedig hyny y galluogwyd fi yn ol fy mesur tlawd i'w dal, ymddangosant i mi, yn fwy nag erioed, yn y

modd mwyaf gogoneddus yn anmhetrusol. Nid yw fy hanfodiad fy hun, i'm amgyffred i, yn fwy sicr.'

“Wrth ymddiddan a chysaill arall ar y testyn o'i gyffes ddiweddaf, anlygodd ei hun fel hyn; ‘Fy nghyfaill anwyl, nid yw y gwirioneddau mawrion a gogoneddus hyny, y rhai a roddes yr Arglwydd mewn trugaredd oludog i mi i’w credu, a’r rhai y galluogodd fi (er yn bur llesg) i sefyll i fynu i’w hamddiffyn, (fel y dyweda y rhai ni chredant hwynt, neu a’u gwrthwynebant, eu bod,) yn athrawiaethau sychion, neu byngciau meddyliadol. Nac ydynt. Ond wedi eu dwyn i ymarferiad a phrofiad calon-deimladwy, y maent yn wir lawenydd a chynhaliaeth fy enaid; a’r cysuron a ddylifa oddi wrthynt, a’m carriant y’mhell uwchlaw pob peth gweledig.’

“Yn arall o'i gyfeillion yn crybwyllyr un modd am y chwedl iddo alw yn ol ei egwyddorion blaenorol; efe a ddywedodd, gyda rhyw faint o danbeidrwydd a chyffro, ‘Y fi alw yn ol fy egwyddorion blaenorol! Na atto Duw i mi fod yn wrthgiliwr mor diffaith! At yr hyn yn fuan yr ychwanegodd, gyda gostyngeiddrwydd mawr, ‘Ac etto gwrthgiliwr felly a fyddwn yn ebrwydd, pe gadewid fi i mi fy hun.’

“Ar amser arall, gwaeddodd allan, ‘O pa fath ddydd haul-lewyrchiol a fu hwn i mi! Ni feddaf eiriau i’w fynegi. Pa fath beth mawr yw gorfoleddu yn angan!’ Yn ymddiddan am Grist, efe a ddywedodd, ‘Mae ei gariad ef yn annhraeth-adwy.’ Yr oedd yn llawer ganddo ddatgan mai yr wythfed bennod o’r Rhufeiniaid, y drydedd adnod-ar-hugain, hyd y diwedd, oedd llawenydd a chysur ei enaid. Ar y gyfran hono o’r Ysgrythur y traethai yn aml gyda hyfrydwch, ac a saeth-weddiai yn fynych, ‘Arglwydd Iesu pa ham yr arosi cyhyd?’

“O fewn awr i’w farwolaeth, galwodd ei gyfeillion a’i wasanaethwyr y’ngyd, ac a ofynodd iddynt, a allent hwy ei roddi i fynu? Wrth iddynt atteb yn gadarnhaol, gan i Arglwydd weled yn dda fod mor rasusol tuag atto, efe a attebodd, ‘O pa fath fendith yw eich gwneuthur yn fodlon fy rhoddi i fynu i ddwylaw fy Ngwaredwyr anwyl, ac i ymadael a mi; nid hir y bydd cyn y cymmer Duw fi, canys ni ddichon un dyn marwol fyw (gan dorri i wylo o lawenydd, wrth ei ddyweddyd,) ar ol y gogoneddau a ddatguddiodd Duw i fy enaid i.’ Yn fuan wedi hyn, cymmerodd ei ysbyryd gwaredigol ei ehediad ymaith, ar ddydd Mawith, Awst 11, 1778, yn y 38ain flwyddyn o’i oedran.”

MR. JOHN MACGOWAN, adnabyddus i'r byd fel awdwr • Cydymddiddanion y Diefl, a gweithiau cywraint eraill, oedd weinidog o'r Bedyddwyr, a bugail yr eglwys yn cyfarsod yn Mhetrual Swydd Dyfnaint, yn Llundain. Yn y rhan foreuol o'i fywyd yr oedd mewn cyssylltiad a'r Trefnyddion Wesley- aidd, ond wedi goleuo et feddwl i weled gogoniant gras pen- arglwyddiaethol, efe a bregethodd yn selog a chyhoeddus yr holl wirioneddau pwysfawr ag a ddaliai y Bedyddwyr neillduol yr amser hwnw yn ddianwadal.

I Mr. Reynolds, gweinidog iawn-ffyddiog, yr hwn a gan- lynnodd Mr. Brine, yr ydym yn ddyledus am yr hanes o dys- tiolaeth Mr. Macgowan ar ei wely angau. "Ymwelais ag ef yn fynych, medd Mr. Reynolds, yn ei glefyd diweddaf, pryd y cymmerai achlysur, fel y caniatai cyfleusdra, o agror i mi e holl galon:

"Ar un amser yr oedd mewn tywyllwch enaid mawr, ac yn galaru yn ddirfawr dan giliadau presennoldeb Duw. Dau beth, meddai, a driniodd ei feddyliau yn ddwfn. Un oedd, pa fodd y gallasai y cystuddiau trymion a chymhlethedig a welsai Duw yn dda osod arno ef weithio fel ag i ddwyn y'mlaen ei wir ddaioni. A'r lall oedd, bod Duw, ei gyfaill goreu, yn cadw y'mhell oddiwrth ei enaid, pan y gwyddai pa mor drall- odeddig oedd ei feddwl am lewyrch ei wynebpryd. 'O!' meddai, gan droi attaf fi, ac yn ymddiddau mewn difrifoldeb mawr, 'Fy enaid a hiraetha ac a frefa am Dduw, am y Duw byw; ymweliadau ei gariad a lonnai fy enaid, ac a waelai i'r cystudd trwm hwn eistedd yn ysgafn arnaf. Ni allaf fod yn gysurus heb bresennoldeb arferol Iesu, fy Ngwaredwr. Yr wyf yn ymddiried y dychwel efe attaf yn suan, ie, mi wn y gwna ef yn ei amser ei hun; canys efe a wyr pa mor fawr y rhaid i mi wrth ddylanwadau ei ras!' Yn yr ymddiddan yma crybwylloedd yn fynych am lygredigaeth ei natur, a pha fath faich y cafodd ei fod. 'Fy nghalon, meddai ef, sydd ddi-ffaithach ddiffaithach. Bob dydd y mae i mi y fath olygiadau darostyngol o galon lygredig ag sy'n fy mhwys o i lawr. Rhy- feddu yr wyf pa un a oes neb o bobl yr Arglwydd yn gweled pethau yn yr un goleu ag y gwelaf fi hwynt.' Ac yna, gan droi attaf fi, efe a ddywedodd, 'A gewch chwi eu bod felly, fy mrawd?' Wrth i mi ei atteb yn gadarhaol, dywedodd, 'Mae'n llawen genyf hyny.' Yr amser nesaf, yr hwn oedd y diweddaf i mi ymddiaddan ag ef, mi a'i cefais mewn hwyl felus a nefol; ei wynebpryd a ddangosai sirioldeb ei feddwl. Ar

fy mynediad i mewn i'r ystafell, gwaeddodd a'llan, 'O fy mrawd anwyl, mor llawen genyf eich gweled! eisteddwch i lawer, a gwrandewch am garedigrwydd sy Nuw. Chwi a'm gwelwch cyn saled ag y gallaf fod tra yn y byd hwn, a chystal ag y gallaf fod tra yn y corph. Meddyliaf fi, fod genyf gym-maint o nefoedd ag allaf gynnal.' Yna dagrau o lawenydd, fel afon, a ffrydiasant o'i lygaid; a'i hwyl hyfrydlion tufewnol a rwystrodd ei ymadrodd dros amser. Efe a dorrodd ar ddis-tawrwydd gyda dywedyd, 'Bydd y gwaith drosodd yn ebrwydd: ond ni fedd angau ddim yn ddychrynllyd ynddo i mi. Nid oes i mi un meddwl pryderus. Ewyllys Duw a'm hewylls inau ydynt yr un. Mae pob peth yn dda, etto yn ddirgeledig. Ni allwch amgyffred yr hyfrydwch a denimlaf yn yr adfeddyliad hwn, sef, nad ymatteliais rhag mynegi, hyd eithaf fy ngoleuni a ngallu, holl gyngor Duw. Mi allaf farw yn yr athrawiaethau a bregethais. Gwir ydynt hwy; yr wyf fi yn yn eu cael felly. Ewch rhagoch i bregethu efengyl Crist, ac na ofelwch beth a ddywedo y byd am danoch chwi.' Yr holl amser yma mi eisteddais yn ddistaw; a chan gyfodi i gym-meryd fy nghennad, gan ofni y treuliai efe ei nerth yn ormodol, cymmeroedd fi yn ddiattreg gerfydd fy llaw, a chan wylo y naill dros y llall, dymunasom fendithion i'n gilydd. Wrth ymadael, dywedodd, 'Fy mrawd anwyl, ffarwel, ni chaf fi eich gweled mwyach.'

"Fel hyn y gadewais fy nghyfaill a fy mrawd hybarch; a'r newydd nesaf a glywais am dano oedd, i'w ysbryd anfarwol ymadael a'r corph ar brydnawn Sadwrn, i snyder i'r byd o oleuni a gwynfydedigrwydd, i gadw Sabbath tragicwyddol gyda Duw, a'r angylion, a'r saint.

"Mr Macgowan a ymadowd o'r bywyd hwn, Tachwedd 25, 1780, yn y 55ain flwyddyn a'i oedran."

MR. SAMUEL MEDLEY a fu dros saith mlynedd ar-hugain yn fugail eglwys y Bedyddwyr yn Llynlleifiad; ond fel ag y pregethai efe yn synych yn y brif ddinas, adnabyddid ef yn dda yno, ac mewn llawer a fanau yn y wlad, lle yr oedd ei lafur yn fawr ei ddefnydd. Ei olygiadau o'r gwirionedd dwyfol oeddynt agos yr un a'r eiddo Dr. Gill; ac er ei fod y'mhell oddiwrth ysbryd pleidiol a rhagfarnllyd, yr oedd yn rhy flyddlon i ddiangc rhag difenwadau llaweroedd, y rhai oeddynt ewyllysgar i gladdu athrawiaethau yr efengyl, o dan ffug o gariad cyffredinol. Yn y rhan olaf o'i amser, syniadau Mr.

Fuller a dderchreasant ffynu, ond heb gael dyfodiad i mewn i eglwys Llynlleifiad y pryd hyny, am yr hwn amgylchiad Mr. Medley, mewn cyd-ymddiddau a chysfaill, a hyspysodd ei ddiolchgarwch i Dduw. Mewn llythyr ysgrifenedig a'i law ei hun yn ystod ei glefyd diweddaf, at fy mherthynas agos ac unrhydeddedig, efe a ddatgan fel hyn am sylfaen ei obaith. "Nis adwaen i un enw arall, nid oes arnaf eisiau un sylfaen arall i fy ngobaith am iachawdwriaeth dros amser a thros dragwyddoldeb, ond hwnw o eiddo'r Iesu, a chariad tragedywyddol. Ni phallodd hyn erioed etto i un o bobl ddewisedig a galwedig Duw, ac y mae yn ddiogel genyf na phalla byth. Nid da gan i bregethu trwsiadus, hanner y ffordd, na phroffesu felly ychwaith. Chwi a ellwch, ac ymddiredaf y gwnewch, fy anwyl frawd, ddwyn dystiolaeth i mi, byth er pan yr adwaenasoch ac y carasoch fi yn rhwymau yr efengyl ac ymasgaroedd Crist, hyderaf wedi fy ngalluogi drwy ras, yn gyson osod fy wyneb yn erbyn pob math o'r cyfryw gruglwyt cymmysgiedig. Mi a wñ, ac yr wyf yn teimlo beunydd, fy mod yn dlawd, yn dywyll, yn wan, ac yn bryf annheilwng; ond yr wyf yn hyderu na rodiwn mewn cyfrwysdra, nac yn wybodus i mi drin gair Duw yn dwyllodrus, er yr holl fyd, na 'r holl ddynion yn y byd, pa un bynag ai profsesedig ai halogedig, pa un bynag ai gwgu ai gwenu a wñant. Ac a yr wyf yn ysgrifenu y pethau hyn, nid i adderchogi neu i osod fy hun i ffynu, O nage! na atto Duw, ond i ddwyn fy nhystiolaeth ddidwyll a gostyngedig dros y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu." Yr hanes ganlynol o dystiolaeth Mr. Medley ar ei wely angau dros wirioneddau gogoneddus yr efengyl a dynnwyd allan o'i fywgraphiadau, a gyhoeddwyd gan ei fab.\* "O ddechreuaned ei glefyd llafuriodd dan iselder ysprydoedd yn fawr, yn cysodi mewn rhan oddiwrth natur ei anhwyldeb, ond yn fwy neillduol oddiwrth sefyllfa ei feddwl, yr hwn yn gyffredin oedd yn isel a thywyll, yn galaru llawer ar gyfiif y golled o gysuron teimladwy. Yn yspaid y profiad hwn dywedai weithiau, 'yr ofnai iddo fod yn offerynol yn iachawdwriaeth eraill yn unig, megis esgynglwyd i'r adeilad, yr hwn, wedi y gorhener, a dynnir i lawr fel yn ddwasanaeth mwyach.'

"Ni pharhaodd y cyflwr digalon hwn yn hir, er mai graddol oedd y cyfnewidiad a gymmerth le. Llonnwyd ef rwy gymaint a'r rhanau canlynol o'r gair; 'Deuwch attaf fi bawb sydd yn flinderog ac yn drwm-lwythog, ac ni a esmwy-

\* Llundain, 8vo, 1800.

thás arnoch.' 'Gwyn eu byd y rhai a newynant ac a syched-ant am gyflawnder,' &c. &c. Fel ag y cynnyddodd ei wen-didau corphorol; y caddug a'r tywyllwch y llafuriai efe danynt a chwalwyd, a gwawr hefryd dydd tragicwyddol a ddechreuodd dorri allan. Ei hynder a'i gysur yn Nuw, fel ei Dduw cyfam-modol yn Nghrist Iesu, a gynnyddodd yn wastadol; ac efe a ddaeth yn fwyfwy ymddarostyngol i ewyllys pen-aglwyddiaethol ei Dad nefol, gan fwrw ei hun ar graig yr oesoedd, a disgwyl yn amyneddgas am derfyniad ei holl drallodau. Yr 17eg bennod o Ioan oedd yn werthfawr neillduol iddo, dar-lennodd hi yn aml yn ystod ei glefyd. 'Gweddi yr Arglwydd yn wir yw, efe a ddewedai, nid neb ond Crist a allasai ddef-nyddio y weddi hon.'

"Mewn Hythyr a ysgrifenodd ychydig ddyddiau cyn ei far-wolaeth, efe a ddywedodd, 'Bendigedig fyddo Duw, mae ef yn cynnal ac yn dal fy meddwl i fynu ar a thrwy ei air daionus a'i Yspryd Sanctaidd. Er na seddaf hwyliau gorllonawl, neu ehediadau enaid, etto hyderaf yn ostyngedig mai Duw tragicwyddoldeb yw fy noddfa, ac odditanodd y mae ei freichiau tragicwyddol.' Yna efe a ail-adroddodd y geiriau hyny yn y 130ain Psalm, 'Disgwyliaf am yr Arglwydd: disgwyl fy enaid, yn ei air ef y gobeithiaf.'

"Wrth Eglwyswr a'r hwn y buasai efe byw ryw gymaint o amser yn yr ymarferiadau o gyfeillgarwch, y dywedodd, 'Ffarwel, Duw a'ch bendithio chwi: cofiwch nad wyl fi yn marw yn Arminiad, nac Ariad, neu Sosiniad. Yr wyl fi yn marw yn bechadur tlawd, achubedig trwy drugared ben-arglwyddiaethol, gyfoethog, a rhad.' Wrth un arall, a'i alwe-digaeth gynt ar y mor, efe a ddywedodd, 'Yr wyl fi yn awt fel llong fechan dlawd ddrylliadig, bron yn nghylch ennill y porthladd gwynfydedig; ac O mor felus fyd y berth ar ol yr ystom!'

"Ar y dydd o flaen ei farwolaeth, efe a waeddodd, 'Onid oes amser terfynedig i ddyn? Iesu anwyl, ti wyt fy nerth, fy nghynhaliaeth, fy iachawdwriaeth, fy iachawdwriaeth. Dywed-wch wrth fy nghyfeillion, anwyl fy mod i yn myned: mae Iesu gyda mi, ac nid wyl yn ddigalon oll. Yr wyl yn llawn o gysur a diddanwch, ac yn gallu etto gofio gair gwerthfawr Duw. Ni wełais erioed gymaint o'm hannheilyngdod fy hun, neu gymaint o ardderchawgrwydd, gogoniant, ac addasrwydd Crist fel holl-ddigonol Iachawdwr. Mewn perthynas i'm syniadau; parhaodd ddyweddyd, 'nid wyl fi mewn un fferdd

wedi cyfnewid yr athrawiaethau a bregethais, mae'n gwbl ddiogel genys, ydynt o'r gwirionedd. Hwynthwy yn awr yw cyn-haliaeth a diddanwch fy meddwl. Yr Iesu hwnw, yr hwn cyhyd a gymmeradwyais i bechaduriaid tlodion, yw fy unig gysur yn fy oriau marw. Mae ei iachawdwriaeth ef bob ffورد yn berffaith a chyflawn.'

"Yn gynnar bore y dydd y bu ef farw, efe a ddywedodd, a gwynebpryd siriol a gwenog, 'Edrych i fynu, fy enaid, a gorfoledda, canys dy iachawdwriaeth a nesaodd!' Yna chwanegodd, 'Yr wyf yn edrych i fynu at Iesu,—dim ond cam neu ddau yn mhellach, ac mi fyddaf yn nhŷ fy Nhad nefol.' Er bod ei wasgfeuon corphorol weithiau yn ddirfawr, etto y golygiadau oedd ganddo am iachawdwriaeth orphenol yr Iesu a'i cyfodai uwchlaw iddynt oll; ac yn y cyflwr meddwl dedwydd yma y parhaodd, hyn onid, a gwynebpryd gwenog, y rhoddodd i fynu ei ysbyrd i ddwylaw ei Dad nefod, ar Gorphenaf 27, 1799."

Yn awr, beth a ddwedwn ni wrth y pethau hyn? Yma ni gawn lawer o dystion a dystiolaethasant, yn unfryd, mai trugaredd ben-arglwyddiaethol Tri-Un Duw Israel, wedi ei harddangos mewn etholedigaeth dragwyddol, prynedigaeth neillduol, a datguddiad ysbrydol, oedd eu cynhaliaeth hwynt mewn bywyd, a'u hunig ddiddanwch yn agau. Hawdd fyddai helaethu y gofrestr gyda chwmmwl o dystion; ond yr amser a ballai ddyweddyd am Owen, am Gill, am Brine, am Hervey, am Romaine, am Hawker, ac am fil eraill, a fuant byw a mawr mewn crediniaeth o'r gwirioneddau hyn. Yr Arglydd ei hun a'u cysfarwyddasai a llaw gref; efe a ddangosai iddynt ddrygedd anfeidrol pechod, ac a'u darostyngodd a'r fath olygiadau o'u gwir gymmeriad, fel pechaduriaid collfarnedig, fel ag yr argyhoeddwyd hwynt nad dim yn fyr o iachawdwriaeth orphenedig a diammodol a attebai eu hamgylchiad truenus. Ond a ddichon prynedigaeth anmhennodol roddi cysur mor gryf? A all esengyl "ie a nage" gynnal y meddwl fel hyn? Attebed cyffesiad Mr. Fuller ei hun, ar ei wely angau, yr holiad hwn.

Gydy theimladau cymmysgedig o hyfrydwch ac ofn yr wyf yn appelio at eiriau diweddaf Mr Fuller. O ofn, o achos y tynerwch perthynol i'r testyn; o hyfrydwch, o herwydd y caniata ei gyffes ddiweddaf o obaith, achos helaeth o ddiolchgarwch i Dduw ar ei ran. Amgylchiad caddugol yn wir a fuasai myned Mr. Fuller o'r byd gan amlygu yr un hyder yn

yr athrawiaethau a ddysgasai, ag a wnaethai Cole, Toplady, &c. yn y gwirioneddau anfarwol a gynhaliodd eu meddyliau hwy. Ymddengys yn lled eglur, bod yr Arglwydd, yn holl ystod ei glefyd diwaddaf, yn ei addysgu drwy y moddion o'i gystuddiau cymblethedig, ac yn rhoddi ar ddeall iddo, mewn modd eglurach nag y deallasai erioed o'r blaen, mai nid er mwyn ei gyfiawnder ei hun yr oedd ef ar fyned i mewn i feddiannu y wlad. Yr oedd ef yn ddeiliad, nid yn unig o ddiodefant corphorol tra mawr, ond o lawer o dywyllwch ac iselder ysbyryd; sefyllfa meddwl ag y mae y saint godidocaf yn agored iddo, ac a'r hwn y gwneir holl etholedigion Duw ryw amser neu gilydd yn gydnabyddus. Tra yn cael ei ymdrin fel hyn, ymddengys yr amgylchid ef a chysurwyr truenus, y rhai a'i hadgofient o'i ddaioni godidog, a'r gwobrwy canlynedig. Un o'r rhywogaeth yma a ddywedodd wrtho, "Nid adwaen i un person, Syr, ag sydd mewn sefyllfa ddedwyddach na chwi eich hun; dyn da ar drothwy anfarwoldeb gwynfydedig." Ond nid oedd Mr. Fuller mewn cyflwr meddwl i'w ddiddanu a'r ystyriaeth o'i ddaioni, er y dyweda ei fywgraphiedydd, "iddo gydsynio yn ostyngedig, a gobeithio mai felly yf oedd."\* Ond hyspysir i ni "iddo wedi hyny ddyrchafu ei ddwylaw i fynu, a gwaeddi allan, 'Yr wyf fi yn bechadur mawr, ac os achubir fi, rhaid mai trwy ras mawr a phen-arglwyddiaethol—trwy ras mawr a phen-arglwyddiaethol.'" Diolch i Dduw am y fath floedd a hon!

Cyfaill arall, un Mr. Burls, yr hwn oedd dyst o'i oriau di-weddaf, a ysgrifena fel hyn ;† "Mewn perthynas i'n cyfaill anwyl, siomir llawer o barthed ei profiad ar ei wely angau; cyn lleied sydd yn adnabyddus o deimladau ei feddwl. Tra yr oedd ef yn alluog i ymddiddan, swm yr hyn a ddywedodd oedd,—na chawsai ef unrhwy berlewygfeydd, un anobaith. Nid oedd ei deimladau gymaint mewn ymarfeirad ag oedd ei farn." Diamheu y siomid llawer mewn perthynas i brofiad Mr. Fuller ar ei welu angau. Diamheu, llawer o'i gyfeillion a ddisgwyliasent y buasai i wr mor dda, mor dduwiol, pan ddeuai i farw, fwrw golwg yn ol ar ei fywyd a dreuliasai crystal, ac amlygu yr hyder mwyaf y cymmeradwyid ei ymderchiadau diffuant a gostynedig drwy haedd edigaethau ein Hiachawdwyr. Ond gwelodd Duw yn dda yn ei drugaredd siomi eu disgwyliadau ffwr. Gwelodd ef yn dda argyhoeddi Mr. Fuller ei fod oll i gyd fel peth aflan, ac nad oedd un gobaith i'w enaid

\* Morris' Memoirs, 8vo. 1816, p. 460. † Bap. Mag. 1815, p. 248.

euog, ond ar y sylfaen o drugaredd ben-arglwyddiaethol yn unig. Nid oes gan gyfeillion y gwirionedd un achos i fod yn siomedig gyda phrofiad gwely angau Mr. Fuller, ond yn hytrach diolch i Dduw ar ei ran, Y mae achos helaeth i gredu ei lwyr argyhoeddi, os cedwid ef, y gwnelid hyny, nid o herwydd ei fod mor dda, mor dduwiol, ac yn wr mor ddefnyddiol, ond oblegid i'r Iesu ddwyn ei bechodau a marw yn ei le. Yn ganlynol, efe a amlygodd ei hun yn y geiriau perthynasol hyn : "Yr wif fi yn greadur tlawd ac euog; ond yr Iesu yn Iachawdwriaeth heblaw sydd yn tarddu oddiwrth ras pen-arglwyddol yn unig, trwy iawn fy Arglwydd a'm Hiachawdwr. Yn y gobaith hwn, mi allaf fyned i dragwyddoldeb gyda thawelwch,"\*

Yr ymadroddion diweddaf hyn sydd gynnwysedig mewn llythyr tra chyffrous a theimladwy, a ysgrifenodd ef at Dr. Ryland ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth. Gwyn fyd, na fuasai holl ystod gweinidogaethol Mr. Fuller mewn cyd-gordiad athrawiaethol a'r llythyr hwnnw! Ymddengys ei fod yno yn cydnabod pen-arglwyddiaeth ddwyfol yn ei holl ranau. Yr yr un llythyr y mae'r geiriau nodedig canlynol : "Mi a bregethais ac a ysgrifenaus lawer yn erbyn y camdriniaeth o athrawiaeth gras; ond yr athrawiaeth hono, fy holl iachawdwriaeth a'm holl ddymuniad yw." Yn awr, er nad yw hyn yn ymwrthodiad ffurfiol o'i egwyddorion blaenorol, etto bradych yna amlwg ddrwg-dybiaeth dirgel iddo fyned yn rhy bell yn ei wrthwynebiad i'r gamdriniaeth o athrawiaeth gras. Ni ddyga ef un dystiolaeth dros wirionedd ei egwyddorion blaenorol, yn gyffelyb i Cole, Toplady, a Macgowan; ni wna un cyfeiriad attynt hwy fel ei gynhaliaeth yn angau, ond yn hytrach datguddia anesmwythder celedig, rhag na buasai pob peth yn iawn. Pe amgen beth a feddylia y cyssylltiad arwyddocaol hwnnw, "ond?" Neu pa ham y cyfeiriodd Mr. Fuller yn neillduol at y ddadl rhyngddo a'i, frod yr, y Bedyddwyr, yn enwedig mewn llythyr at Dr. Ryland, yr hwn y gwyddai a ddaliasa; gynt syniadau gwahanol i'r eiddo ef y pryd hyny. Ysgrifenasai Mr. Fuller yn erbyn y Sosiniaid; ysgrifenasai yn erbyn y Sandemaniaid; ysgrifenasai yn erbyn Mr. Dan. Taylor, y Bedyddiwr Cyffredinol; ae yn erbyn Mr. M'Lean o Edinburgh; eithr ni wna efe y cyfeiriad lleiaf at unrhyw beth a ysgrifenasai yn erbyn y rhai hyn. Yr oedd ei feddwl yn

gwbl dawel mewn perthynas i'r rhan a gymmerasai efe yn eu dadleuon hwy. Ond efe a ysgrifenasai yn erbyn yr hyn a ystyriai yn gamdriniaeth o athrawiaeth gras; ac os, fel dyn yn marw, y cyfeiriodd ef at yr hyn a ddysgasai ar y ywngc hwn, gallesid disgwyl o leiaf y gosodasai efe ei sel ddiweddaf wrtho, pe meddiannasai yr hyder y daliaſai ei athrawiaeth ei phrofi. Yn lle hyn, ni a gawn yr "ond" arwyddocaol, yn yr hwn yr arwyddir llawer nad yw adroddedig; a'r holl ddryllymadrodd a ddatguddia yn amlwg ddrwg-dyb dirgel, os nið crediniaeth, bod yn yr hyn a ysgrifenasai yn erbyn camdriniaeth gras pen-arglwyddiaethol, dueddrwydd i ddymchwelyd gras pen-arglwyddiaethol ei hun; etto drwy diriondeb trosturi Duw, efe a wenir i gyfaddef yn rbwydd, mai trugaredd ben-arglwyddiaethol, a thrugaredd ben-arglwyddiaethol yn unig, yn ei holl gymhwysiadau, yw unig sylfaen gobaith ei enaid euog a halogedig.

Pa mor boenus bynag y dichon fod, ar ryw ystyriaethau, gyferbynu profiad gwely angau Mr. Fuller a'r eiddo meibion gwerthfawr Seion y cyfeiriwyd attynt yn barod, y poen a lyngcir i fynu yn yr ystyriaeth hyfryd, bod y gwrthwynebwr mwyaf ystrywgar i ras pen-arglwyddiaethol a ymddangosodd erioed yn ein henwad ni, yn gof-adail ei hun o'r gras enwedigol hwnw ag yr oedd tueddrwydd ei ysgrifenadau i'w ddistrywio. Mae achos da i obeithio, bod yr hwn un waith a ymdrechodd brofi nad yw euorwydd yn drosglwyddadwy, yn canu cân wahanol, "iddo ef, yr hwn a'n carodd ni, ac a'n golchodd ni oddiwrth ein pechoda yn ei waed ei hun." Mae genym achos i feithrin yr adfyfyriad boddhaol, ei fod ef, yr hwn gynt a wadodd natur fachniol marwolaeth Crist, yr hwn a ddysgodd i'r Iesu farw yn anmhennodol, yn uno yn awr a'r dorff ddirifedi a brynwyd a gwaed, i glodfori prynedigaeth neillduol ger bron yr orseddfaingc, ac yn canu yn yr un cydgordiad i'r Oen dyrchafedig, "Teilwng wyt ti i gymmeryd y llyfr, ac i agoryd ei seliau ef; oblegid ti a laddwyd, ac a'n prynaist ni i Dduw, trwy dy waed, allan o bod llwyth, ac iaith, a phobl, a chenedl."

Ac yn awr, fy anwyl Syr, bydd wych! Trugaredd ben-arglwyddiaethol fyddo dy gynhaliaeth mewn bywyd, a'th ddi-ddanwch yn angau. Llawen a fydd genyf fi glywed dy ddyfod yn bregethwr mwy penderfynol o honi, ac o'r cyflawnder goneeddus hwnw a ddatguddir yn yr efengyl. Ond os anrhuddir di fel hyn, bid sicr it' na ddiengi di rhag erledigaeth. Mae gwrthwynebiad i'r gwirionedd wedi dyfod yn awr yn rhy

gyffredin, nid yn unig yn y byd, ond y'mhlith proffeswyr, i oddef i ti ddiangc. Ond ffydd yn y cyflawned gogoneddus hwnw a'th wna di yn gadarn mewn gwendid, yn orfoleddus mewn gorthrymderau, ac yn fuddugoliaethus yn munudau ofnadwy marwolaeth. Os, yn dy ymdrech olaf a brenin y dychryniadau, y gwel yr Yspryd Glan yn dda ddisgleirio dy enaid a gogoniant y cyflawned hwnw, ti a gyfarfyddi yr anghenfil gyda gwen, ac a ddolefi yn fuddugoliaethus, "O angau, pa le y mae dy golyn? O usfern, pa le y mae dy fuddugoliaeth?"

Yn awr, arosaf, anwyl syr,

Yr eiddot yn ddiffuant,

WM. RUSHTON, IEUAF,

LIVERPOOL, Awst 31, 1831.

## EGLURHAD

O RAI GEIRIAU A DDEFNYDDIWYD YN Y CYFLEITHIAD HWN.

---

**A**rbenig, *cardinal*, penaf;—solemn, dwys, disrifol.

**A**nmhennodol, *indefinite*, anneillduol, cyffredinol, annherfynol.

**A**rddelwi, *demand*, hawlio, mynnu, arfynnu, *dymandio*.

**A**pelio, *appeal*, gosod ar, ymgyfeirio at, ymfwrw.

**B**oddhâd, *pleasure*, ewyllys—myn, hyfrydwch.

**B**arnol, *judicially*, yngneidiol, brawdwrol, barnedigol, ded-frydigol, llŷs-farnol.

**C**hwilio, *examine*, olrhain, pwys o peth, ymofn, profi.

**C**adeirdraw, *president*, cadair-athraw, pen-athraw.

**C**offau, *quote*, difynu;—extract, tynnau allan.

**C**ynnrycholi, *represent*, cynnrychioli, cyd-bresennoli, cyd-olygu, cyd-gynnwys.

**C**rynwth, *abstract*, swm, cyfanswm, lwmp, clamp; corph.

**C**yfansoddi, *constitute*, gwneuthur, gwneddyd, gorugo.

**C**ymhwysiadau, *bearings*, cyfeiriadau, pwys o profi o peth.

**D**adlwriaethol, *polemical*, ymresymyddol.

**D**ull-ymadrodd, *style*, dull-iaith.

**D**iammwys, *unequivocal*, yn ddiamheugar, eglur, didwyll, an-naueiriog—heb chwareu'r ffon ddwybig, heb lafaru a dwy ochr y geg, heb air mwys.

**D**irprwyo, *substitute*, mabwysiadu, cymmeryd un peth yn lle'r llall.

Darbwyllo, *persuade*, pērswadio, cynggori, s̄erhau.

Dyhuddiad, *expiation*; hudd, enhudd, enhuddiad, dyhuddiant, ciidd, gorchudd.

Dylanwad, *influence*, effaith, llywodraeth, gorēsgyniad, goruch-wyliaeth.

Esgusodiad, *apology*, ymddihēurad, ymōstyngiad.

Efelychu, *imitate*, dilyn, dynwared, tebygoli, dyddelwi.

Esgynglwyd, *scaffold*, adeilglwyd, esgynglawr, esgynloriaeth, ysgaffaldiau.

Gwrthrychol, *objective*, cyferbyniol, ar gyfer.

Gorsefyll, *consist*, sefyll, cynnwys.

Gwir, *very*, ei hun, yn bennadol: iawn, tra, pur, nodedig, oll, enwēdigol.

Gweithydd, *works*, gweithiau, cyfansoddiadau, ysgrifeneddau.

Hyd yn oed, *even*, nid amgen, ie, yn unig, yn oēd.

Iawn, *atonement*, cymmod, boddlonrwydd, heddychiad, dadol-wch, annhormach.

Iawn-ffyddiog, *sound*, iachus, union-gred, cyfanwir.

Llēenyddion, *clergy*, gwyr eglwysig duwinyddol, gwyr mewn urddau sanctaidd, urddedigion, parchedigion, gwyr mawr, boneddig.

Lleygion, *laity*, gwyr llŷg, llygwyr, anurddedigion, y werinos, gwyr bach cyffredin, gwreng.

Neonomiad, *neonomian*, ddeddf-newyddiad.

Oddiyma, *hence*, o hyn y mae, o hyn y cyfyd, o hyn y tardda, yna.

Pennodi, *appoint*, pennu, trefnu, appwyntio, gosod.

Trosglwyddiad, *transfer*, trosi, tynnu oddiar un a gosod ar un arall.

Tri-Un, *trione*, trindod-undod.

A12019

School of Theology  
at Claremont

B94

42193



